10300063180008

# GWEITHIAU BARDDONOL
# Y DIWEDDAR
*BARCH DAVID JONES.*

*Pris 3/-*

William Powell
15 Nantlle Terrace
Nantlle

# CASGLIAD

O

# WEITHIAU BARDDONOL

Y

DIWEDDAR BARCHEDIG

## DAVID JONES,

TREBORTH.

BANGOR:

ARGRAFFWYD GAN EVAN WILLIAMS, CAMBRIAN PRINTING WORKS,
DEAN STREET.

LIBR
14
JU
1976
OF TORONTO
SITY

# RHAGYMADRODD.

Wele gerbron y darllenydd gasgliad o Weithiau Barddonol y diweddar Barchedig DAVID JONES. Yr oeddym yn bwriadu i'r Gyfrol hon gynnwys yr oll o'i gyfansoddiadau barddonol, oddieithr ei Bryddest ar Ddyn, yr hon a gyhoeddwyd er ys blynyddoedd bellach, yn Llyfr destlus. Hefyd gadawsom allan rai Englynion o duedd ddifyr a gwawdus *(sarcastic)*. Gyda yr eithriadau hyn, yr ydym yn hyderu ein bod wedi llwyddo yn ein hamcan.*

Nid yw yn angenrheidiol i ni ddywedyd ond ychydig am nodwedd y Farddoniaeth a geir yn y Gyfrol hon, oblegid y mae llawer o'i chynnwys eisoes yn adnabyddus i'r miloedd darllenwyr Cymreig, yn y wlad hon yn nghyd a gwledydd tramor. Cyhoeddwyd y Pryddestau ar "Y Mab Afradlon," ac "Aberth Crist," yn Llyfrau, pa rai a gawsant gylchrediad helaeth, ond erbyn hyn ydynt wedi eu llwyr werthu. Ac oherwydd fod cymaint o alw adnewyddol am danynt, barnasom mai doethineb ynom oedd eu rhoddi yn y casgliad hwn. Y mae y Llyfr hwn yn cynnwys llawer o ddarnau prydferth na chyhoeddwyd yn flaenorol, yn nghyd a'r "Cywydd" a gyfansoddwyd ar losgiad Glyn Llifon, palasdŷ Arglwydd Newborough, ger Caernarvon. Argraffwyd y Cywydd yn y *Carnarvon and Denbigh Herald* yn y flwyddyn 1836, ac oni buasai fod *copy* o'r Newyddiadur

* Yn rhy ddiweddar i'w rhoddi i mewn, cawsom 12 o englynion a gyfansoddwyd ganddo, i anerch cyfrol o Weithiau Barddonol Dafydd Ionawr, yr hon a gyhoeddwyd yn Nolgellau.

ar gael yn y *British Museum* yn Llundain, ni allasem anrhegu ein darllenwyr ond âg ychydig linellau o hono.

Yr ydym yn cael fod yr Awdwr wedi cyfansoddi llawer o'i weithiau cynghaneddol, pan yn ieuanc, a'u rhoddi o'r neilldu am dymhor maith, a'u hadolygu, a'u cymhwyso i'r wasg, mewn blynyddoedd diweddarach. Dengys ei MSS. fod llawer o ddefnyddiau ei Awdlau, yn gynnyrchion boreu ei oes. Rhoddodd fodolaeth i lawer o'i linellau *anfarwol* er ys dros ddeugain mlynedd. Nodwn y llinellau canlynol fel engreifftiau o honynt:—

"Gwaed y groes a gôd y graith
I orphen gwella 'n berffaith."

Eto—

"Fe roddai lamp fawr ddilen
Ar ddannedd yr Iorddonen,'

Yr oedd yn bleser genym gael y cyfleusdra i adferu llawer o'i farddoniaeth i'w gwisg wreiddiol, fel yr ydoedd eu Hawdwr wedi bwriadu iddynt ymddangos i'r cyhoedd. Cymerwyd hyfdra mawr ar lawer o'i weithiau, trwy gyfnewid llinellau, a hyny nid er gwell, mewn na chynghanedd na synwyr. Gwyddom fod yr ymddygiadau hyn wedi bod yn dristwch i'w feddwl: ond oherwydd ei ysbryd addfwyn a boneddigaidd fe ddygodd y groes o fyned dan siswrn mympwyol rhai nad oeddynt yn deilwng fel beirdd, i ddatod carai ei esgid. Ni enillodd gadair Eisteddfodol, ac ni anfonodd erioed ddernyn i gystadleuaeth; ond er hyny y mae ei syniadau gwreiddiol, yn nghyd a'r prydferthwch anghydmarol a pha un y gwisgai hwynt, yn hawlio iddo le uchel yn mysg prif feirdd ei oes. Dywedai yr anfarwol Eben Fardd: "Nid yn fynych y gwelwyd y fath gyfar-

fyddiad o dlysni a nerth cynghanedd ag a welir yn eiddo y gweinidog enwog o Dreborth." Yr oedd ganddo hoffder neillduol at y mesurau caethion, ac ni byddai yn hoffi clywed neb yn lladd arnynt; eto er ei hoffder o honynt, anaml yr aberthai synwyr, a phrydferthwch, ar allor cynghanedd. Y mae ganddo ambell linell heb fod i fyny a llythyren y gyfraith, ond y mae yr oll ohonynt yn rhy lawn o gyfoeth i'w gadael allan. Er y gallasem wellâu y cynghaneddion, yn y llinellau hyny, eto ni buasai y newid-iadau yn wir enill i'r farddoniaeth, ac felly yr ydym wedi eu gadael fel yr ewyllysiai yr Awdwr iddynt fod.

Nid yw y gwaith yn gwbl oddhaol genym. Buasai yn fwy dymunol pe y buasai wedi ei argraffu ar bapur gwell, ond codasai hyny bris y Gyfrol. Ein hamcan o'r dechreu ydoedd dwyn allan argraffiad rhad er mwyn i bawb a ewyllysiant ei feddiannu. Fe ddiangodd rhai gwallau i mewn, am ba rai y gallem ddywedyd nad ydym yn gyfrifol.

Dymunem gyflwyno ein diolchgarwch i bawb a fu o wasanaeth i ni yn yr anturiaeth hon, ac yn neillduol felly, i'r Bardd, a'r llenor coeth Clwydfardd.

Wrth ollwng y Gyfrol hon o'n dwylaw, ein dymuniad gonest ydyw ar iddi fod o fendith i bawb a'i darlleno. Bellach bydd ein hawdwr galluog, er wedi huno, yn "llefaru eto" yn ddeniadol, a difrifol mewn Chwech o Gyfrolau helaeth. Ac nid oes ynom amheuaeth na cheidw ei Weithiau ei "goffadwriaeth" yn fendigedig yn Nghymru am Genedlaethau lawer.

D. Charles Evans,
John Jones.

*Mehefin* 1879.

## ERRATA.

Tu dalen 34, y llinell gyntaf darllener "Diotwyr." Hefyd yr un tu dal. darllener "di-dor." Tu dal. 35, y bedwaredd linell o'r gwaelod darllener "Bau." Tu dal. 46 yn y 18 llin. dar. "Wrth y groes." Tu dal. 50, 20 llin. dar. "llewyrch;" eto llin 22, dar. "'ddiolchai 'n" Tu. dal. 52 y 7 llin. dar. "trwyddi," Tu. dal. 71 llin. 8 dar. "Ebr' 'llin. 25 dar. "Ai ddigol;" eto llin 27 dar. "I syw eirf;" eto llin. 39 dar. "Heb goll y llanwodd." Tu dal. 73 y 3 llin. o'r gwaelod dar. 'yswyd." Tu dal. 79 y llin. olaf dar. "Drwy ei ddidwyll." Tu dal, 87 y 4ydd. linell dar. "Gweini ei rhan wna i'w hanhwyl." Tu dal. 88 y 28 llin. dar. "Rhai gan ofnau'n sypiau sydd." Tu dal 93 y 3ydd, o'r gwaelod dar. "faddau." Tu dal. 98 llin. 18 dar. "ddifeth." Tu dal. 92 y 6 o'r gwaelod dar. "ini." Tu dal. 68 yn y nodiad ar ar waelod y ddalen darllener 1836. Tu dal. 102, llin. 24 dar. "trwy eigion." Tu dal. 242 y llin. olaf dar. "trosom," yn lle drosom.

# CYNNWYSIAD.


| AWDLAU | TUD. |
|---|---|
| Y Sarph Bres | 82 |
| Drych y dyfodiant i Gristion | 36 |
| Er Côf am y Parch. Wm. Lloyd | 78 |
| **CYWYDDAU** | |
| Llosgiad Glynllifon | 68 |
| Canwyll | 53 |
| Enllib | 135 |
| **ENGLYNION** | |
| Am Uffern | 34 |
| Golwg foreu oer, ar Eryri | 53 |
| Yr Iawn a'r Eiriolwr | 54 |
| Y Puritaniaid | 54 |
| I'r Meddwon | 33 |
| Dadl rhwng y Prynwr a'r Gwerthwr | 59 |
| Crist Iesu | 61 |
| Hyder y Cristion | 67 |
| Trag'wyddoldeb | 67 |
| Awrlais (*Watch*) | 67 |
| Ty Dduw | 74 |
| Enllibwr | 75 |
| Wrth weled Claddu Eben Fardd | 75 |
| Dewi Wyn | 76 |
| I'r Parch. Cadwaladr Owen | 79 |
| Galwad ar Bechadur | 81 |
| Abergele | 81 |
| Wrth wrandaw Cantores | 81 |
| Teml y Prynedigaeth | 105 |
| Gair Duw | 109 |
| Edifeirwch | 113 |
| Gymalwst | 118 |
| Pwy sydd fwyaf | 131 |
| Dirwest | 148 |
| Yn atteb i Eben Fardd | 151 |
| Meddwl myned i'r America | 152 |
| I'r Ia | 152 |
| Usuriaeth | 153 |
| Morgrugyn | 227 |
| Angau y groes | 231 |
| Haelioni at waith yr Arglwydd | 242 |
| Heddwch a Duw | 245 |
| Penwynu | 248 |
| Mr Thomas Williams | 252 |
| Byrdra oes Dyn | 253 |
| Mormoniaeth | 254 |

## ENGLYNION, ER COF AM

Mrs Jones, priod yr Awdwr . . . . . . . . . 111
D. Jones, 'Rachub . . . . . . . . . . 134
Mrs Jones, 'Rallt, Mon . . . . . . . . . 150
Miss Mary Roberts, Crug. . . . . . . . . 232
Miss Ann Jones, merch yr Awdwr . . . . . . . 233

## BEDD ARGRAFFIADAU

Plentyn deuddydd oed . . . . . . . . . 53
Un Addfwyn . . . . . . . . . . . 61
Thomas Pritchard, a'i Wraig . . . . . . . . 110
Plentyn Griffith Griffiths . . . . . . . 112
Geneth . . . . . . . . . . . . 118
Miss Selina Owen . . . . . . . . . . 118
John Thomas, Llanberis . . . . . . . . . 126
Y dyn rhinweddol . . . . . . . . . . 127
Hen grefyddwr . . . . . . . . . . . 127
William Williams, a'i briod, Llanrug . . . . . . 127
Merch W. Jones, Penybont . . . . . . . . 249
Yn rhybudd i'r byw . . . . . . . . . . 152

## PRYDDESTAU.

Aberth Crist . . . . . . . . . . . . 8
Y Mab Afradlon . . . . . . . . . . . 154

## PENILLION.

Y mae Hwn yn derbyn pechaduriaid . . . . . . 55
Nesâu at Dduw . . . . . . . . . . . 57
Gorphenwyd . . . . . . . . . . . . 59
Yr Arglwydd yw . . . . . . . . . . . 62
Aeth adref cyn teithio hyd Sinai . . . . . . . 80
Tŷ fy Nhad . . . . . . . . . . . . 106
Hyfrydwch y Nefoedd . . . . . . . . . . 119
Cariad y Bugail Da. . . . . . . . . . 132
Pen y Wyddfa . . . . . . . . . . . 140
Mawrhad dyn gan y Duwdod . . . . . . . . 228
Cân y Pererin. . . . . . . . . . . 233
Nesâu at Dduw yn gysur, &c. . . . . . . . 243
Gwneuthur Estroniaid yn Blant . . . . . . . 246
Eiriolaeth Crist . . . . . . . . . . . 249
Haeddiant Crist yn Sail Maddeuant . . . . . . 249
Clychau 'r Archoffeiriad . . . . . . . . . 253
Maddeuant . . . . . . . . . . . . 254
Mawl Odl . . . . . . . . . . . . 255

## PENILLION MARWNADOL

Er Coffadwriaeth am ddwy ferch i J. Roberts, Ysw. M.P.,
Bryn gwenallt, Abergele . . . . . . . . 116
Mrs Williams, Pwllheli . . . . . . . . . 128

# ABERTH CRIST.

### I. CARIAD DUW YN NGHRIST.

O Gariad! O Gariad mor rad!
  O foroedd o Gariad mor fawr!
Mab uniganedig y Tad
  Ddisgynodd o'i nefoedd i lawr;
Cymerodd ei wneuthur yn gnawd,
  Dynoliaeth a Duwdod yn un;
Bu farw ar groesbren dan wawd,
  Yn lle ei elynion ei hun!

Y Cariad, trwy'r oesoedd o hyd,
  Fu'n sylwi'n dosturiol ar ddyn.
Er hyned afiechyd y byd,
  Mae'r Cariad trag'wyddol yn hŷn.
Llewyrchodd i ddechreu fel gwawr,
  Cynnyddodd fel lleuad deg liw,
Ac wele, fe aeth yn Haul mawr,
  Yn Haul creadigaeth ein Duw.

Bu Cariad am oesoedd heb dŷ,
  Nes cafodd y babell, tŷ'r arch;
Esgynodd yn uwch ar fryn fry,
  I'r deml ar Moriah mewn parch;
Ond chwyddodd yn angeu y groes
  Dros eithaf terfynau'n byd ni,
A dolef fuddugol a roes—
  "Mae'r tŷ adeiledwch i mi?"

Y Cariad a brofodd mor fawr
  Yn mawredd y camrau a roes;
Dychlamodd o'r nefoedd i lawr,
  O'r gwynfyd i angeu y groes:
Ac yna, gorlamodd mewn hedd
  O'r ddaear yn ol i'w hen wlad;
Dychlamodd o ddyfnder y bedd
  Mor uchel a deheulaw'r Tad.

Mae'n Gariad at engyl y nef;
  Ond llawer rhyfeddach at ddyn.
Maent hwy yr un duedd ag ef;
  Ond yma mae'n cyfwrdd drwg wŷn.
Mae yno'n difyru'r holl lu
  Gadwasant eu gwisgoedd yn lân;
Ond yma mae'n golchi y du,
  Gan achub pentewyn o'r tân.

Mae Cariad yn Nghanaan o hyd
  A'i ddefaid mewn porfa mor fras,
Yn iachus a chryfion i gyd,
  Yn mhell uwch law pobpeth sy'n gas;
Ond yma mae'n adfer y gloff,
  A gollodd dan eira a rhew,
Ei chyrchu a'i choledd mor hoff,
  Gan achub o grafangc y llew.

Mae Cariad yn llifo i lawr
  Fel afon annhraethol ei maint;
Disgynfa i ddyfnder mor fawr,
  Mae gwel'd yr olygfa'n wir fraint.
Boneddion Paradwys i gyd
  Ymdyrent, dan ganu mor lon,
Gan chwennych yn nerthol o hyd
  Gael gwel'd y rhyfeddod fawr hon.

Ca'dd Cariad wrth weini i ni,—
  Daioni'n egwyddor mor gref,

Ryw enwau newyddion o fri,
  Nas gallai eu cael trwy'r holl nef.
Amynedd, tosturi at ddyn,
  Trugaredd, sy'n enw mor fwyn,
Deil Gariad â'r truan yn nglŷn,
  Mae'r enw yn cynnwys rhyw swyn.

Mae Cariad trwy'r nefoedd mewn hedd,
  Ond yma mae'n ymladd â drwg;
Mae yno'n llawenydd a gwledd,
  Ond yma ymrithia mewn gwg:
Ei ryfel ar faes ein byd ni
  Ddyg deitlau goruchel i'w hawl,
A ddaliant byth bythoedd mewn bri,
  I ennyn y nefoedd mewn mawl.

Mae'n wir am ein daear, nad yw
  Ddim mwy na rhyw lwchyn, neu lai,
Ar fin creadigaeth fawr Duw,
  Neu ddafn ar lan cefnfor di drai;
Ond Cariad wnaeth arni waith mawr,
  Gorchestwaith egwyddor mor gref,
Calfaria fydd mwyach bob awr
  Yn acan caniadau'r holl nef.

Os ynys bach Corsica sydd
  Yn hysbys trwy'r ddaear o'r braidd,
Lle ganwyd Napoleon i'w ddydd,
  A grynodd deyrnasoedd i'w gwraidd;
Pa ryfedd fod pawb trwy'r ail fyd
  Yn hysbys o enw'n byd ni,
Lle ganwyd eu Brenin i gyd—
  Er lleied, rhoes arni fawr fri.

Bydd Cariad yn cydio byth mwy
  Yn enw Calfaria, lle'r boen;
Calfaria! ei adsain sydd trwy
  Awyrgylch paradwys yr Oen;

Calfaria! ei gofio a wnair
  Pan chwalo y ddaear o'i chant;
Calfaria! argraffwyd y gair
  Yn nghalon pob seraph a sant.

## II. CARIAD DUW WEDI YMGNAWDOLI YN CAEL EI DRIN YN GREULON YN Y BYD.

Y Cariad trag'wyddol yn Nuw
  At ddynion mewn gwrthdro mor chwith,
O'r diwedd ddaeth attynt i fyw,
  Ymffurfiodd yn ddyn yn eu plith:
I 'mweled â dynion y daeth,
  Cydrodiai â dynion yn dlawd,
A rhoi ei ddynoliaeth a wnaeth
  Dros ddynion i farw dan wawd.

Er gorthrwm triniaethau y byd
  I Gariad pan yma yn byw,
Arosodd yn Gariad o hyd,
  Heb oeri, na newid ei ryw:
Pob gwawd a roid iddo gan ddyn,
  Yn Gariad attebai y ffol;
Pob cernod roid iddo mewn gwŷn,
  Ad-daro yn Gariad wnai'n ol.

Pob archoll ro'i dynion i'w gnawd,
  Dylifai yn Gariad trwy'r clwy';
Pan fwyaf ei glwyfau a'i wawd,
  Gwnai Cariad dd'od allan fwy fwy;
Trwy'r clwyfau yn rhedeg ar frys
  Gwir ffrydiau o Gariad a gaed;
Llifeiriai yn Gariad drwy'r chwys,
  A Chariad a lifai drwy'r gwaed.

Gelyniaeth uffernol y byd,
  A Chariad Jehofah gras-lawn,
A ymgyfarfuant yn nghyd
  Rhwng lladron ar groesbren brydnawn;

Mwy eglur daeth Cariad drwy'r pryd,
  Eglurach daeth digder y fall;
A'r naill a ad-daflai o hyd
  Ryw oleu mwy fwy ar y llall.

Gelyniaeth a Chariad a roed
  I fesur eu gilydd yn awr;
Ni chawsant fath gyfle erioed
  I ddangos eu hunain mor fawr;
Pob un yn d'od allan o hyd
  I brofi pa gymaint a all,
Gan fesur eu nerthoedd yn nghyd,
  A rhaid i'r naill drechu y llall.

Gelyniaeth ddirmygai bob gwerth,
  A Chariad ddibrisiai bob braw;
Pob un yn ymestyn ei nerth,
  I fesur y llall i'w ben draw;
Nis gallai'r elyniaeth gael glan,
  Dim terfyn i'r Cariad nid oes;
Ond Cariad ni theimlai'n fwy gwan
  Wrth ladd yr elyniaeth trwy'r groes.

Gelyniaeth ar eithaf yn awr,
  Nis gallai ymestyn ddim hwy;
Ond Cariad aeth ddyfnach i lawr—
  O Gariad! beth allai wneyd fwy?
Y Cariad yn gaeth ar groes gref,
  A gallu'r elyniaeth yn rhydd;
Ond Cariad o'r dyfnder roes lef—
  Gorphenwyd, ennillais y dydd.

Creulondeb, llid dynion at Grist
  Droes Cariad i ddynion yn hedd;
Ei ddirmyg gofidus a thrist
  Droes Cariad i ddynion yn wledd;
Yr angeu ergydiodd y byd
  At Iesu mewn dig a drwg wŷn,
Droes Cariad yn ol, yr un pryd,
  Yn fywyd trag'wyddol i ddyn.

Tair afon digofaint fel un,
  O uffern, y ddaear, a'r nef,
Gydruthrent ar Iesu ei hun,
  Heb bleidiwr dan genllif mor gref;
Ond cariad ein Meichiau graslawn
  A ddaliodd ryferthwy y lli';
A throes y tair afon, mewn Iawn,
  Yn ddyfroedd y bywyd i ni.

### III. Y BYWYD TRAGYWYDDOL WEDI YMGNAWDOLI AC YN TRECHU ANGEU.

Y Bywyd trag'wyddol ei hun
  A drigodd mewn pabell o glai;
Disgynodd, ymffurfiodd i'n llun—
  Fel ninnau, ond perffaith ddi fai.
Effeithiau marwolaeth a dŷn—
  Y Bywyd ymwisgodd mewn cnawd;
Plant angeu a gawsant, fel hyn,
  Y Bywyd trag'wyddol yn Frawd.

Y Bywyd a brofodd ei hun,
  Meistrolodd bob pla o bob rhyw:
Cyffyrddodd â'g elor rhyw un,
  A'r marw gyfododd yn fyw;
Pan gladdwyd er's dyddiau frawd Mair,
  A dechreu braidd lygru ei wedd,
Yn unig dywedodd y gair,
  A'r marw ddaeth allan o'i fedd!

Y Bywyd ymwisgodd mewn cnawd;
  Cymhwyso ei hunan a wnaeth
I ymladd âg angeu, trwy'r gwawd,
  Gan ddyfod i gyraedd ei saeth.
Ymladdfa ofnadwy a fu,
  Ni welodd angylion ei hail;
Ymwisgodd y nefoedd mewn du,
  A'r ddaear a grynodd i'w sail.

Y brenin deyrnasodd drwy'r byd,
  Cymerodd ddynoliaeth yn sarn;
Meddiannodd blant Adda i gyd,
  Gorweddai'r holl ddaear dan farn;
Fe gadwai'r tri marw yn nglŷn,
  Yn gyfan farwolaeth ddi dawl—
Ond ffurfiodd y Bywyd yn ddyn,
  Ac angeu yspeiliodd o'i hawl.

Nerth angeu'n arswydus a fu,
  Meddiannai awdurdod mor gref;
Holl allu cyfiawnder o'i du,
  Am bechu yn erbyn y nef.
I ddwyn ei awdurdod a'i nerth,
  Rhaid atteb y nefoedd âg Iawn;
Ond cawsom Frawd digon ei werth
  I atteb pob gofyn yn llawn.

Dechreuodd llaw'r gelyn ei drin,
  A'i rinwedd esgynai i'r nef;
Wrth iddo ei wasgu'n fwy blin,
  Mwy ddyrchai o'i haeddiant mawr Ef;
Pan ddrylliodd llaw angeu'r wisg gnawd,
  Y Bywyd, o urddas mor lawn,
Wnaeth haeddiant yn mherson ein Brawd,
  Nes llenwi'r holl nefoedd âg Iawn.

Cyfiawnder a alwodd ar hyn
  Hen warant gref angeu'n yn ol;
Marwolaeth ac uffern yn syn,
  Wel'd troi eu holl gyngor mor ffol.
Cyfiawnder roi'r warant byth mwy
  I'r Bywyd, fu yma'n ddyn tlawd;
Eu holl agoriadau hwynt-hwy
  A grogwyd wrth wregys ein Brawd.

Y Bywyd mewn dalfa a gaed,
  Ac angeu a'i gwasgai mewn brys;

Ond Bywyd ddaeth allan trwy'r gwaed,
  A Bywyd a lifai drwy'r chwys;
Trwy'r clwyfau angeuol, bob un,
  Daeth allan y Bywyd yn lli';
Agorwyd, gan angeu ei hun,
  Ar Ffynnon y Bywyd i ni.

Gwnaeth angeu'n greulonach o hyd
  A'r Bywyd, ymffurfiodd i'n llun,
Nes agor ar Fywyd i'r byd,
  Pan foddodd mewn Bywyd ei hun;
Nis gallodd ond tori trwy'r llen,
  Trwy amwisg y Bywyd mawr fri;
Dadlenodd, trwy'r hoelio ar bren,
  Y Bywyd trag'wyddol i ni.

Agorwyd ffordd newydd i'r gwan,
  Trwy deyrnas gref angeu i'r hedd;
Yn cyraedd o'r dyfnder i'r lan—
  Ffordd newydd trwy ganol y bedd;
Bu angeu a Satan ei hun,
  Tra'n hollol wrthwyneb eu bryd,
Mor brysur i'w gwaith a dim un,
  Yn agor ffordd Bywyd i'r byd.

Y ddinas sychedig a chaeth,
  Tu draw i bob gobaith o'r bron,—
Ond afon y Bywyd a wnaeth
  Ymweithio trwy greigiau i hon;
Llifeiriodd drwy angeu i lawr,
  O bellder trag'wyddol y nef,
A dyfroedd y Bywyd sy'n awr
  Yn afon drwy ganol y dref.

Nid lluchio pelenau tân poeth
  I dref ei elynion wnaeth Duw,

Ond darpar trefn gostus a doeth
  I'r marwol elynion gael byw;
Y Bywyd a wisgodd mewn clai,
  Gan ffurfio y Bywyd i'w rhith,—
Pan ddryllient, mewn llid, y difai,
  Gwasgarodd y Bywyd i'w plith.

Yr afon dan riniog y tŷ,
  A'i gwraidd yn ngorseddfaingc yr Oen,
Rhag hono, marwolaeth a ffy—
  Ei dyfroedd a ddiffydd bob poen;
Try ddwfr y môr marw yn fyw,
  Gan heigio o bysgod yn awr;
A'i bysgod a fyddant 'r un rhyw
  A'r pysgod sy'n nofio'r môr mawr.

Y Bywyd orchfygodd mor lwyr,
  Gwnaeth angeu mwy iddo yn wâs,
I gyrchu plant Iesu'n yr hwyr,
  O'r anial i Ganaan rhad ras.
Mewn angeu mae bywyd gwir ffydd;
  A bywyd, o angeu y daw;
Trwy angeu mae myned yn rhydd,
  O'r ddaear i'r bywyd sydd draw.

Yr Iesu, a'i aberth mawr Ef,
  Droes angeu'n ffordd bywyd i'w blant;
Yn rhan o'r ffordd newydd i'r nef,—
  Ond dernyn dan gysgod, mewn pant;
Y dosbarth ar derfyn dwy wlad,
  Lle cyffwrdd cysgodion dau fyd;
Y dernyn wrth drothwy tŷ'r Tad,
  Lle cyll y gofidiau i gyd.

Ymlwybrodd Offeiriad y saint,
  Ei hun drwy'r Iorddonen fawr ddu,
A holltodd ei dwfr, er ei faint,
  I sefyll yn furiau bob tu;

Ei dyfroedd arswydant o hyd
  Rhag cyffwrdd ôl gwadnau ei draed;
Caledodd ei gwaelod 'r un pryd,—
  Cysegrodd hi drwyddi â'i waed.

Wrth edrych ar Iesu drwy ffydd,
  Ffy tarth yr Iorddonen yn lân;
Try cysgod marwolaeth yn ddydd,
  A'r trymder dỳr allan yn gân;
Canfyddir yr afon mor fach,
  A'r graian yn ngwaelod y dw'r;
Cael drwyddi wna'r truan yn iach,
  A'r bachgen i gyraedd oed gwr.

Gan hyny, O f'enaid, pa ham
  Yr ofni di angeu rhag llaw?
Cai olion traed Iesu, bob cam,
  I'w dilyn o hyd i'r lan draw.
Dyeithrwch y glyn yw ei ofn,—
  Y newid fydd ronyn o boen;
Nid yw yr Iorddonen yn ddofn,
  Ond dylyn cerddediad yr Oen.

IV. GALWAD AR BAWB A PHOB PETH I GANMOL ABERTH CRIST.

Yr aberth a laddwyd trwy frad
  Ar gopa Calfaria brydnawn,
Wnaeth gymmod, boddlonodd y Tad;
  A Hwn a osododd yn Iawn.
Trag'wyddol annhraethol ei werth,
  Ei urddas yw'r Duwdod ei hun;
Nid gormod cael eithaf pob nerth
  I'w ganmol mewn caniad gytun.

O deffro, fy enaid mae'n bryd,
  Ymnertha, annghofia dy boen;
Doed nerthoedd yr eglwys trwy'r byd
  Ar egni i foli yr Oen:
Mae hyn yn rhy fychan i'r gwaith,
  Rhy fychan o allu a dawn;

Rhy fychan yw geiriau pob iaith
  I draethu teilyngdod yr Iawn.

Agorer geneuau yn llawn
  I'r oll o'r mynyddoedd, fel saint,
Rhoer iddynt synwyrau a dawn,
  A lleisiau attebol i'w maint:
Yr Andes i gychwyn y gân,
  Cyd-odlant trwy'r ddaear yn llawn;
Y cyfan â'u nerthoedd yn dân,
  I ddatgan rhinweddau yr Iawn.

Y tanllyd fynyddoedd trwy'r côr
  Fo'n enyn a phoethi y gân,
Gan chwythu i fyny o'u stôr
  Eu hylif yn foliant o dân;
A nerthoedd daeargryn at hyn
  Gynhyrfo bob elfen a dawn,
Nes rhoddi pob mynydd a bryn
  I ddawnsio mewn canmol yr Iawn.

Sancteiddier holl forcedd y byd,
  Eu cynhwrf, a'u rhuad di-dawl;
Gan daflu i'w glannau o hyd,
  O'u heigion, wir dònau o fawl;
I ddafnau eu dyfroedd ar frys
  Rhoer genau, synwyrau, a dawn,
I ddatgan cerdd beraidd ddi-lys
  Am urddas anfeidrol yr Iawn.

Prysured y dyfroedd i'r môr,
  A'r dwfr o'r cymmylau uwch ben,
Gan uno â'u gilydd yn gôr,
  I ganu am angeu'r croes-bren.
Bwrlymied pob ffynnon o hyd
  I fyny ei dwfr yn fawl llawn,
A thrystied holl ddyfroedd y byd,
  Wrth redeg, i ganmol yr Iawn.

Cyduned y barug a'r rhew,
  Gan doddi yn foliant i'r Oen;
Gronynau'r holl darth a'r niwl tew
  Ddatgano rinweddau ei boen;
Dyrchafed holl ddafnau'r gwlith mân
  I fyny yn fawl i Dduw Ior,—
Wrth esgyn i ffurfio un gân,
  Ymchwydded pob defnyn yn fôr.

Ysgogiad yr awyr yn wynt,
  O'r awel i gorwynt ei nerth,
Ymrodded pob un yn ei hynt
  I ganmawl yr Iawn yn ei werth:
O ruad y rhuthrwynt ar fryn,
  I sibrwd yr awel mewn gardd,
Y cytan a uno yn hyn,
  I ganmawl yr Oen sydd mor hardd.

Chwythiadau y gwyntoedd a fo
  Yn cymmhell eu deiliaid o hyd,
Gan annog o'r newydd bob tro
  I foli Iachawdwr y byd:
O'r cwmwl a yrant uwch ben,
  I'r llwchyn gynhyrfant ar lawr;
O'r ddalen ysgydwant ar bren,
  Hyd gyffro yn nhòn y môr mawr.

Pob awel wrth roddi ei thro
  Dan edyn ehediaid y nef,
I'w cymmhell yn fywiog a fo
  I ganmawl ei werthfawr waed Ef:
Doed perchen anadliad bob un
  I droi yr awyrgylch yn fawl,
Trwy ollwng i'r awyr bob ffun
  I foli yr Oen yn ddi-dawl.

Y nerthol daranau'n gytun
  Ganmolo yr Aberth di-fai;

Pereiddier rhuadau pob un,
Heb wneuthur eu nerthoedd ddim llai;
Cyd-odlant â rhuad y gwynt
Am Grist a'r hedd-aberth a roes;
Fel udgyrn y Jubili gynt
Udganant yn Jubili'r Groes.

Ymwibied y dreigiau a'r mellt
Drwy'r awyr yn fflamau o fawl,
Pelydrant glod Iesu trwy ddellt
I'r celloedd tywyllaf â'u gwawl;
Gwasgared gwibiadau'r mil myrdd
Oleuni ar urddas yr Iawn,
Nes ennill pob peth yn eu ffyrdd
I'w ganmawl âg egni eu dawn.

Gronynau'r goleuni, bob un,
Ymchwyddont yn hauliau o fawl;
Gan droi y tywyllwch ei hun,
Mewn moliant, o'i elfen yn wawl.
Ymuned y gwres, a phob tân,
I ganu i'r Oen trwy bob rhod;
Gan boethi a berwi y gân,
Nes toddi rhew'r Gogledd yn glod.

Cyssegrer pob cynhwrf trwy'r byd,
Pob llafur a berw 'mhob oes;
Ymrodded y cyfan yn nghyd
I draethu gwerth angeu y groes.
Cyd-uned pob llais dan y nef,
Holl dwrf yr elfenau'n un côr,
I ffurfio un ganiad fwyn gref
Am aberth Crist Iesu ein Ior.

Dadseinied eu caniad o hyd
Trwy ddosbarth yr haulwen yn dân,
A deued eu nerthoedd i gyd
I uno â'r côr mewn un gân;
Aed felly yn mlaen eu mawl llawn,
Gan swyno pob gallu i'r côr,

Nes troi yn un gân am yr Iawn
  Holl nerthoedd breniniaeth Duw Ior.

Yr hauliau, fil filoedd ar daith,
  A'i fydoedd o amgylch pob un,
Ar redfa gwmpasog a maith,
  O gylch nef y nefoedd ei hun;
Cydffurfiant orymdaith o hyd
  O amgylch Paradwys yr Oen,
Gan roddi eu nerthoedd i gyd
  I ganmol rhinweddau ei boen.

Gorfoledd am waed ei groes Ef
  A lanwo'r holl fydoedd heb ball,
A'i adsain gyrhaeddo yn gref
  O ddosbarth y naill i glyw'r llall;
Nes ffurfio cymmundeb di-goll
  Rhwng dosbeirth yr hauliau i gyd,
A gwneuthur un dosbarth o'r oll
  Mewn canu i Brynwr y byd.

Y mawrion sêr gwibiog i'w hynt,
  Fel cyflym genadau o dân,
A redont, os gallant yn gynt,
  I draethu mawl Iesu ar gân:
Wrth redeg draws llinell pob byd,
  Trwy ddosbarth pob haul sydd mewn bod,
Ad-daniant eu nerthoedd i gyd,
  I roddi i'n Prynwr y clod.

Boed lluoedd y bydoedd i gyd
  Yn glychau o aur yn eu maint,
I weini 'ngwyl cymmod y byd
  Wrth odreu Offeiriad y saint;
A chanant â'u nerthoedd yn llawn,
  Gwnaed cymmod trag'wyddol â Duw;
Er marw i wneuthur yr Iawn,
  Mae'n Aaron ni eto yn fyw.

Cydganed holl nerthoedd pob byd
  I roddi i'r Prynwr ei hawl,
Nes llanwo eu hadsain o hyd
  Y gwagle trag'wyddol â mawl:
A'r gwagle'n un môr o'u mawl fo,
  A'i dònau chwyddedig yn fyw
Ad-luchio i olchi'n eu tro,
  Holl lànau cre'digaeth ein Duw.

### V. DYLED ARBENIG DYN I GANMOL ABERTH CRIST.

Grymusder caniadau pob gradd
  Trwy'r nefoedd am angeu Mab Duw,
A daflo gywilydd i ladd
  Ystyfnig fudandod dyn byw;
Pereidd-dra nefolaidd y gân
  A hollol syfrdano ei fryd,
Gan doddi ei rewdod yn dân,
  A swyno'i alluoedd i gyd.

Nid gormod cael egni pob dawn
  I ddiolch am angeu mor ddrud;
A chan mai dros ddyn rhoed yr Iawn,
  A ddichon y dyn fod yn fud?
A edy i'r engyl y gân,
  Ac yntau yn fudan o hyd?
A'r Iawn a ryfeddai'r llu glân
  Yn unig yw bywyd y byd.

Bechadur, ai tewi'r wyt ti
  Am sylfaen dy fywyd dy hun?
A'r engyl, am Iawn drosom ni,
  Yn canu'n egniol bob un!
Er cymaint mae'r engyl di-fai!
  Yn synu at angeu mor ddrud,
Nid ydyw eu syndod fawr lai
  At ddyn, sydd yn aros yn fud.

Caniedydd Cynulleidfaol
574



O deffro, i ganmawl yr Oen;
Pwy all fod mewn dyled mor fawr?
A chân nes annghofio dy boen;
Nac oeda, ond dechreu yn awr.
Mae moliant llu'r nef yn rhy wan
I ateb i gariad Duw Ior;
Dod gymhorth, a chana dy ran,
Chwanega at allu y côr.

Yr awydd i ganmawl yr Iawn
A dd'ryso dy sôn am y byd;
Ennilled holl allu dy ddawn,
Ac oriau dy fywyd i gyd:
A throed dy freuddwydion di-lun
Yn gyson fyfyrdod am Grist,
I'w foli o hyd drwy dy hûn,
Am fyned trwy angeu mor drist.

O ddyn, paid a gwrthod dy hawl
O fod yn agosaf i'r Oen;
Ti ddylai fod uchaf dy fawl,—
I'th brynu y bu yn ei boen!
Dy ddyled yw canu byth mwy,
Pe tawai pob angel, cân di;
Gan ddeisyf eu cymhorth hwynt-hwy,
I ddiolch am Brynwr i ni.

Wrth ganu, dywedyd maent hwy,
"Mae Iesu'n rhyfeddod i ni;"
Ond dyn sydd mewn modd i dd'weyd mwy,
"Mae Iesu'n fywyd i mi;"
Hwy synant at Iesu ar bren,
Ond drosot ti deuai i'r gwawd;
Hwy allant dd'weyd, "Dyma ein Pen!"
Ond gelli di dd'wedyd, "Fy Mrawd!"

Bu Brenin yr engyl bob un,
Do, drosot ti'n gweini yn was;

Ti ddylit gydnabod dy hun
  Y mwyaf ei ddyled i ras:
Angelion wrth ganu drwy'r nef,
  Yr anthem mai "Teilwng yw'r Oen,"
Gostegant i ddyn roddi'r llef,
  "Fi olchodd â'i waed o fy mhoen!"

Angelion fil filoedd sy'n awr,
  Na olchwyd eu gynau'n y gwaed,
O gylch yr orseddfaingc wen fawr,
  A'u hedyn yn cuddio eu traed:
Ond wele bechadur fu'n ddu,
  Yn elyn llygredig a thlawd,
Yn myned drwy ganol y llu
  At Iesu, gan waeddi, "Fy Mrawd!"

Yn nghanol y purdeb a'r mawl,
  O flaen yr orseddfaingc glaer-wen,
Mae'n ymyl ei Feichiau trwy hawl,
  Heb g'wilydd, yn codi ei ben;
Gan deimlo ei haeddiant mawr Ef
  Yn eiddo i'w enaid ei hun,—
Yn eiddo trwy gyngor y nef,
  Trwy gadarn gyfamod Tri'n Un.

Cael edrych yn llygaid y gwr
  Fu'n wylo mewn ing yn yr ardd;
Trwy'r llygaid fu'n ffrydiau o ddw'r
  Serchawgrwydd y Duwdod a chwardd.
Gwel fawredd Jehofah ei hun,
  Gwel ffynnon dedwyddwch y nef,
A hyny yn llygaid y dyn
  Ymhona yn Frawd iddo ef.

Fe genfydd yn llygaid ei Frawd
  Ddirgelwch y cyngor o hedd;
Y cariad ymweithiodd trwy'r gwawd
  I godi'r newynog i'r wledd.

Yn llygaid y dyndod, gwel draw
  I fynwes y dwyfol Fab rhad;
Ac yna i'r golwg y daw
  Gyfrinach meddyliau y Tad.

Gwel'd Iesu, a'i deimlo yn rhan,
  Perffeithrwydd holl degwch y nef;
Crynodeb prydferthwch pob man
  Trwy'r holl greadigaeth yw Ef.
Ei weled yn gwenu mor fwyn,
  Yn gwenu dan estyn ei law:
Ei olwg yn cynnwys rhyw swyn
  I'w ddenu i'w ymyl o draw.

### VIII. CYFARCHIAD CRIST I'R CREDADYN NEWYDD IDDO GYRAEDD ADREF.

Wrth syllu ar degwch ei wedd,
  Fe wel ei wefusau'n y fan
Yn dechreu ymysgwyd mewn hedd,
  I'w gyfarch ar gyraedd y lan;
Gan dd'wedyd, a'i lygaid mor lon,
  A thoddiad ei serch yn ei lais,—
"Fy mrawd, ti a gefnaist bob tòn;
  Cyraeddaist ben eithaf dy gais.

"Y trefniant daearol o fod
  I ysbryd breswylio mewn clai,
Cyraeddaist ben eithaf ei nod,—
  Dybenodd mewn gwynfyd di-drai.
Ennillaist ar dristwch y glyn,—
  Canfyddi wrthddrychau y ffydd;
Troes credu yn weled trwy hyn,
  A'th gyfnos newidiodd yn ddydd.

"Cyraeddaist uchelder y tir,
  O'r dyfnder, i fryniau'r wlad well;
Gwlad uchel, a'i hawyr yn glir,
  Manteisiol i weled yn mhell.

Tafl d'olwg o amgylch am dro,
  (Mwynhai fy nghymdeithas 'r un pryd,)
Gwel bellder, heb gwmwl yn dô,
  Mawr gylch y gre'digaeth i gyd.

Gwel isod yr hauliau'n gylch-res,
  A'u bydoedd o'u hamgylch yn troi,
Fel hyrddod yn chwareu'n eu gwres,
  Heb arwydd gogwyddiad i ffoi;
Mor gyflym a chyson yw'r oll,
  Fel gosgordd rheolaidd eu rhawd,
Yn ffurfio gorymdaith ddi-goll
  O amgylch troed gorsedd dy Frawd.

"Gwel acw (dy olwg a draidd,)
  Canfyddi fyd bychan o draw;
Mae fel rhyw yspotyn, o'r braidd,
  Wrth fawredd y bydoedd ger llaw.
Fy llygaid sydd arno o hyd,
  A gwnaethum ei ddirfawr fawrhau;
Hwnacw, fy mrawd, yw y byd
  Lle cawsom ein geni ein dau.

"Ymddangos am oesoedd y bu
  I'r olwg yn bruddaidd a broch;
Troes f'angeu ei awyr o ddu
  I wisgo goleuni gwawr goch;
Trwy hyn, o'r holl fydoedd i gyd,
  Hynodi y ddaear a wnaed;
Mae syllu trwy'r nef ar y byd
  A welir dan arwydd y gwaed.

"Mae tramwy cyflymach na'r wawr
  Rhwng yma ac acw o hyd;
Y fasnach sydd rhyngddynt mor fawr,
  Na feddaf ei hail â'r un byd:
Tramwyfa gysegrais fy hun,
  Prif rodfa'r angylion yw hi;
Mae tramwy mwy arni na'r un
  O fewn fy mreniniaeth fawr I.

"Gwel, dacw Jerusalem dlawd—
  Mi nodaf ei llewyrch â'm bys.
Y pantle bach acw, fy mrawd,
  Yw'r ardd lle gweddïais mewn chwys.
Ffordd acw'r oedd heol fy loes,
  A liwiais â'm gwaed ar ei hyd;
Lle syrthiais i lawr dan y groes,
  Wrth gario pechodau y byd.

"Gwel, dacw Galfaria ger llaw,
  Tu allan i furiau y dref,
Lle crònodd fy ngofid a'm braw,—
  Mae'r enw yn hysbys trwy'r nef;
Fan acw y torodd y wawr,
  Lle trengais rhwng lladron ar bren;
Fy mrawd, 'rwyf yn cofio yn awr
  Fy nheimlad wrth ogwydd fy mhen.

"Tan lwyth o bechodau di rif,
  A'r soriant o'u herwydd mor lym;
Yn nghanol rhyferthwy y llif,
  Fel diluw ofnadwy ei rym.
Wrth sŵn y pistylloedd fel hyn
  Yn nerthol ymruthro i lawr,
Y ddaear ni safai'n ddi gryn,
  A th'wyllodd yr haul am dair awr.

"Ond daliais trwy'r cyfan yn gryf,
  Tra teimlai'r ddynoliaeth yn wan;
Wynebais trwy'r dymestl yn hyf,
  Bwriedais y mynwn gael glàn.
Gan serch i ewyllys fy Nhad,
  A chael y pechadur yn rhydd,
Ni fynwn roi lle i lwfrhad,
  Gan sicrwydd 'r enillwn y dydd.

"Y teirawr tymestlog, llawn aeth,
  Pob awr fel can' mlynedd o'r braidd;

Y nawfed awr weithian a ddaeth,
  A'r awyr oleuodd i'w gwraidd.
Mi gofiaf fy nheimlad dros byth,
  Pan chwalodd cymylau y nen;
Pan lefais yr adsain ddi-lyth,
  Gorphenwyd, cyn gogwydd fy mhen.

"Dechreuodd fesgyniad i fri
  Pan ddaethum i fyny o'r bedd;
Holl uffern yn plygu i mi,
  A'r nefoedd yn gwenu mewn hedd.
Cyfodais o'r bedd yn ddi-dwyll,
  A'r engyl o'm hamgylch yn llu;
Gan blygu'r llieiniau mewn pwyll,
  A'u gosod yn daclus naill du.

"Cyweiriais y gwely i'm saint,
  A'r bedd a ddyrchefais i fri;
Cael myned i'r beddrod sy'n fraint,
  I huno'n y gwely bu'm I.
Dy gorph, a anwylaist yn fawr,
  Sy'n cysgu yn ngwely dy Frawd;
A chodaf ef etto ryw awr,
  Gan ffurfio 'r ysbrydol o'r cnawd.

"Dirwynodd i fyny fy awr
  I esgyn o'r ddaear i'r nef:
Dyrchefais yn nghanol torf fawr,
  A'u llawen floeddiadau'n un llef.
Gorymdaith na welwyd ei hail,—
  Angylion a seintiau'n gytun;
Cerbydau Duw'n amlach na'r dail,
  Dan arwydd buddugol bob un.

"Cythreuliaid yn cilio'n mhell draw,
  Gan geisio ymlechu mewn mwg,
Yn crynu mewn c'wilydd a braw
  Wrth weled eu hachos mor ddrwg.

Pob un ar ymlethu gan ofn,
  Yn gwisgo galarwisg or-ddu;
Caddugawl gymylau'r fall ddofn
  Yn pruddaidd orchuddio'r holl lu.

"Pob seraph yn gweini i'm taith,
  Yn amlach na'r tywod a'r gwellt;
Pob un â'i chwe' aden ar waith,
  Yn llawer cyflymach na'r mellt.
Y dyrfa o hyd yn amlhau,
  Wrth ddyrchu at breswyl fy Nhad;
Banerau buddugol yn gwau
  Ar uchel binaclau y wlad.

"Y seintiau o'm deutu o hyd,
  Yn dorf o'r un teulu a thi;
A dyma, o'r lluoedd i gyd,
  Y gosgordd agosaf i mi:
Angylion yn llefain o draw,
  'Ti ydwyt yn Frenin i ni;'
A'r seintiau'n dolefain gerllaw,
  'Ein bywyd, ein bywyd wyt ti.'

"Y cerbyd breninol claerwyn,
  O berlau Paradwys yn llawn,
Yn gwisgo arwyddair fel hyn,—
  '*Yr hwn a osododd Duw'n Iawn.*'
Arwyddair yn hòni fy hawl,
  Yn uno yr oll mewn un gân;
Arwyddair yn enyn y mawl,
  Gan roddi'r holl seintiau ar dân.

"Cyraeddais i ymyl y llys,
  A'u penau ddyrchafodd y pyrth;
Agorwyd yn llydan, ar frys,
  Y drysau trag'wyddol, fel gwyrth.
Yn nghanol bloeddiadau o fawl,
  Eisteddais ar orsedd fy Nhad,

I gyflawn feddiannu fy hawl,
  Gan dderbyn trag'wyddol fawrhad,

"Elias ac Enoch mor lon,
  A chyflawn ddynoliaeth fel Fi:
Dau hynod er's talm hyd 'r awr hon
  Yn nghanol ysprydion di ri'.
Eisteddent, gan deimlo y fraint,
  Yn f'ymyl, yn nghanol fy mri:
Gwir gynllun cyrph newydd y saint,
  A'u hernes, i'w gweled mewn tri.

"Y lluoedd angylaidd ar hyn
  Yn craffu mewn dirfawr foddhad;
Gan wrandaw yn astud a syn,
  Tra llawen gyfarchwn fy hâd:
Pan wnawn ymgydnabod yn rhwydd
  A'm brodyr, gan draethu fy oes,
A dangos ar unwaith i'w gwydd
  Arwyddion arteithiau y groes.

"Ymafael, fy mrawd, yn fy llaw,
  Y llaw fu'n hoeliedig ar groes;
Gwel f'angau, ddiseiliodd dy fraw,
  Dy uffern yn nefoedd a droes;
Ymafael i deimlo'r hen graith,—
  Fy nghlwyfau ryfeddaist mor fawr;
Meddyliaist am danynt trwy'th daith,
  Cai gyfle i'w teimlo yn awr."

## X. MWYNHAD Y CREDADYN O'I HAWL YN NGHRIST WEDI CYRAEDD ADREF.

Ac yna'r dyn ddyry ei fys
  Ar arwydd y clwyf yn ei fron,
Gan dd'wedyd wrth weision y llys,
  "I'm golchi gwnaed ffynnon yn hon!

A theimlai ei ddwylaw a'i draed,
  Gan ddangos ôl hoelion i'r llu,
A d'wedyd, dan ganmol y gwaed,
  "Tan hoelion i'm prynu I bu!"

Ar gyhoedd cofleidia'i ddwy law,
  Ymgryma, cusana'i ddau droed;
Gan ofyn i'r engyl o draw
  Am ganu mwy fwy nag erioed:
A syllu yn wyneb Mab Duw,
  Newidia o gyfarch ei draed,
Gan ddiolch, a'i ysbryd yn fyw,
  Am iddo ei brynu â'i waed.

Cael teimlo ei ddwylaw a'i draed,
  A hoeliwyd ar groesbren cyn hyn;
Fu'n gochion dan dorchau o waed.
  Ond weithian fel eira claer-wyn.
Ail perlau, dysgleiriach na'r gwawl,
  Yw creithiau ei glwyfau di-lyth;
Arwyddion yn dangos ei hawl
  I ddal y deyrnwialen am byth.

Mae creithiau y goron o ddrain
  Yn berlau'n ei Goron fawr Ef;
Er nad oedd pob pigyn ond main,
  Eu creithiau ddysgleiriant trwy'r nef.
Yn meitr 'r Archoffeiriad o hyd,
  Yn nghoron freninol ein Brawd,
Y creithiau ddysgleiriant yn nghyd,
  Fel perlau a godwyd o'r gwawd.

Cael teimlo ei fynwes yn awr
  Y fynwes gynesaf o'r un;
Yn cynwys serchawgrwydd mor fawr,
  Serchawgrwydd y Duwdod ei hun.
Rhyfeddu ei harddwch a'i werth;
  Gan syllu ar graith dan ei fron,

Mwy dysglaer na'r haul yn ei nerth,—
  Ei seren freninol yw hon.

Edrycha ei hun wrth yr Oen,
  A hola yn syn, "Ai fi yw?"
Wrth gael ei hun goruwch pob poen,
  Yn berffaith ar ddelw Mab Duw!
Edrycha ar engyl yr hedd,
  Ysbrydion heb agwedd na llun,
A llefa, "Myfi sydd ar wedd
  Debycaf i'm Harglwydd o'r un!

Wrth graffu, canfyddaf fy hun
  'R un ffunud a Brenin yr hedd;
'R un natur, 'r un fesur, 'r un llun,
  'R un oedran, a pherffaith 'r un wedd!
Ei boenau droes imi yn gân,
  Trwy'i angeu y cefais i fyw;
Ei waed a fy ngolchodd mor lân,
  Fy Mhrynwr, fy Mhrynwr I yw!"

O Iesu, sugndynodd cyn hyn
  Bob llygaid drwy'r nefoedd i gyd;
Fel pegwn y Gogledd, a dŷn
  Bob nodwydd môr-gwmpas trwy'r byd:
Ei harddwch yn nghanol ei blant,
  Fel Meichiau obrwywyd â'i hâd,
Lwyr sugnodd feddylfryd pob sant,
  Pob angel, a chalon ei Dad,

Canolbwynt Paradwys yw Ef,
  Lle cyfwrdd y cyfan yn un,
Gan asio pob meddwl drwy'r nef
  Yn nhegwch ei berson ei hun:
Fy Mrenin, fy Mhriod 'r un pryd,
  Fy Ngheidwad, fy Mrawd, a fy Mhen:
Fy *Mhob-peth* a'm *Heiddo* i gyd,
  A hyny'n oes oesoedd, Amen.

# ENGLYNION I'R MEDDWON.

Och feddwon! chwi a fyddwch—yn ebrwydd
Mewn obry dywyllwch,
Sy'n dònau o fflamau fflwch,
Pau gofid, pyg a yfwch?

Ys ebrwydd oni sobrwch,—gwres awchus
Gor syched a deimlwch;
Ni fydd mewn pyg tremyg trwch
Byth ofyn, beth a yfwch.

Deifas i oeri 'i dafod—o'r ufel,
Dwfr ofyn, nid Gwirod;
Ow! erfyn yn ddi ddarfod,
Er hyn 'does defnyn yn d'od.

Daw eto bob dïotwr—i synio'n
Gysonach am wlybwr,
Pan uda 'n y ffau 'r Poenydiwr,
A phoeth safn, am ddafn o ddw'r.

Daw atal i'ch dïota—o orfod
Ar derfyn eich gyrfa;
A'r pryd hwn tân annwn wna
Yn anferth eich enynfa.

'E ddaw ing na ddiengwch— o'i eirias,
Pan orwyllt sychedwch;
Yn ngheudod eich trallod trwch
O boeth ufel, beth a yfwch?

Yn merw y tân ulw, ni welwch—un dafn,
Yn y dyfnaf fwllwch;
Mewn rheibiad a rhuad rhwch
Tònau ufel, tân yfwch.

Dïotwyr, fe ŷf Duw atoch—i'r ffau,
  A'r phiol lanwasoch;
Ei gwin lysg, mae'n gymmysg goch,
Sûg ysawl a wasgasoch.

Daw tormach wedi termio—marwol derm,
  Ar lid Duw gewch eto;
Ni fydd fyth tra nefoedd fo
Drem hunell o'r derm hono.

O'ch gwirfodd ar eich gyrfa,—heb oedi,
  Gwnewch beidio dîota;
Ow, na wnewch yr hyn a wna
Gynud *i dan Gehenna.*

Y moddion sy'n eich meddwi—gwarth ydynt,
  Gwrthodwch eu profi;
Y rhai 'n droes i'ch einioes chwi
Dirionwch yn drueni.

Duw Iôn i feddwon ni faddau,—gwelwch
  Eich gwaelion gyflyrau;
Ofer hwyr edifarhau
Yn ingawl *loesion* angau.

Eithr i chwi'n awr, O throwch yn ol—o naws
  Yn wir edifeiriol,
Nêr faddau yn wirfoddol,
Eich holl ffyrdd erchyll a ffol.

---

## ENGLYNION AM UFFERN.

Uffern isod y ffwrn ysawl,—dylif
  Y dialedd trag'wyddawl;
Tònau didor, tân di dawl,
Nos gwaeau anysgöawl.

Mellt Ebal lamwyllt wibiant—ar unwaith,
  Heb ronyn o seibiant;
Drwy ei niwl draw anelant
I galon sech gelyn sant.

Llyn tro annwn llawn trueni—eirias,
Yn orwyllt dryferwi;
Tân yn llawn brwmstan yn lli
Trwy'i chanol sy'n trychioni.

Tân digofaint yn dygyfor—o hyd,
Tu hwnt i'r Gagendor,
Yn drag'wyddawl ferwawl fôr;
Llem eirias y llom oror.

Y fagddu bygddu heb wawl,—orchuddir
A chaddug drag'wyddawl;
Mwgwd du dew, mŵg di dawl,
Y cudd eigion caddugawl.

Pydew hyll y pau t'wyllaf,—tew allu,
Y tywyllwch eithaf;
Tawch poeth llid noeth Naf
Yn ordoion o'r duaf.

Llyn y fall llawn o fwllwch,—echr anferth
A chronfa pob tristwch;
Myglyd drangc y maglau trŵch
Mantellog mewn tywyllwch.

Pynau adfyd mewn poenydfan—ffyrnig,
Uffernawl gyflafan;
Mae gwlaw tost y maglau tân
Ar y dieflig rawd aflan.

Draw acw'n fall, drycin a fydd—ynddi,
Heb hindda'n dragywydd;
Heb dô rhag enbyd dywydd,
Na nesâd at doriad dydd.

Och! elynol chwil wynias,—heb oeri,
A'i berwad yn grychias;
Croch erain mewn crych eirias,
Trwy drochion y creision cras.

Pau nychlyd heb un achles,—y *Dophet*
Nas diffydd ei phoethwres:
Mae gwae a gwreich, mŵg a gwres,
Rhuedig trwy yr *Hades*.

# DRYCH Y DYFODIANT I GRISTION.

**Myfyrdod mewn trallod trist,**
**Yn eithriol i'm pwn athrist;**
**Dyddanwch mewn tristwch trwm,**
**Yn ngwrthrod poen fy ngorthrwm.**

Dyn dedwydd, dyn Duw ydyw;
A doed a ddel dedwydd yw.
Dedwydd dragywydd yw'r gŵr
A gredo i'w Greawdwr;
Dyn dedwydd a fydd i fod,
A dedwydd yn y Duwdod;
Dedwydd ar gynnydd yw 'r gŵr
A gredo i'r Gwaredwr,
Daw o hyd yn fwy dedwydd;
A mwy fwy diammheu fydd.
Nid â i ben, myned bydd,
Olynol i lawenydd.
Bywyd o wynfyd a wêl,
Na ddygir, mae 'n ddiogel;
A byd o fywyd a fydd
Yn Nuw, a deil yn newydd.
Yn wir, mae yn ei aros
Nefoedd Naf, lle na fydd nos.
Y Duw Gwyn a'i digona,
Dduwiol ddyn, â'i ddelw dda.
Nis gallwn îs y gwylledd
Gael dirnad o'i wlad a'i wledd;
Pa gymaint ei faint a fydd
Dylanwad ei lawenydd!

Adsain iaith y byd sy'n ol,
Nid ŵyr y dyn daearol:
Bywyd a gwaith y byd gwâr,
Ni ddeall dyn y ddaear.

Byd enaid, a byd anian,
Yma rhaid fod mawr wahân.
Er cymhell, nid gwell, ond gwaeth,
Ymyryd â chymhariaeth.
Pa radd a dyf o'r priddyn
Fedd damaid i enaid dyn?
Y cysur yn gysur gau
Wêl fwyniant yr elfenau,
Mae uwchlaw 'r byd, ysbryd yw;
Ac efryd ar y cyfryw
Beth yw gwellt, neu bethau gwyw,
Er adnawdd i bur ednyw?
Daear foel roed i filyn;
Y Moesol, Dwyfol, i'r dyn.
Yn ei ffyrdd, uniawn neu ffol,
Ymesyd am y moesol;
Gwna o hyd ddrwg neu dda;
Ymgyrhaedd am a gara;
I'w oriau mae 'n hau o hyd
Ar elfen gref yr eilfyd.
Newidiad ddaw ofnadwy;
O'i bethau mêd am byth mwy;
Daw i'w ran, wedi 'r einioes,
Draul ei waith drwy ail oes.
Os ynfyd i'w fywyd a fu,
Traul ei waith try i'w lethu.
Manwl farn fydd mewn ail fyd;
Côst ei fai—cyst ei fywyd.
Haeddai wae, hauodd i'w oes
Drueni drwy ei einioes.
Hau 'n ddyddan, a brolian bri,
Trwy einioes hâd trueni;
Wedi 'r oes fe fêd ei ran,
Cnwd dieflig y cnawd aflan.

Mae 'r Moesol yn Ddwyfol dda,
Neu Ddwyfol dân i ddifa.
Bywyd i'r ysbryd a rydd
Ail einioes o lawenydd

Gwnaeth hau drwy ddagrau, i'w ddydd,
Yn dawel ar flin dywydd.
O hau rhinwedd yr henyw.
Dymunol fyd mewn ail fyw.
Daw i gynnyrch digonawl,
Medi hedd yn myd ei hawl;
Hoff i'r eithaf y ffrwythau,
A gŵyl mewn hwyl i'w mwynhâu;
O gynnar ddarpar yn ddoeth,
Fe gafodd Naf a'i gyfoeth.
Y Duw Gwyn oll, digon yw;
Hanfodiad y nef ydyw.
Dilyniad o ail einioes
Iddo a ddaw ddiwedd oes.
Hau had da drwy boenau 'r byd,
Hadu byw o hâd bywyd:
Ei gynnyrch ddaw 'n ogoniant,
Yn wledd serch yn serch y Sant.
Nawdd a hoen 'r Hen Ddihenydd
Yn fyd o fywyd a fydd.
Ychwaneg nid all chwennych;
Y draul gynt dry elw gwych;
A buan yn y bywyd
Try yn fost y gôst i gyd.
Tr melys try 'r trwm wylaw,
Y deigryn a dry 'n win draw;
Pryd hyn, pob deigryn heb dawl
A 'n afon o win nefawl;
A chŵyn y drom ochenaid
Dry yno 'n byncio di baid;
A phob ochenaid o ffydd
A gynneua gân newydd.
Trwy Ddaw try ei weddiau,
I gnŵd tew, er gwaned hau.
Gwaedd lesg ei weddi lwyd,
Y tybiai na atebwyd;
Daw er hyn gnŵd o'r hâd,
O rawn Duw, llawn wrandawiad.

Daw 'r weddi a da roddion,—i'w lenwi
Hyd lànau ei galon:
Nid tyb yw, ond etyb Iôn
I fyny a'i ofynion.

Fe ddaw cri gweddi y gwael,—a'i gofyn
Digyfyng, yn gaffael;
Dyry Duw, a hyny 'n hael,
Ei gofyn yn ei gafael.
Pair wirio i'r pererin
Ei eiriau rhad, mawr eu rhin.
Dal a fyn, a deil o'i fodd,
Yn Dduw i'r hyn addawodd.
Addaw y mae eiddo mawr,
Rhydd erfyn y rhodd ddirfawr;
Addaw ei hun yn rhodd hael,
O'i gofyn daw i'n gafael:
Dod yn Dduw, yn Dduw i ddyn,
A dyfod ond ei ofyn.
Yn y rhodd daw 'r oll yn rhan
Yn hollol o hyn allan.
Digon yw byth, a dogn bur
I reidiau ei grëadur.
Yr hyn yw Duw yn rhan dêg;
Ni chwennych ddim yn 'chwaneg.
Mwynhau Duw fel mae'n Dad
Yw mwyniant pob dymuniad.

Difyrus yr adferiad
Llunio dyn yn llun ei Dad:
Daw'r tlawd trist i Grist a gred
Ar ei lun er ei laned:
Ei doddi trwy santeiddiad,
Oll yn deg, yn llun ei Dad.
Duw yn troi y dyn truan
I ddal ei lwyr ddelw lân.
Dyg o'i warth y du gwrthun
I ddal ei holl ddelw ei hun.
Crëu ei lun ar hagr alanas:

O ryfedd, ryfedd ei ras!
I'w lun cod ei elyn câs,
Dyd arno nôd ei deyrnas.

Mae gwerth a grym gwyrthiau gras—yn nwyfiant
Trwy 'r nefol gymdeithas:
Gwledd yw o fraint, a gwledd fras;
Porth enaid i'w perthynas.

Rhyfeddol ddwyfol ddyfais!—pa foddion?
Pwy feiddiai 'r fath ymgais?
Dwyn y drwg adyn o'i drais,
Nefoli hwn o'i falais.

Pwy a faidd? pwy a feddai—ewyllys
A gallu a'i gweithiai?
Ond Duwdod yn drindod didrai;
Anfeidrol Iôn a fedrai.

Neb llai ni feddai foddion—i wared
Ei ddyrus elynion;
A ffordd ei holl ffyrdd yw hon,
Lle gwelir ei holl galon.

Rhoi ei Fab yw rhoi a fêdd;—ei anfon
O wynfyd i chwerwedd,
Ingau 'r byd, angeu a'r bedd;
I'w elyn gael ei goledd.

Gwaed y groes a droes y drefn—i'r gallu
Er gwella yr annhrefn;
Fe ddadrwym a fo ddidrefn,
Daw â'r chwith i'w le drachefn.

Gwel y gwaith ar Golgotha;—yr Iesu
A roisid i'r lladdfa:
Clyw bererin, blin ei b'a,
Leferydd pen Calfaria!

Gwel Iawn, na ddigalona;—ein dyled
    Ni, dalodd y Meichia:
  Clyw di ddyn, clyw y di-dda,
  Leferydd pen Calfaria!

Y newynog ymuniona;—o ras,
    Cai groesaw i wledda;
  Gwna yn hyf, ac na wanhâ—
  Leferir o Galfaria!

Y truenus tro yma,—ar unwaith,
    I'r unig ddiangfa.
  Tyred, rhêd, ac na lwfrhâ—
  Leferir o Galfaria.

Gŵyl i gaeth yw Golgotha;—pwy bynag,
    Pob enaid ddaw yma;
  Clyw 'r caethaf, blinaf ei bla,
  Leferydd pen Calfaria.

  Gwel foddawg hawl i faddau;
  A gwel yn hwn fodd glanhâu.
  Cofiwn hwn i'n cyfiawnhâd;
  Ac eilchwyl er ein golchiad.

Ef yw 'r Iawn cryf ei rinwedd,—mae 'n sail,
    Mae 'n swm ein tangnefedd:
  Mae golwg o ymgeledd
  I ni yn wir yn ei wedd.

    Ein hanadl drwy ein heinioes
  I gyd yw grym gwaed y groes;
  Dewisodd ein Duw eisoes
  Uno 'r grym dan enw 'r groes:
  Gras odiaeth, y groes ydyw;
  Cofiwn oll, ein cyfan yw.
  Mi ganaf mewn trwm gyni;
  Y groes Amen, y groes i mi!

Er gwaned, mae 'r groes genyf;
Ar fin y groes 'r wyf yn gryf:
Cyll f' anaf, coll fy einioes,
Ei warth a'i graith wrth y groes:
Diaddurn wyf a diddym;
Wrth y groes caf werth a grym.
Chwyn f' enaid, achwyn f' einioes,
Gwywir ei gwraidd ger y groes:
I fesur profwyf eisoes
Ddigon yn gryno 'n y groes!
O gynhwrf byd mi ganaf,
Ac yn y niwl canu wnaf;
A chanaf fy achwynion,
O dir ing, yn glod i'r Iôn.
Yn y dwfn fy enaid i
Ddyddanodd â'i ddaioni.
Cês ei nawdd yn hawdd a hael,
Yn nghyffion fy anghaffael:

Yn nghanol fy anghenion—mi ganaf,
A'm gwyneb ar ddigon:
Mae 'n gwellau gorfriwiau 'r fron
A'i ddedwydd addewidion.

Er dued yr oer dywydd,
I lawr y dwfn lawer dydd,
O dan dost ordonau dig,
Y trallodion troelledig,
Y gras mawr ddaw 'r groes i mi;
Oni ddylwn addoli?
Dilediaith mai dyladwy.
Seinio mawl, Hosana mwy.
Wele 'n hon, dan lawenhâu,
Y dringaf fry drwy angau;
Yno 'n gryf yn enw y groes
Molianaf am ail einioes.

Nid ä enaid ond unwaith
Drwy 'r glyn ar derfyn ei daith.
Fe fydd yn newydd, mae 'n wir:
Golwg ymlaen nis gwelir:
Dyeithr i gyd, a thir gwyll;
O'n daear ni mae 'n dywyll.

Mae o gylch yr amgylchiad—dywyllwch,
Nad allwn ei ddirnad:
Rhyw ing dwl yw rhwng dwy wlad,
Ar finion eu terfyniad.

Mantellog mewn tywyllwch—yw 'r nofiad
I'r nefol ddyddanwch:
Neu fel traeth dan nifwl trwch,
O ethryb ei ddyeithrwch.

Ond Iesu sy 'n Dywysog—ar ei bobl,
Ar y bwlch cymylog.
Rhan yw i Grist, rhin ei grog;
Try 'n oleu y tir niwliog.

Pa mor flin fydd brenin braw,
Addolaf dan ei ddwylaw.
Fe orfydd ef fy arfoll;
Gelyn yw heb golyn oll;
I ddewisol braidd Iesu;
Gwas yw a'n dyrch, ond gwas du.
Nid yw ef ond cenad Iôn;
Mae yn wâs mwyn i'w weision;
I'w cyrchu hwy o'u carchar,
O'r byd gwyll i'r bywyd gwâr;
O'r anial at y Brenin;
O wlad gwae i wlad y gwin;
I fyd gwiw o fyd gauaf;
O wlad rhew i wlad yr haf:
Eu gollwng o fyd gwallau
I bur hedd sydd i barhâu.

Nid rhaid i'm henaid am hyn,
Od ydwyf yn gredadyn,
Ofni ing hên safn angau;
Gallu hwn fydd i'm gwellâu.
Fy ngollwng, er fy ngwelliant,
O'm gwaeledd at sedd y Sant.
Nid ä ei gledd ond i glai;
Y daearol a dorai;
Ac yna y trigiannydd
Oedd yn rhwym a ddaw yn rhydd.
Tŷr y plisgyn briddyn brau,
Yr amwisg a'i thŷn rwymau;
I'r dyn, gael ar adenydd,
Droi i'w wlad ar hediad rhydd.
Dyna 'n wir i'r dyn a wnel,
Gollyngyd esgyll angel.
Ei ysgar fel o'i blisgyn
Mae 'n wisgo am dano 'n dŷn;
I'r ysbryd, a'i fawr asbri,
Droi i'w nefol freiniol fri.
Helyntaidd ddillad plentyn
A dry draw pan ddaw yn ddyn;
Nid all heb newid dillad
Esgyn fry i dŷ ei Dad;
Dyosgiad at adwisgaw
O'r newydd rhyw ddydd a ddaw.
Ni ddeil brau blisg ei wisg wan
Ogoniant Duw a'i Ganaan;
Y wisg bridd, o gymysg brau,
Ni ddeil i'r annedd olau,
Awyr gref y wlad nefol,
A gwaith y nef a'i gwthia 'n ol.
Sugna 'r nefol wynfa lân
Ei enaid iddi 'i hunan.
Ei dèn wisg a edy 'n ol;
Hon fwrir yn rhan farwol.
Y nef fyn fel hyn ei hawl,
Fe weryd yr anfarwawl,

O'i dŷ llaid a gwlad y llwch,
I'w ddwyn i'r pur ddyddanwch.

Nid oerfel yw ond arfoll;
Newid yw heb niwed oll:
Nid cerydd yw, ond cariad:
Nid marw hyll, ond marwhâd:
Nid marw yw marw 'r mâd;
Ond huno 'n mhen dihoeniad,
Newid yw ar ben y daith,
I orphwys mewn gwlad berffaith.
Y newid oedd ofn i'w daith,
A hoffa yn ei effaith.
Newid yw yn enaid iach,
O ofid natur afiach:
Newid mawr, pa newid mwy?
Newidiad annirnadwy:
Newid y gofid am gân
A gwyniau 'r Aipht am Ganaan:
Newid hwnt i lid a loes,
I wynfyd, o fyd anfoes:
Newid i lendid o lwch,
O ryfel i ddigrifwch:
Newid i ryddid yr ŵyl,
O warcha, a blin orchwyl:
Newid a fydd yn niwedd
Ei auaf, am haf o hedd:
Newid mwy na newid màn,
O'r drygfyd i'r bur drigfan:
Newid yw trwy 'r enaid oll,
I'w ddiwygio yn ddigoll:
Yn lân, yn gyfan i gyd;
O fachau 'r hen afiechyd;
Heb lygredd, gwaeledd, na gwŷn
Annedwydd am fynydyn.
Newidiad uwch y cnawdol,
A thra y nef ni thry yn ol:
Newid llawn, a'i ddawn i ddal;
Newidiad dianwadal.

Try yr Iawn, trwy ei rinwedd,
Ddylaith hyll yn ddilyth hedd:
A mỳn ei droi 'n gymwynas;
Dyen ceir y dien câs.
Daioni yw 'r dienydd;
Dwyn o darth i adwaen dydd;
Mae tranc yn wir danc i'r doeth;
Dwg ef i wlad ei gyfoeth.
Trwy drengu, tröed yr angel
O dỳn gorff a'i cadwai 'n gêl,
Ehed i'r llys drwy y llaith,
I'r gwiwlys trwy y golaith.
Trwy 'r dyrnod try i'r deyrnas;
Toriad dydd a fydd ei fas:
Traidd i fewn, trwy ei ddu fas,
I feddiannu 'r Brifddinas.

O ryfedd! ar yr afon,
Wyth y groes, nid oes un dòn;
Trôdd yn drai, treiodd yn draeth;
Diogel waredigaeth.
Yr Iesu, er ei weision,
Aeth drwyddi gan hollti hon.
Tori llwybr trwy y llen,
I'r ddinas trwy 'r Iorddonen,
A brwydrodd ei lwybr adref,
Trwy 'n hangau ninnau i'r nef.
Mae 'n ffordd, yn brif-ffordd i'n braint,
Er holl ferw 'r llifeiriaint,
I'r nefoedd trwy 'r hen afon;
Gwely teg yw gwaelod hon.
Ei gleidir wnaeth galedu
Dan droediad ein Ceidwad cu.
Ei ddyeithrol laid athrist
Droes i graig, drwy Iesu Grist.
Os yw 'n bant, mae 'n balmant byth,
Ar hyd ôl ein Rhi dilyth:
Ar ei ol gwnaeth ddwyfol ddydd,

I'w gael o làn bwy gilydd :
Fe roddai lamp fawr ddi lèn,
Ar ddannedd yr Iorddonen :
Ei goleu ỳr bob gelyn
Ffwrdd i dawch, o ffordd y dyn :
Tra 'r enaid trwy ei rinwedd,
A fwynhâ ei gyfiawn hedd ;
Yn nydd ing ei galon ddyrch,
Mor lawen o'r mawr lewyrch.
O'r làn, er ei lawenydd,
Gwel dy Dad, a gwlad y dydd :
Trwy y pant gwel i'r tir pell ;
Ar drothwy yr oer draethell.

Ar ddarfod dattod ei dŷ,
Ar fin ei roi i fyny ;
Try y nifwl dwl ei dŷ,
Saif allan o'i nos felly ;
Daw i'r drws, a dyry drem
Ar seiliau 'r lân Gaersalem :
Yna saif, a saif yn syn,
Ar ei riniog ryw ronyn,
I edrych ar hynodrwydd
Egyr oll ger ei ŵydd :
Egyr fry, fel ger ei fron,
I'r golwg y dirgelion :
Gweled oll â goleu dydd,
Yn awyr y byd newydd.
Golwg noeth, wrth gael o gnawd,
Ond henffych well, nid anffawd.
Gwel yr Haul, goleu yr hwn
A dywyna hyd annwn.
Wele sêr, engyl a saint,
A lona fel â'i enaint.
Fe wêl lys y nefol Iôn,
A brodyr noeth ysbrydion ;
Fe wêl sedd y felys ŵyl,
Llawenydd y llu anwyl :

Gwêl ei Grist, a gŵyl y grog,
Yn swynaw 'r Ddinas enwog :
Gwêl ysbryd yn ysbryd noeth ;
Rhai uniawn, a rhai annoeth :
Gwêl weision duon y diawl,
A'r ffwrnais fawr uffernawl ;
Gwêl adwyth ei thylwyth hi,
O danodd mewn cadweini ;
Ar gilio fel o'r golwg,
Yn y mellt, o dan y mŵg.
Gwêl fil myrdd am eu ffyrdd ffol
Yn wasarn i'r Tân Ysol.

Gwêl weision ei dirion Dad,
Yn adeg ei newidiad ;
Yn ei gylch, fel cadarn gâd,
I ddysgwyl ei ddiosgiad.
Y mawr lu oll mor lawen,
I gyd o'i gylch, fel gyda gwên ;
Yn gwarchod hwn i'w gyrchu
O'i sâl gorff i'w breswyl gu.
Llawn barod i'r llon berwyl,
Yn estyn eu hedyn mewn hwyl ;
Mawr wylio am yr aeliad
A roddai hwn i ryddhâd :
Adenydd pawb ar daeniad,
Dysgwyl mewn hwyl y mwynhâd
O'i hebrwng drwy y wybren,
I fyd y bywyd uwch ben.
Ei ganfod ar ddod i ddydd,
A'u lleinw â llawenydd.
Fel sŷn aderyn am daith,
A dremiai ar droi ymaith ;
Yn ei adeg benodol,
Gedy byth ei nyth yn ôl :
Yno 'n awr, ar fin ei nyth,
A'i olwg i'r byd dilyth ;
Arsyllai o'i ddrws allan,

Ar ei lwybr drwy 'r awyr lân.
Parotôi mae 'r boreu têg,
Ei edyn at yr adeg,
I gychwyn o'i nyth gwachul,
I'w ddifyr swydd foreu Sul.

Y lon gad, fel hyn a'i gwêl,
O dan ing myn'd yn angel,
Ar droi fry o'i hên dŷ dail,
Ar nofio o'r anifail.

Ail i long ar ael y làn,
Ar ollwng i'r môr allan;
O'i chryd trwm, ar ochr y traeth
Y delai i fodolaeth.
Llenwi mae y llanw mawr,
I guro glàn ei gorawr.
Tani cod y tònau cu,
Y sïant i'w chroesawu.
Yna cyll ei holl nacâd,
A chwennych ei chychwyniad.
Gado 'r cryd nychlyd a wnaeth,
Yn araf, fel gan hiraeth.
Llithro, gan lithro i lawr,
Ar derfyn y môr dirfawr;
Y llanw hwnt a'i llawenhâ;
A siriol ymbrysura.
Llithrai 'n gynt y llethredd,
O fér hynt i fôr o hedd:
Mae 'n rhuthro ar deimlo 'r dòn;
Am warogi 'r mawr eigion:
Ei ddwfr, fel o ddifyr fodd,
A'i denai oddi danodd:
Taro mae yn wyllt i'r môr,
O gyraedd niwliog oror.
Boreu hynt sydd i barhau
Yn hylwydd dan lawn hwyliau:

Yn ei gwaedd, fel yn gwaeddi,
"Y môr mawr, y môr i mi!"

Ar ei moriad o'r marwol,
Gedy 'r aeth i gyd ar ol.
At adeg ei ddattodiad,
I'w rhoddi hi mewn ryddhâd,
Wele lu o'r nefol wlad,
A chwennych ei chychwyniad.
Brysiant a chyrchant o'i chylch,
Lu hygar, fil o'i hogylch.
Mae bonedd, bonedd o bwys,
Ar rodau heirdd Paradwys.
Yn edrych y drych o draw,
Er mawredd ar ei moriaw:
Ac hefyd, wele 'r cyfan
Dery lef pan edy 'r làn.
Yn ei llwydd, fe gân y llu,
A chanant dan grechwenu:
Mae 'r môr gwâr ail marmor gwych,
Yn loewaidd iawn ei lewyrch. llewyrch
Goreurawg ei wawr araul,
Gan yr hin, a gwenau 'r Haul.
Fe lona fel â'i waneg
Tan ronynau 'r tònau teg;
I edrych fel mân wydrau.
Yn rhydd trwy 'u gilydd yn gwau;
I olwg fel mân heulion,
Yn glaer deg, er gloewi 'r dòn.
Môr o wydr yn ymerodraeth,
Heb argoel trai neu berygl traeth:
Diofal nad auafa,
Gan dragywydd dywydd da.
Bywiol wynt, heb awel oer,
Na wyddys am hin addoer.
Pery o hyd heb hwyrhâu,
I'w gweled yn ddydd golau.
Deil, deil, hi ddeil yn ddydd,

Yn llewyrch y Penllywydd.
Dydd yn wir, a dyddan wedd,
I nofio môr tangnefedd.
Hylaw hwyl, a hawl i'w hedd;
A'i forio yn ei fawredd.

Awr ing yw codi 'r angor,
O dir mall i fyn'd i'r môr:
Poen yw 'r tro, ail rhwygo 'n rhydd;
Uthr iawn yw, a thro newydd:
Ing i gnawd, angeu a'i gwnel,
Er tywys i'r môr tawel.
Gall angeu ei gollyngyd.
Drwy waith bach, o draeth y byd;
Rhoddi nawf yn rhydd a wnel,
O'r tywarch i'r môr tawel.
Awelon hedd i'w hwyliau,
A môr o hedd i'w mawrhâu;
Daw o'r ing codi 'r angor
Elw mâd, pan wêl y môr;
Mae yn elwa mewn eiliad
Fwy na hyn o fwynhâd.
Y boen fèr ar ben a fydd
Yn awel y byd newydd:
Poen ysgafn, ond poen esgor,
I'w dwyn mwy i adwaen môr:
Ysgar ail i esgor yw;
Newidiad hynod ydyw;
O fàn ei bod i'r fàn bydd
Ar y dwfn, er ei defnydd.
O'r llanerch llawr ei lluniad,
I'w lle o swydd, a llesâd.
Poen ryddhâd sy 'n had i hedd,
Yn rheidiol i'w hanrhydedd.
Môr yw ei nôd mwy er neb,
I weini ar ei wyneb.
Y nôd i'w dyben ydyw,
A'i gorlawen elfen yw.

Ymddengys nas medd angau,
A'i wedd hyll, ond ei ryddhâu.
Agoryd, nid o gerydd,
I'w dwyn o'i rhwym gryd yn rhydd.
Pan fo yn curo 'r nacâd,
Er agor y mawr rwygiad;
Traidd ei waith trwyddi hithau,
Yn gryndod, ar ddod yn ddau
Dirymiad yw i rwymau
Ei lle cul, i'w llacâu.
Angeu hyll a ollwng hon,
Yn ngolwg yr angelion;
Lleng hoffus a'i llonghyffiaw
O dŷn draeth, ar dònau draw;
I'w gwylied â'u holl galon,
O freg dŷ, i frig y dòn;
A'u golwg yn ei gwylied
Yn ddi sigl, tra rhigl y rhed,
I waered o'r hên oror,
A'i gwely main, i gael môr,
Anthemant ben ei thymmor,
"Wele mae yn cael y Môr!"
Pan yw llaw y Penllywydd,
Llaw Duw yn llywio ei ddydd.
Nododd ef, ac nid yw ddwl,
Y fynyd yn wir fanwl,
I'w nofio i'w fôr nefol,
Ar ei ddwfn mor lyfn a'r ddôl.
Yr oll a ddaeth all o'i thu,
Yn weision o dan Iesu.
O redeg trwy yr adwy,
Y Môr mawr a'i cymer mwy;
Iach i làn a'i cheulenydd,
Iach i darth, yn llewyrch dydd;
Y Môr mawr, dim ond Môr mwy,
A'i led yn anchwiliadwy.

## BEDD-ARGRAFF PLENTYN A FU FARW YN DDEUDDYDD OED.

Ber ei heinioes, brau hynod—ei deuddydd
Nid oeddynt ond cysgod;
Egwyl bach i gael ei bôd
A dychwel i'r byd uchod.

---

## GOLWG FOREU OER AR ERYRI.

Mae'r eira am Eryri,—i'w ganfod
Yn gynfas wèn drosti:
Gwèn yw ei hoer hugan hi,
A glânach na'r goleuni.

Oer erwin yw'r Eryri—i esgyrn;
Ymwisgodd âg oerni:
O gil tân, ei gweled hi
Wna i rywiog ddyn rewi.

Oer, oer hin, ddilyna 'r Ha'—hynodawl
Newidiodd y Wyddfa
O drem ail i drum o ia;
Mae 'n ddir fel mynydd eira.

---

## CANWYLL.

Cynnwys yr enw canwyll
Glaerwynu, neu gànu gwyll
Teg enwyd hi yn ganwyll,
Gan ei gwawl yn gwynu gwyll.
O gyneu daw y ganwyll
Amlwg i'r golwg er gwyll.
Goleu yn cyneu canwyll,
Ail y wawr, oleua wyll.

Rhowch dân ar ben y ganwyll,
A gwna i'r gwawl gànu 'r gwyll.
Pan gyneu pen y ganwyll,
Gwênau 'r wawr a gàna 'r wyll.
Trwy gyneu, try y ganwyll,
A'i gwèn wawl, yn wir gàn wyll.

---

## YR IAWN A'R EIRIOLWR.

Ein Brenin yw'n llawn bryniad—O fawr werth
"Ef yw'r Iawn" o drefniad;
A phery yn Offeiriad
Byth ger bron ei dirion Dad.

---

## Y PURITANIAID.

Pery tôn y Puritaniaid—yn nysg
Ac yn nawn y milflwyddiaid;
Eu gweithydd, beunydd heb baid,
Orhoffa y seraphiaid.

Mwy o fawredd y myfyrwyr—gwrol,
A'r gwir efengylwyr,
O'u gweithydd a genfydd gwyr
A godant yn ddysgawdwyr.

Gwyr fynent ysgrifenu—o asbri
Yn ysbryd yr Iesu;
Er pob erlid a llid llu—
Er ei chwerwaidd garcharu

Gwyr fyddent yn gwir feddwl—er llidiog
Drallodion a nifwl:
Chwilio'r gair—y gair digẁl
I'w fwnau yn wir fanwl.

Er tynu Puritaniaeth—drwy ffwrnais
Dra ffyrnig Annghristiaeth,—
Dal yn iach i'w dulio wnaeth
A baeddodd wraidd Pabyddiaeth.

Nodwedd eu 'sgrifeniadau—yw addas
A gwreiddiol feddyliau;
Mewn iaith rwydd, heb chwydd i'w chau
O dan niwl—ond yn olau.

## Y MAE HWN YN DERBYN PECHADURIAID.

Yr Hwn mae uffern a'i llu ffol,
Yn danllwyth dân ei soriant;
Ac ni wnaeth alw byth ar ol
Angelion a bechasant:
Ond dyna lais efengyl gras
At ddynion, nid cythreuliaid,—
Mae Crist er pob ymddygiad cas,
Yn derbyn pechaduriaid.

Pwy ydyw hwn a all â'i air
Ostegu môr a gwyntoedd?
Mor wir a'i fod Ef yn fab Mair,
Mae'n Frenin y breninoedd;
Ei degwch sy'n ddedwyddwch llawn
Angelion a seraphiaid;
Ond dyma sydd yn rhyfedd iawn—
Mae'n derbyn pechaduriaid.

Yr Hwn sydd ar ddeheulaw'r Tad,
Esgynodd trwy bob nefoedd;
Mae'n gwisgo eithaf pob mawrhad
Ar ben y goruwchleoedd:

Y Duwdod yn ein natur ni
  Belydra yn ei lygaid;
Mae Hwn, er cymaint yw ei fri
  Yn derbyn pechaduriaid.

Yr Hwn mae cleddyf llym a noeth,
  Yn dyfod byth o'i enau;
Ei draed yn debyg i bres coeth
  Yn llosgi mewn ffwrn olau,
A'i lygaid treiddiol fel fflam dân
  Yn llosgi 'r holl gythreuliaid:
Yr Hwn, er mor danbeidiol lân
  Sy 'n derbyn pechaduriaid.

Yr Hwn a ddeil â'i ddehau law
  Deyrnwialen nef y nefoedd,
A'r llywodraethau, drwodd draw
  Hyd eithaf yr holl fydoedd:
Ond er mor helaeth yw ei hawl,
  A rhwysg ei orsedd danbaid,
Mae Hwn, yn nghanol gwlad y gwawl
  Yn derbyn pechaduriaid.

Yr Hwn oedd gynt, a'r Hwn sy 'n awr
  A'r Hwn sydd bron ar ddyfod,
Pan fydd y nef a'r ddaear lawr,
  Yn ffoi yn nghyd o'i wyddfod;
Ofnadwy yw ei fawredd Ef,
  A phawb sydd iddo 'n ddeiliaid:
Mae Hwn yn awr, yn nef y nef,
  Yn derbyn pechaduriaid.

Yr Hwn yw 'r Adgyfodiad mawr,
  A Ffynnon bur y bywyd;
Mae 'n Farnwr llwythau 'r ddaear lawr
  A'r holl angelion hefyd;
Didola rhwng y drwg a'r da
  Yn rhwydd â thro ei lygaid;
Ond Hwn yn awr a lawenhâ,
  Wrth dderbyn pechaduriaid.

Yr Hwn mae pawb trwy 'r drydedd nef
  Yn rhoddi eu coronau
I lawr wrth draed ei orsedd Ef,
  Gan ganu eu telynau ;
Y lluoedd glân yn ufuddhâu
  Yn barod wrth ei amnaid ;
Ond yn ei rwysg, mae yn parhâu
  I dderbyn pechaduriaid.

Yr Hwn sy 'n berffaith adwaen bai,
  Ei naws a'i holl drueni ;
Ei lid i'w erbyn nid yw lai
  Na haeddiant ei ddrygioni :
Ond er mor nerthol yw ei gâs
  Yn erbyn yr anwiriaid,
Mae Hwn o'i annherfynol ras,
  Yn derbyn pechaduriaid.

Mae Iesu Grist yn nhŷ ei Dad,
  Yn dadleu ei farwolaeth,
Ar ol bod yma dan sarhâd,
  Yn gweithio 'n hiachawdwriaeth ;
Wrth dderbyn yno fawl di fai
  Angelion a seraphiaid,
Nid yw ei awydd fymryn llai
  I dderbyn pechaduriaid.

---

## NESAU AT DDUW SYDD DDA I MI.

Mae Duw yn llon'd pob lle,
  Presennol yn mhob man ;
Y nesaf yw efe
  O bawb at enaid gwan :
Wrth law o hyd i wrando cri ;
" Nesau at Dduw sy' dda i mi."

Yr Arglwydd sydd yr un,
Er maint derfysga 'r byd;
Er anwadalwch dyn,
Yr un yw ef o hyd:
Y graig na syfl yn merw 'r lli;
"Nesau at Dduw sy' dda i mi."

Yr hollgyfoethog Dduw,
Ei olud ni leihâ;
Diwalla bob peth byw
O hyd â'i 'wyllys da:
Un dafn o'i fôr sy 'n fôr i ni;
"Nesau at Dduw sy' dda i mi."

Y mae breniniaeth Duw
Ar bob peth yn ddigoll;
Llywodraeth fanwl yw:
Ei weision Ef yw 'r oll:
Mae 'n ben ar bob beth ein byd ni;
"Nesau at Dduw sy' dda i mi."

Pa ham y trof yn ffol
At ail achosion mwy?
Mae 'r Achos Mawr tu ol,
Effeithiau ydynt hwy:
Ar deg a gwlaw, mewn trai a lli,
"Nesau at Dduw sy' dda i mi."

Mewn trallod, at bwy 'r âf,
Ar ddiwrnod tywyll du?
Mewn dyfnder beth a wnaf,
A'r tònau o'm dau tu;
O fyd! yn awr beth elli di?
"Nesau at Dduw sy' dda i mi."

Anwadal hynod yw
Gwrthddrychau goreu 'r byd;
Ei gysur o bob rhyw,
Siomedig yw i gyd;
Rhag twyll ei wên, a swyn ei fri,
"Nesau at Dduw sy' dda i mi."

## DADL RHWNG Y PRYNWR A'R GWERTHWR.

*Prynwr.*

Gwarth Turpin yw rhoi gwerth teirpunt—i un
Yn enw gwerth chwê-phunt.

*Gwerthwr.*

Gwarth tebyg rhoi gwerth dwybunt
I neb oll yn lle un bunt.

*Prynwr.*

Nid rheswm gofyn triswllt,—a hyny
Am haner gwerth pum-swllt.
Dewiswch golli deuswllt,
Ymrowch Syr, cymerwch swllt.

*Gwerthwr.*

Trosedd yw cynnyg triswllt,—'e wyddis,
Am eiddo gwerth nawswllt;
Un a chais i ddwyn chweswllt,
Na wna sôn am ddwyn un swllt.

---

## GORPHENWYD.

Holl lafur Crist trwy boenus daith
A'i galed waith ddybenwyd,
Pan roes, â'i olaf anadl gref,
Yr uchel lef Gorphenwyd.

Pan hoeliwyd Iesu ar y pren,
Yr haul uwch ben dywyllwyd;
Ond wele! yn y t'w'llwch mawr,
Daeth gwawr o'r gair "Gorphenwyd!"

Pan y croeshoeliwyd Iesu cu,
Pyrth uffern ddu a lonwyd;

Ond trodd y pyrth i siomiant trist
  Pan lefodd Crist, "Gorphenwyd!"

Pan y dechreuodd Crist dristâu,
  Telynau 'r nef ostegwyd;
Ond dyblodd cân y drydedd nef
  Pan lefodd ef, "Gorphenwyd!"

Llen dew y deml, gwahanlen fawr,
  O'i phen i lawr a rwygwyd;
Ni ddaliai hon, er cryfed oedd,
  'Mo nerth y floedd "Gorphenwyd!"

Mur y gwahân dros amser maith,
  Na ddo un waith, ni syflwyd;
Dattododd hwn, er cryfed oedd,
  O flaen y floedd, "Gorphenwyd!"

Holl allu Satan roed yn gaeth,
  A'r fuddugoliaeth gafwyd,
Pan lefodd Crist, ar derfyn awr
  Y rhyfel mawr, "Gorphenwyd!"

Cyfiawnder Duw mewn dwyfol Iawn
  Yn gyflawn a foddlonwyd,
Pan lefodd Crist y nawfed awr
  Y gwerthfawr air, "Gorphenwyd!"

Yr ebyrth oll er dechre 'r byd,
  Yn Nghrist a gydsylweddwyd;
Eu Jubili, trwy 'i angeu ef,
  Gyhoeddai 'r llef "Gorphenwyd!"

Mae Duw yn maddeu a glanhâu,
  Yn angau 'r Oen a laddwyd;
A dyma waith efengyl gref,
  Adseinio 'r llef "Gorphenwyd!"

Tàn Sinai danllyd lawer gwaith
  Gwawr gobaith yno gafwyd ;
Wrth gofio yn y dymhestl fawr
  Y gwerthfawr air " Gorphenwyd ! "

I'r gwan gan Satan lawer gwaith
  Colliadau 'i daith edliwiwyd ;
Ond caed diangfa lawer tro
  Wrth gofio 'r gair " Gorphenwyd ! "

Troes gysgod angeu 'n foreu ddydd.
  Ei stormydd a ostegwyd,
Wrth gofio yn yr oriau blin,
  Am rin y gair " Gorphenwyd ! "

Daw gweiniaid Seion uwchlaw poen
  I ŵydd yr Oen a laddwyd ;
Ar ben eu taith cânt hwythau 'n wir
  Gydwaeddi 'r gair " Gorphenwyd ! "

Daw 'r Prynedigaeth fawr i ben
  Gan orphen a arfaethwyd ;
Ac yna pawb trwy 'r drydedd nef
  Gyd roddant lef, " Gorphenwyd ! "

---

## CRIST IESU.

Yn y Duw ddyn mae 'n diddanwch,—yn Hwn
  Mae 'n hunig dawelwch,
 Ca' f' enaid er llaid a llwch
 Yn ei haeddiant lawn heddwch.

---

## BEDDARGRAFF.

Arafaidd fwynaidd a fu,—yn wastad
  Dan gystudd yn gwenu ;
 Ond hawddgar, o'r ddaear ddu,
 Addfwynach ddaw i fynu.

## "YR ARGLWYDD YW."

Pan adgyfododd Iesu Grist,
Ymwelodd â'i ddysgyblion trist,
A chawsant brawf ei fod yn fyw!
Ei adwaen Ef a wnaethant hwy,
Heb eisieu unrhyw sicrwydd mwy,
A d'wedyd wnaent,—"Yr Arglwydd yw!"

Ar ol pysgota heb ddal yr un,
Y boreu gwelent ddyeithr-ddyn,
Pan oeddynt hwy ar gadw 'r rhwyd:
Gerllaw y safai ar y làn,
A gwaeddodd arnynt yn y màn,—
"O, blant! a feddwch chwi ddim bwyd?"

Attebent Ef,—"Ni feddwn fwyd,
Er in' trwy 'r hirnos fwrw 'r rhwyd."
Dywedodd yntau,—"Na lwfrhëwch;
Gwnewch fwrw 'r rhwyd un tro i lawr,
Ac o'r tu dê i'r llong yn awr;
Ond gwneuthur hyny, chwi a gewch."

A gwnaethant felly yn ol y 'ddysg,
A llenwi 'r rhwyd a wnaeth y pysg;
Rhy drom i'w thynu, gan lwyth byw:
Y dyeithr-ddyn ar làn y llŷn,
A adnabüwyd y pryd hyn;
Dywedodd Ioan,—"Yr Arglwydd yw!"

Petrusai Ioan sain ei lais,
A gwelai yn ddyeithr gais,
Fawrhydi goruwch dynolryw;
A gwyrth y pysgod ddaeth ynglŷn
A hyn, yn brawf pwy oedd y dyn;
Heb os, dywedai,—"Yr Arglwydd yw!"

Nid allai ammheu y pryd hyn
Pwy oedd y Gŵr ar làn y llyn;
Rhoes brawf ei fod yn uchel Lyw,
Gan fod y pysgod at Ei air,
Pwy welwyd felly ond Mab Mair?
Heb ammheu, d'wedai,—" Yr Arglwydd **yw !"**

Yr Hwn fu heb nac ofn na nych
Yn rhodio 'r môr fel ar dir sych;
Palmantai 'r dwfr dan draed ei Lyw!"
Yr Hwn geryddai 'r môr a'r gwynt
I lwyr ostegu, amser gynt;
Efe yw 'r Gŵr,—" Yr Arglwydd yw!"

Yr Hwn a borthodd filoedd rai
A 'chydig fwyd, ac nid aeth lai,
Ond mwy y gweddill, ac uwch rhyw;—
Yr Hwn a droes gythreuliaid lu
O ddynion yn eu meddiant fu;
Hwn, Hwn yw 'r Gŵr,—" Yr Arglwydd yw!"

Yr Hwn a droes y dwfr yn win,
Iachäodd bob rhyw glefyd blin,
A'r Hwn gyfododd feirw 'n fyw;
Yr Hwn welläodd gloff a dall,
A rhai gwywedig dan fawr wall;
Hwn ydyw 'r Gŵr,—" Yr Arglwydd yw!"

Yr Hwn, â gair ddaeth dros ei fin,
A droes ffigysbren trwyddi 'n grîn,
Am na wnaeth ffrwytho 'n ol ei ryw;
Gwnaeth i bysgodyn yn ddifêth
Ddwyn arian glân i dalu 'r dreth:
O! dyma 'r Gŵr,—" Yr Arglwydd yw!"

Ni gawsom lawnder mawr o fwyd,—
Pysg yn ymryson am ein rhwyd,
Ymwthient iddi o bob rhyw;

Y Gŵr fu 'n rhodio yn ein mysg
A roes y duedd yn y pysg;
  Ac wele 'r Gŵr,—" Yr Arglwydd yw!"

Ni ymddiriedwn ynddo 'n hyf
Mae 'n llawn o ras, a'i air yn gryf;
  Os llefwn arno, Ef a'n clyw:
Edrychai arnom trwy 'r nos fawr,
Tosturiodd wrthym gyda 'r wawr;
  Yn wir, yn wir,—" Yr Arglwydd yw!"

Pan 'r ydym ninnau mewn nos ddu,
Gan orthrymderau o bob tu,
  Nid y'm yn adwaen y gwir Lyw:
Ond daw 'n oleuach yn y man,
A chlywn ei lais Ef fel o'r làn,
  A d'wedwn yna,—" Yr Arglwydd yw!"

Bu Jacob gynt mewn ymdrech mawr
A Gŵr, hyd oni thorai'r wawr,
  A chafodd oruchafiaeth wiw;
Wrth wel'd y cryf yn dewis cael
Ei lwyr orthrechu gan y gwael,
  Dywedai 'n syn,—" Yr Arglwydd yw!"

A Jacob fu â'i fab ar goll
Pan dd'wedai,—"Yn f'erbyn mae hyn oll,
  Oblegid Joseph nid yw fyw:"
Ond o'r nôs dywell torodd gwawr,—
Ei fab yn fyw, ac yn ŵr mawr;
  A d'wedai Jacob,—" 'R Arglwydd yw!"

Manöah gynt, a'i wraig yn ynghyd,
A welsant Wr o nefol bryd,
  Rhoes iddynt hwy addewid wiw
A'r Gŵr esgynodd ger eu gŵydd
Yn fflam yr aberth fry yn rhwydd;
  Ar hyn dywedent,—" 'R Arglwydd yw!"

Pan gollodd Job ei eiddo mawr,
A'i weision yn eu gwaed ar lawr,
Trwy ddynion anwar a di-Dduw,—
O dan y du gaddugawl lèn
Adwaenai Job yr uchel Ben;
Ar hyn, dywedodd,—" Yr Arglwydd yw!"

Bu Eli 'n isel, mewn dwfn bant,
Yn achos ei annuwiol blant,
Y rhai syrthiasant dan farn Duw:
Ond yn y pant orchuddiai tarth,
Gan boen a thristwch o bob parth,
Dywedodd Eli,—" Yr Arglwydd yw!"

Bu Dafydd dan rêg Simei ffol,
A lluchiai geryg ar ei ol,
Tra 'n ffoi, gan ofni na cha'i fyw;
Ond dan yr holl dywyllwch cas,
Ynfydrwydd creulawn dyn diras,
Dafydd dd'wedai,—" Yr Arglwydd yw!"

Caiff gweithrediadau 'r byd di-ras
Yn gweithio i'w ddybenion cas,
Gyd-ddwyn ymlaen fwriadau Duw;
O dan y driniaeth sydd ynglŷn
Wrth ddrygau a gau ddyben dyn,
Y saint a dd'wedant,—" 'R Arglwydd yw!"

Pob triniaeth ddaw ymlaen trwy ddyn,
O ddyben da, neu o ddrwg wyn,
Uwchlaw y cwbl rheola Duw:
Ymostwng ddylid iddo Ef,
Y Tad trugarog glyw ein llef,
Gan dd'weyd trwy hyn,—" Yr Arglwydd yw!

Pan fyddwn dan gaddugawl darth,
Yn nyfnder trallod a than warth,
Gochelwn rwgnach os cawn fyw;

Mewn niwl ymaflwn yn y gwir,
A daw 'n oleuach cyn pen hir,
  Fel gallwn dd'weyd,—" Yr Arglwydd yw ! "

Triniaethau chwerwon gaiff y plant,
I'w dyrchu fry o'r isel bant ;
  Triniaethau ydynt i gael byw :
Er chwerwed yw 'r triniaethau hyn,
Mae 'n rhaid eu cael i ddifa 'r chwyn ;
  Ac yn y cwbl,—" Yr Arglwydd yw ! "

Yn fynych dan rhyw driniaeth gâs,
Nid y'm yn adwaen Duw y gras ;
  Awn at ail achos, nid at Dduw ;
Ond yn y man daw gwawr y dydd,
O'r driniaeth gâs daioni fydd ;
  Dywedwn yna,—" Yr Arglwydd yw ! "

Yn aml mae cariad Duw 'n ein trin,
Gàn wisgo menyg du a blin,
  Llaw Esau flewog, adgas ryw :
Ond tỳn ei law o'r menyg câs,
I adwaen tyner law Duw 'r gras,
  A llon ddywedwn,—" 'R Arglwydd yw ! "

Mae 'r cerydd blin yn gariad pur,
Ond t'ywyll yw, a thrwm ei gur,
  Yn niwl i ni ar gariad Duw :
Ond chwala 'r niwl yn ngoleu ffydd,
Diflana 'n llwyr ar doriad dydd ;
  Dywedwn ninnau,—" Yr Arglwydd yw ! "

Pob triniaeth chwerw trwy ein hoes
A welwn ni yn hollol groes,
  Gan ofni 'n fynych na chawn fyw ;
Pan gawn ni olwg ar ei gwaith,
Mewn goleu têg ar ben y daith,
  Dywedwn yno,—" Yr Arglwydd yw ! "

Wrth golli câr neu gyfaill mwyn,
Rhyw bla neu ddamwain yn ei ddwyn,
  Awn at ail achos yn lle Duw:
Ond pan 'r edrychwn draw trwy ffydd,
O'r ail achosion awn yn rhydd,
  A d'wedyd wnawn,—"Yr Arglwydd yw!"

Yn nglŷn marwolaeth, tywyll, du,
Pan rua llewod ar bob tu,
  A'r dyn yn teimlo nas gall fyw,—
Mor werthfawr fydd i'r enaid trist
Fod yn adnabod Iesu Grist,
  I dd'wedyd yno,—"Yr Arglwydd yw!"

---

## HYDER Y CRISTION.

Yn adeg fy mynediad,—o'r ddaear,
  Trwy ddyeithr amgylchiad;
Af yn hyf i Dŷ fy Nhad
Yn nghadarn law fy Ngheidwad.

---

## TRAGWYDDOLDEB.

Beth yw byth, a byth bythol?—oes oesoedd
  Ys oesau trag'wyddol
Oes fydd ad-newydd yn ol
Newyddiad aniweddol.

---

## I'R AWRLAIS (*WATCH*).

Teclyn sy'n dirwyn d'oriau,—fy enaid,
  I fyny'n funudau;
A phob ticyn sy'n nesau
I ddiweddiad dy ddyddiau.

# LLOSGIAD GLYNLLIFON.*

O! ofid, yn Glynllifon,
Rhyfeddod, syndod, yw sôn ;
Palas hardd—ond pa les sôn
Gair, am ei hên ragorion ;
Alaeth mwy wel'd ei helynt
Dŷr o gôf ei wychder gynt ;
Yr annedd mewn byr ennyd
Droes yn gerth goelcerth i gyd,
Yn awr yr oedd crynhöad
Drwy fawr lûdd o'r dref a'r wlad ;
Hyrddio brysg, y cefnffyrdd bron,
Oll yno oedd yn llawnion :
Y traedwyr yn gwyllt droediaw
A gwelw drem, at y gwawl draw :
Marchogion gwylltion yn gwau,
A gyrant am y gorau ;
A rhai mewn cerbydau 'r ânt
Yn awr ac yn chwyrn yrant,
Ar hyn y dwfr beiriannau
A'r hwda wyllt roed i wau ;
Chwyrn lychiant ryw gornant gwyllt
I guro y tân gorwyllt ;
Eglur er llafur y llu
Trachwyrn mae 'r tân yn trechu.
Yr oedd y lluoedd ger llaw,
Taerwyllt yn hyf anturiaw
(Er mor uthrol yr olwg)
I mewn i ganol y mwg,
O 'wyllys cludent allan
Eiddo y tŷ o ffordd y tân :
Achubent llochent mewn llwydd

* Palasdy henafol Arglwydd Newborough, ger Caernarfon, Gymerodd y tân le ar nos Fercher, Chwefror 10fed, 1863. Cyhoeddodd Mr Jones y Cywydd yn y "Carnarvon and Denbigh Herald," Corphenaf 20fed, o'r un flwyddyn. Ymddengys mai y Cywydd hwn ydoedd un o'i gyfansoddiadau cyntaf ar y mesurau caethion.

1836

Ei ddodrefn, trwy ddiwydrwydd.
Yma 'n awr tremio a wnaf
Ryw olwg aruthr welaf:
Mawr gyffro a gwibio gwyllt
A gwrol hyrddio gorwyllt;
A'u hawch oll mewn egni chwyrn,
I drechu 'r eirias drachwyrn;
Hwyliant bob crwc a chelwrn
I ddofi, diffoddi 'r ffwrn,
Ar hynt wyllt rhai ro'ent i wau
Ar ynu 'r dwfr beirianau;
Ac eraill oedd yn cariaw
O'r annhrefn y dodrefn draw;
Cario i'w nuddo cai 'r naill
Cario o'r ffordd cai eraill,
I gael i ddïogelwch
Eiddo 'i Rhi rhag llosgi 'n llwch.
Pob enaid oedd, pawb yn dêg
Ar hwda wyllt yn rhedeg;
Llyma bob un yn llamu
Yn fywiog orlwythog lu;
Pawb yn fyw pob un a'i faich
Yn dyfod fel rhai difaich.
Wele wŷr a choflaid lân
O orwych lestri arian:
Eraill a gwydrau gorwych
Rai drudfawr gwerthfawr a gwych.
A thrwy fawr ofal wrth raid,
Yn cyflym ddwyn eu coflaid.
Rhai yno'n cludo yn glau,
Ryw uchel lydan ddrychau,
Hen oesawl rai ań-eisor:
Drychau fel muriau mor,
Y treiddiodd Israel trwyddo,
Ar daith o briddwaith i'w bro,
Ac atynt dacw eto,
Rai cedyrn tra chwyrn eu tro,
Yn cario lluniau cywraint

Goreurol ryfeddol faint;
Delwau heirdd 'r hen deulu oedd
Yn rhesau er's rhai oesoedd:
Ys ydynt anmhrisiadwy,
Byth o'u hol 'chair eu bath hwy.
Rhai sydd drwy gilydd yn gwau
A'u llofres yn llawn llyfrau,
Gludwyd bron o bob gwledydd,
Sy' dan râd dywyniad dydd.
Ac hefyd fel hyn cafodd,
O bob math, a thrwy bob modd
Dunelli eu dwyn allan
O'r tŷ er newynu 'r tân,
'Nol clirio, gwagio un gell,
A dyfod o'r ystafell;
Dim ond cael braidd ffael i ffoi
Nad ydoedd hi yn didoi.
Y trawstiau fry yn trystiau
A chlecio yn dô o dân,

Buan i Bodean* daeth
Annedwydd, syn genadaeth,
Pob wyneb, pawb a wenodd
Pob tegwch i dristwch drodd.
Trwy syn fraw, anhylaw hynt
Hwyliwyd i wel'd yr helynt;
Chwyrn deithient, gwelent i'w gwydd,
Yr Eifl dàn oleu'r aflwydd.
Caent aethau syn cyn teithiaw
I Glynog—ar drumog draw;
A golwg gyflawn gwelynt
Wrth y wedd di'madferth ynt.
Tirion Lynllifon oll oedd
Yn ufel, hyd y nefoedd:
Gwelid y goedwig wiwlan
Oll yn der, fel llwyn o dân.
Ymyrynt heb ymaros

*Palasdy Arglwydd Newborough ger Pwllheli.

Yn eu nherth hyd haner nos.
Yn ebrwydd Arglwydd Newboro
Safai, edrychai am dro:
Er i'w dŷ fod oll ar dân
Hynod feddianna 'i hunan,
Yna trwy ei ddychryn trodd,
Yn y fan 'e ofynodd:—
Ebr, Mae Arglwyddes Newbro
A'm plentyn, drwy hyn o dro?
Ar hyn cai ateiad rhwydd,
Erglywch—diogel f' Arglwydd.
A yw fy nheulu hefyd
Drwy ryw fael ar gael i gyd?
Ydynt—heb eu niweidio
Yn y drwg a'r sydyn dro.
Wrth yr ateb gwiwdeb gai
Ei wyneb braidd a wenai,
Er fod ei Blas yn gras grwg
Yn ulw o dân i'w olwg.
Rhoddi 'r bai ni wnai ar neb,
A gwên, heb wg i'w wyneb.
Hwylus ddiolcha 'n helaeth
I Dduw Ner nad oedd yn waeth.
Arglwyddaidd mwynaidd a mâd
Ac ddigoll hardd ymddygiad.
Atebai'n wir, yn glir glau
I syn eirf ei bais arfau.
Odiaeth o bwyllus ydoedd
A mawr ei rym, eryr oedd,
'E wiriodd ei arwyddair*
Heb goll llanwodd bob gair
Gan wroled gweithredodd
Yn hyn, a mwyn yn y modd.

O gas sawr, O! olwg syn
O! echrys aruthr ddychryn!

* Suaviter in modo fortiter in re.

Y llawn dŷ yn llyn o dân
E aeth yn Hecla* weithian.
Mal berwad mil o beiriau,
A'i wreichion gwylltion yn gwau
Arwyddlun, a darlun dwys
O ffroen uffern, ffwrn aphwys.
Tân i mewn fel tonau môr
A'i furiau oll yn farwor;
Aeth ei ffenestri weithian
Yn ffroenau, tyllau i'r tân
Ymruthrai tyrfai y tân
O'i dyllau i ddod allan.
Syrthiai i lawr 'n awr ei nen
Ebrwydd cochai y wybren;
Ar ffwrn gyflawn i lawn led
A gair yn safn agored,
A'i siriol g'lofnau serian
Holltwyd hwy yn fyllt o dân.
Aënt yn ddig ar ffyrnig ffo
I'r awyr dan groch ruo;
O aethus olwg weithian
Cymylau fel tonau tân.
O lawn nerth goleuni 'n awr
Holl Arfon o'i gwyll erfawr;
O'r bron Caer'narfon i ni
A drodd yn oleu drwyddi.
Ei lewyrch a oleuai
Fel y dydd i fil o dai;
Ei wres i'w deimlo yr oedd
Yn mhellderau milldiroedd.
Ei oleu yn hefelydd
A'i wres i dês ganol dydd.
Lluwch hyll yn lluchio allan
Yn ddrylliau, darnau o dân;
Neidiau darnau ofnadwy,
O'i fól, fel Etna* neu fwy.

---

* Llosg-fynyddoedd.

Yn heidfawr gwreich yn hedfan
Heb ri 'n dew, fel brain o dân;
Neu, fel llusernau filoedd
I'r wybr eu lluchio yr oedd,
Disgynai e' ddeuai 'n ddig,
Gawodydd tân i'r goedwig.
Yn dêr fel cnwd o eira
Dros y coed-dir dyfn dir da;
Gweledig gnwd goleudew
A lluwchio tân yn llwch tew.
Ac hefyd 'r oedd y cyfan
Llwyr eu dull fel llawr o dân.
Rhyw amlwg olwg a gaf
O ddelw y mawr ddydd olaf,
Y dydd y ddaear dodda
I fflamio, dan ruo 'r â;
Pob palas teg wiwdeg waith
Yna dania ar unwaith.

E geiff hyn ryw hir goffâd
Ofnadwy gyfnewidiad;
Gweled y Palas gwiwlân
Ddoe yn deg, heddyw'n dân,
Gynei yn ei ogoniant
Pob llawnder a gwychder gân't
Yn awr y mae yn llyn eirias
O dân blin o fod yn Blas.
Ei wawr hardd: ond Ow'r awr hon
Mwlwg a muriau moelion;
Hwn drodd yn furddyn drwyddo
Heb un darn i'w ben o dô;
Heb ddorau na gwydrau, gan
Hyll ufel, nac un llwyfan,*
Hurtrau†, na distiau un darn
Ysgwyd hwy oll yn wasarn.
O mewn i'w sail, O mae'n syn!
Y cydiol wŷdd, bob coedyn

* Passage. † Lofts.

A falodd y ffwrn filain.
Hyd dyllau y muriau main,
Losgodd, gwangciodd hwy i gyd,
Llyfodd eu tyllau hefyd.
Nid oes i mewn ond dâs maith
O weddill yr holl oddaith,
Lludw a main a llaid i'w mysg
Gai' yma'n domen gymysg;
Ac er ei adgyweirio
Ni chleddir, traethir y tro,
Eithr e' saif yn aruthr sôn,
Ar arwest i'r orwyrion.
Cofier uwch ben y cyfan,
Llaw Iôr têg sy'n llywiaw'r tân.
Os oes y fath nerth ysol
Yn nhân Ner yn hyn o ôl,
Pwy fyth all ddirnad pa faint,
Ei gyfiawn fawr ddigofaint!!

## TY DDUW.

Tŷ Duw Naf, ein Tad nefol,—a ddylem
Addoli 'n wastadol.
Na âd Naf, na 'i dŷ yn ol,
Mae 'r Duwdod in' mor Dadol.

Tŷ i gwrdd o saint y gwir-Dduw,—a chael
Dychwelyd yr annuw;
Yn ngwawl deg efengyl Duw
Gwawr addysg y goreu-Dduw.

Tŷ mawl addas, teml addoli—ein Duw
I'r dyn yn dŷ gweddi:
A duwiol fryd dal ei fri,
Ei dŷ cael y Duw Celi.

## ENGLYNION I'R ENLLIBIWR.

Enllibiwr gwenwr ar gynen,—addig
At heddwch y dÿen,
E ladd sant, ei wledd yw sen,
Gwna fagu du genfigen.

Enllibiwr cwynwr rhag cynydd—y da,
Pob duwch a genfydd;
A llunia fai 'r lle ni fydd
I'w gludo dros y gwledydd.

Enllibiwr cablwr pob call,—a gwenwyn
I gynydd pawb arall
Cuddiai 'r gwyn, cyhoeddai 'r gwall,
Fe ddua a fo ddiwall.

Enllibiwr beiwr pob un—fo enwog,
Ei fwyniant i'w burgun:
Gwawdia heirdd i'w godi hun;
Deil y gwarth, y d——l gwrthun.

Holl obaith yr Enllibiwr,—a'i weithred,
Yw sathru Rhinweddwr;
Ei holl wledd yw gwaeledd gwr,
Neu faeddu Tangnefeddwr.

Enllibiwr, gwawdiwr pob gwiw—e wna hwn
A'i hunan yn gyfliw,
Heria lân, na wyr ei liw,
Llwydlyd i bwy gall edliw?

---

## WRTH WELED CLADDU EBEN FARDD.

Ai yn ei fedd mae Eben Fardd—y dyn
Adwaenid yn Brif-fardd?
C'od Arfon i'r Cadeirfardd
Faen ar hwn o fynor hardd.

## I DEWI WYN.

Cyfansoddodd Mr. Jones yr Englynion hyn, mewn canlyniad i'r Prif-Fardd alw yn ei dŷ, ac adrodd iddo yr Englyn canlynol:—

" Ys arweiniais ar unwaith—oes Esau,
A Belsassar ddiffaith;
Ac i Demas cydymaith,—wyf i'hafal
I Saul a Nabal dan zêl anobaith."

*Yr Ateb.*

Dewi Wyn—Oh! Dewi anwyl!—cofiwch
O'ch cyfwng diegwyl,
Gall Duw'n hawdd ladd gwyllt an hwyl
A'r dasg yn awr yw *dysgwyl.*

I'r byw oll, er mor belled—eu gwibiau,
Mae gobaith ymwared;
Y gwan trist i Grist a grêd,
Yn ei haeddiant gaiff nodded.

Dysgwyliwch â dwys galon—wrth rasol
Borth yr Iesu tirion;
Ceidwad rhad yw E'r awr hon
I'r dyledog wir d'lodion.

Yr Oen addfwyn yw'r noddfa,—i'r perwyl
Darparwyd ei laddfa,
Os dirfawr eich blinfawr bla
Mae iechyd yn y Meichia'.

Gobeithiwch o'r llwch a'r llaid—ein Ceidwad
Sy'n cadw pechaduriaid;
Crêd yw'r oll—ond credu raid,
A gwaed yr Oen geidw'r enaid.

Os yn llwm, mae'r Iesu'n llawn:—os dyled
Crist dalodd yn gyflawn;
Neu gofiwch bwyso'n gyfiawn
Warth yr oes, wrth werth yr Iawn.

Mae Rheolwr eich mawr helynt—etto
Yn attal ei gorwynt;
Wrth fesur mae'n gyru'r gwynt,
I dirioni 'r dwyreinwynt.

Os y ffwrnais sy' ffyrnig—y perwyl,
Yw puro yn unig:
Gras yw y dwym, nid gwres dig;
Iawn ei ddioddef yn ddiddig.

Dewi'n y bair, a Duw'n ben—i'w gwylied
Fel gwelo yr angen:
Er Och ei mwg rhowch amen,
Neu wyliwch gnoi y wialen.

O dan y cerydd dawn cariad—dylech
Dawelu yn wastad;
Tranoeth têg wna triniaeth Tad,
O'ch holl ing cewch ollyngiad.

A'r boreu dowch o'r bair den—y gwelwch
Mewn goleu ei dyben;
Daw dyddiau 'r poenau i'r pen,
A molwch am y wialen.

Araul haf ddaw ar ol hyn—a Dafydd,
Er dyfais y gelyn;
Ddaw o'i wae yn *Ddewi Wyn*
I ardaloedd aur delyn.

Os anobaith gais wynebu—i'ch enaid
Achwynwch wrth Iesu;
A phob dawn yn llawn ail llu
Yrr yn drachwyrn i'w drechu.

Hwyl i lawen Haleluia—o gur
A gewch wrth Galfaria,
Anobaith, eich blinfaith bla,
Gilgwthir wrth Golgotha.

---

## ER COF AM Y PARCH. WILLIAM LLOYD, CAERNARFON.

Pan âf uwch ei ystafell
I weled gwaith y d'lawd gell;
Och, yno wrth gofio gynt
Da hwyliad ein cyd helynt,
Ei ddiddrwg olwg wiwlon,
Yn wastad â llygaid llon;
Ei weddi daer, fwynaidd dôn,
Ei ddoniau a'i 'mddyddanion;
Neu gofiaw ei lon gyfarch,
Rhwydd i bawb y rhoddai barch;
Och, yno uwch ei anedd,
Golchaf fyg lecheu ei fedd
A dagrau caredigrwydd,
Gorffrydiant, rhedant yn rhwydd;
A gallai y rheda 'r rhai'n
O lefau fy wylofain,
Heb wâd, trwy gauad ei gell
Nes dyfod i'w ystafell,
I weini iddo f' anerch,
Mewn dafnau cusanau serch.

Daeth hyd onest deithiad uuion
Drwy ei alon di-reolaeth ;
Gwn ar arwest gan or-wyrion,
E' gaiff dirion goffadwriaeth.
Oi ol weithion, saif Caernarfon,
A'n llenolion, yn llawn alaeth ;
Ac argofion o'i ragorion
Yn ein hwyrion enyn hiraeth.

Yn ardal anwyl aur delynau
Ei gŵyn newidiodd yn ganiadau,
Drain egrych einioes droi'n grechwenau,
Dyrys anialwch droes yn olau,
Ei ddolur droes yn ddiliau :— mor lawen !
Troes yn orawen y trawsion riwiau.

Hawddgar y newidiodd ei gernodion
I gyd yn gariad, a'r gwawd yn goron :
Darfu ei wylaw o dwrf ei alon,
Darfu rhyfelu, a'r hir ofalon.
Yn mro'r hedd mae'r awrhon—uwch ofnau
A'i ran yn ngolau yr Oen a'i angelion.

---

## ENGLYN I'R PARCH. CADWALADR OWEN, DOLYDDELEN.

Pregethwr heb rhyw goethiad—llenyddol
Ond llawn oedd o deimlad ;
A'r teimlo fu'n gwlitho gwlad
Trwy ei ddi-dwyll draddodiad.

# AETH ADREF CYN TEITHIO SINAI.

Diangodd o gwr yr anialwch
  Cyn profi ei dd'ryswch na'i boen;
Ehedodd ar union i Ganaan,
  Y Ganaan preswylfod yr Oen:
Adnabu Grist Iesu yn foreu
  Am dano y soniai o hyd;
A chanai gan sôn am fyn'd ato,
  Pan oedd yn ymado a'r byd.

Ni theithiodd 'r hyd Sinai ofnadwy,
  Lle 'r ofnai, y crynai pob gwr;
Ni ddarfu gyrhaeddyd hyd Mara
  I duchan rhag chwerwedd y dwr';
Ni wybu am ystryw gelynion,
  Ni welodd ddwfn feddau y blys,
Na thrallod ofnadwy'r seirph tanllyd,
  Y marw, y bloeddio, a'r brys.

Cyn teimlo braidd eisiau arfogaeth
  Gorchfygodd, gadawodd y byd;
Cyn adwaen temtasiwn ond tegan
  Aeth allan o'u cyrhaedd i gyd:
Cyn profi ffwrneisiau y puro
  Oddefodd hen saint trwy fawr boen,
Aeth adref mor berffaith a hwythau
  Trwy rinwedd marwolaeth yr Oen.

Ni wnaeth ond ymddangos fel cysgod
  Ail breuddwyd adgofio ei gwedd!
Ymddangos i dderbyn y cymod,
  A dianc i fywyd o hedd:
Prin deimlo hin oer y byd yma
  A ffoi i'r Baradwys ddiwae
Ca'dd undeb yn ebrwydd a'r Meichia'
  Ffoes ato ar frys i'r lle mae.

Mawr golled ei hanwyl rïeni
  Droes iddi hi'n enill am byth;
Gadawodd rïeni mewn galar
  I fyn'd i'r llawenydd dilyth:
Cydbwyso y golled a'r enill,
  Eu galar, a'r nefol fwynhad,
A ddaw a'r rhïeni i weled
  Daioni rhagluniaeth Duw Dad.

---

## GALWAD AR BECHADUR.

MATTHEW XI., 12.

Brysia, a gwthia gaethwas—drwy Iesu,
    I dreisio ei deyrnas,
  Dyro 'th gred, i dr'ethu gras
  A cham doeth i'w chymdeithas.

---

## I ABERGELE.

Bro gul yw Abergele—godreu main
    Gyda'r mor; gwych gyfle.
  Hoff yw'r wlad, a pha ryw le
  Gystedlir a'r gwastadle?

---

## WRTH WRANDAW CANTORES, A LLAIS PERAIDD.

Dyna swyn yn denu serch—sŵn peraidd,
    Sy'n puro 'r holl lanerch;
  Sain fwynaf sy'n fy anerch,
  Dônau mwyn ar dànau merch.

# Y SARPH BRES.

AWDL AR Y PEDWAR MESUR AR HUGAIN.

O ! 'r alaeth a'r mawr wylaw,
Gan fyd drwg i'w ganfod draw !
Beth yw 'r odiaeth driniaeth drom,
A'r trydar, ger tir Edom ?
Tremiaf ar dorf yn tramwy,
Mil, a chwe' chan mil, a mwy :
O fryd tuchanllyd a chas,
Camenwent bob cymwynas ;
Achwyn llwyr, grwgnach yn llu,
Heb achos, gan fawr bechu.
Y grwgnach a'r mawr achwyn
Dynai gur a daniai gŵyn.

O'r diachos hir duchan,
Daeth tostedd rhyfedd i'w rhan ;
Am eu drwg dan wg Duw Ner ;
Ac ofer yw eu cyfan.

Wele 'r Por yn talu 'r pwyth
Yn deilwng iawn i'w dylwyth ;
Os methodd eu hesmwythyd
A thoddi brynti eu bryd,
I'w dwyn i deg adwaen Duw,
A'i rinwedd uwch yr annuw,
Ei roddion gwerthfawr iddynt,
Grasol a gwyrthiol er gynt :
Ond er hyn byw 'n druenus,
Da Naf gyfrifid yn us ;
Yn lle mawl ar bennill mwyn,
Oer ochi, a hir achwyn.

Tra ar hyn troai y rhôd,—
I'w troelli 'n merw trallod ;
Ail corwynt trwyddynt y traidd,
Cosb awchaidd eu cas bechod.

Seirph tanllyd, breunllyd eu breg,
Yn heidiau o draw 'n hedeg;
Eu colyn a gwenwyn gwyllt,
A yrai ddyn yn orwyllt;
Gadaw 'r uthr losgiad ar ol,
Enbydus o danbeidiol.
O eu rhif! a droes y rhod
I beiriant gwneyd gwiberod?
Seirph hedegog, lidiog lu,
Yn addig chwyrn ymnyddu;
Ail i gwmwl dwl ar daith,
Yn dylu nen y dalaith,
Er arwydd 'storm i'r orawr;
Ac un fydd yn ddryghin fawr.
Er dychryn sydyn, nesâu,
Ar eu hedyn, mae 'r heidiau;
Gan eu ffrwst yn drwst o draw,
Mae'r awyr yn trom ruaw;
A'u llygaid tanbaid fel tân,
Ar gynneu gan ddrwg anian;
Ysgydwent eu brysg edyn,
Gan eu ffyrnig ddig i ddyn.
Eu rhaib daer yw rheibio dyn,
I gynneu gan eu gwenwyn.

Dwyn dyn o dan eu dannedd,
A'i ysig loes, yw eu gwledd:
Mor ddiced weled ei wedd,—seirph torchog,
Gynddeiriog gynddaredd.

Wele yn dod lu ein Duw,
Er dinystr ysbryd annuw;
Ei fyddin ddiflin a ddaeth,
Gysonwyd i'w gwasanaeth.
Mae'n amlwg y myn ymladd,
Eirf meinion llymion yn lladd;
Eu gwâniad â saeth gwenwyn,

Fydd angau'n ddïau i ddyn.
Gwroniaid egr o anian,
Mewn eirf twym yn arfau tân;
Saif llygaid yr haid or hyll,
Ar orsaf y mawr wersyll;
Ac ar hyn, disgyn yn dô,
Ymdaenent fel am dano.
Eu cynhwrf a'u twrf pryd hyn,
Hynodawl swn eu hedyn,
A husiad eu chwythiad chwyrn,
Frwd wasgar fraw hyd esgyrn.
Gelynion losg golynau,
Trwy y llu yn teryll wau;
Ymwibiaw, treiddiaw trwyddynt;
Trom yw rhwyg eu tra mawr hynt;
A'r dyn geisiai ffoi ryw du,
Ddilynent, gan ddolenu.

Och gerydd, ei ddydd a ddaeth!
Och wibiaw am achubiaeth!
Y dyrfa mewn mawr derfysg;
A dynion meirwon i'w mysg;
Pob oedran, pawb a edrych,
Yn enbyd, dd'ryslyd ei ddrych;
Troes y wên grechwen yn gri,
A'r achwyn yn fawr ochi;
Uthr eu braw, a rhuthro brysg,
Mae 'r dyrfa mewn mawr derfysg;
Gwaedd erwin, a gwedd orwyllt,
Eu llygaid yn danbaid wyllt,
Pelen dân, yn dân mewn dwfr,
Goleddid gan y gloewddwfr;
Yn taniaw o fraw y fron,
Drwy amwyll y deigr trymion;
Gorwylltiaw â deigr heilltion,
Mae 'r llygaid fu 'n llygaid llon.
Taniwyd hwynt, ond tan eu ton,

Un ffunud ag mewn ffynon.
Try 'r llygaid, gan danbaid wau
Y galon fel i'r golau.

Y dychryn mawr o'r dechrau,
Mae o hyd fel yn mwyhâu;
Gan ddychryn, gresyn y gri,
O gyfwng ar wallgofi.
Y dyrfa mewn ofn dirfawr;
Pobpeth sy 'n unpeth yn awr.
Gweled, O drymed yr iâs!
Brathu anwyl berthynas;
Ei glywed, gan galed gur,
Yn llefain, ac mewn llafur;
Gwaeddi, gan ochi ei nerth,
A chwynfan yn groch anferth;
Ymdreiglo gan wingo 'n wyllt;
Gerain, a golwg orwyllt;
Ysol iawn yw iâs ei losg;
I'w galon y mae golosg.
Och ei waedd! y mae yn chwyddaw
Yn brysur, brysur, er braw;
A'r chwydd yn dramgwydd a droes
I'r anadl, edau 'r einioes.
Chwythu 'n gynt, a'i wynt yn wan,
Try i'w wddf; tost ei ruddfan.
Ei lais bloesg, a'i loesau blin;
A ffriw od anghyffredin;
Loes ei friw yn aml ias frwd;
O'i sobrwydd mae 'n bloesg sibrwd;
Gwna welwi gan ei waeledd;
A'n waelach, waelach ei wedd.
Chwyddaw gerllaw cair y llall;
Marw o'r chwydd mae arall.

Gwraig wâr, a'i gŵr a garai,
Yn ei nych ei weini wnai;
Lliw ei graen, a'i deryll gri,

A dreiddient fel cryd drwyddi.
A'i oernad galwai arni,
Am ei help, a'i holl rym hi,—
"O brysiwch, lleddfwch y llosg;
Atteliwch y dost olosg.
O wŷn poen, a oes un peth?
O, ymreibiwch am rywbeth!
Oho 'r wyf yn chwyddo 'n chwyrn;
A llosgi mae f' holl esgyrn.
Rhoddwch wynt, rhyddhëwch ei waith;
Yr anadl gyll ar unwaith.
O boeth nych, pa beth a wnaf?
O'm holl ing ymollyngaf;
Ar fin y glŷn, 'r wyf yn glaf; O! 'r chwydd drwg!
Un olwg ni welaf."

Y pryd hyn ei hysbryd hi,
Ymennyn am ei weini;
Ceisiai ladd ei adgas loes,
Yn enyd pen ei einioes;
Ei wylied yn ei waeledd;
Ni all fwy, mae 'n oll a fêdd.
Ei holl nôd yw, lle nad all
Ymyryd â dim arall.
Ei ben rydd, gan boen ei wres,
Am enyd ar ei mynwes;
Dan rwygo ei dŷn wregys,
Ochai, a chwai sych ei chwys.
Yn ei braw, ar hyn o bryd,
Gan olwg ei hanwylyd,
Brathodd y wiber hithau;
Yr un alaeth ddaeth i'r ddau!
O'i drin ef, hi droai 'n waeth;
Llesg odiaeth o'i llosgiadau.
Un dim nid oes
A leddf y loes,
Wâna 'r einioes wan ar unwaith.
Aeth ail poeth aelwyd;

Y boen yw ei bwyd ;
A deuai 'n abwyd i anobaith.

Try eu merch i'r trwm orchwyl ;
Gweini wnai hi i'w han hwyl.
Mammaeth yw i'w mam a'i thad,
I'r eithaf dan ei brathiad
Gwel ei thad, a gwlith i'w wedd,
A ddeuai 'n chwys ei ddiwedd.
Gwel ei mam, a gwael ei modd,
Ac wylai pan ei gwelodd,
Yn chwyddo, a gwingo 'n gerth,
A chwynfan yn groch anferth.
Mae mwy o boen i'w mam bach ;
Wele ei thad yn waelach.
Berwai braw yn bair ei bron,
A gwyliai 'r ddau o galon ;
O'r naill un i drin y llall ;
Heb air am hynt neb arall.
Yn awr ddwl gweini i'r ddau,
Brathwyd, arteithiwyd hithau !

Llesg ei bron o'i llosg a'i braw ;
Oernych waedd, a chwyrn chwyddaw.
Fel o'i hwyl, fe lefai hi,
Ar hyn, am ei rhieni,
" O fy nhad, de'wch o fy nhu ;
Yr wyf agos ar fygu.
O fy mam, mae'n dost fy myd,
Wylofain dan fy nghlefyd.
De'wch yn awr, O de'wch yn nês,
I'ch nychlyd ferch yn achles.
De'wch i'm trin yn min fy medd,
Ar losgi mewn mawr lesgedd.
Mae imi boen, fy mam bach ;
Ni welaf ; 'r wyf yn waelach ;
Fy ngwynt byr, ar fyr a fêth ;

Gwnewch gynnyg hyn i'ch geneth."
Ond maent heb ei hatteb hi;
Oer hunodd ei rhieni!

Yr un galed dynged oedd,
I lawer o deuluoedd.
Traidd y tostaidd haid ystwyth
I bob llu, a thrwy bob llwyth.
Y llu aethant trwy 'r llwythau;
Lu brathog, yn gwibiog wau;
Teuluoedd luoedd ar lawr,
A darfwyd â'r llosg dirfawr.
Miloedd yn cydymylu
Ar yr hen Iorddonen ddu.
Dydd gwyll ing y deuddeg llwyth;
Arswydus ddyrys adwyth.
Trig arswyd trwy y gwersyll,
Uthr ei hynt mewn helynt hyll.
Rhai 'n rhedeg rhag breg y brath,
Archollid cyn ar chwellath.
Rhai â'u drych yw yr haid draw,
A'u golwg yn eu gwyliaw;
Trach eu cefn daeth torchog haid,
Trywanent y trueiniaid.

Rhai 'n edrych ar nych y naill,
A drwg ofid ryw gyfaill;
A'u trin o fodd, tra 'n y fan,
Hwythau a frathwyd weithian.
Rhai gan fraw yn sypiau sydd,
O galon, at eu gilydd;
Y naill â'r llaw yn llaw 'r llall,
Ymyr ei law am arall:
Uno â'i nerth yn y naill,
Gwisg darian gysgod eraill.
Ond haid y nych sy 'n dod yn ôl,
Try cynhwrf trwy eu canol.

Gan eu hysol ddeifiol ddaint,
Tyr y cur y tŵr ceraint.
Ymysgwyd pawb am wasgar;
Rhaid gollwng, gollwng ei gâr.
Try 'n awr y tŵr yn orwyllt,
Drwy y llosg mae 'n deryll wyllt.
Pob un dan dymp ei boenau,
Drosto ei hun gan dristâu.

Och yr adwyth echrydus!
Aeth yn awr eu moethau 'n us.
Arswydus dosder sydyn
Yn synu, syfrdanu dyn.
Braw a thrwst, berw a thristyd,
Yn erchyll trwy 'r gwersyll i gyd.
Ochain, a llefain yn llu,
Am loches i ymlechu.
Y farn drom ddaw 'n farn drymach;
Try ferw byw trwy fawr a bach.
Oll agos a llewygu,
Frawychus, wylofus lu.
Celain llu, trwy 'r colyn llosg:
A miloedd mewn llym olosg.
O! wylofus gyflafan!
Rhai meirw, meirw 'n mhob man.

Ai 'r twym amlosg trwy y teimlad;
El i esgyrn y golosgiad,
  O daniad eu godineb;
Aflendid newid yn nych,
  Daw'r chwennych yn drychineb.

Yn ymyl hyn, mae 'n amlhâu
Gelanedd llosg golynau.
Mor erch yw! marw yw 'r chwedl,
A gynneu trwy y genedl.
Wylo a bloeddio heb lân;

Ac ofer yw eu cyfan;
Er gorphwyllog wibiog wau,
Eu tynged yw tost angau.
Ofer yn hynt y farn hon
Yw meddyg, a phob moddion.
Duw ein Iôn, a Duw yn unig,
All atal y dial dig;
Ni fedr ond yr Anfeidrol,
A'i lân air, ei alw 'n ôl.
Y dorf a welent derfyn
Holl ymgais a dyfais dyn.
Er dawn dyn, gwared nid oes;
Y gwenwyn a ddwg einioes.
Nis gall dyn ei hestyn hi,
Am aeliad, o'r llym weli.
Ai dyn all wared einioes,
Heb allu i leddfu 'r loes?
Pob gobaith, pawb a'i gwybydd,
Heddyw ffoes, ond eiddo ffydd.
Wele angau a gau 'n gylch;
Mae ei rwygiad mawr ogylch;

Oho! ei eiddo oeddynt,—ddinystrydd;
Ei drwm adenydd dry am danynt.

Er eu dryllio trwy drallod,
Cyrhaedd wnai 'r cerydd ei nôd.
Eu curo a wnai 'r cerydd
O goll foes, a gwella fydd.
Y cerydd sy 'n ddawn cariad;
Cerydd tost, ond cerydd Tad.
Gwïalen sy 'n y golwg;
Hi 'n wir sydd i drin plant drwg.
Fe all hon eu cryf wellâu;
A gostwng eu drwg gastiau.
Eu cánu hwynt o'u cynen;
I ddeall mwy pwy yw 'r Pen.

Gan olchi brynti eu bryd,
O'r achwyn, er mawr iechyd,
Eu gweithio, fel er gwaethaf,
I barod gydnabod Naf.
Y Bôd nas gall fod yn fwy ;
Ef nodir, " Yr Ofnadwy."
Ei addoli a ddylid,
O enaid llwyr, neu daw llid.
Ei ddwrn a'u dyg i ddirnad
Hael roddion tirion eu Tad.
Gwel'd eu gwerth mewn nerth a wnair,
O'u colli trwy eu cellwair ;
A'r gerwin gur a'u gyrai
I wybod eu bod mewn bai ;
A gwelent, ger eu golwg,
Chwerwedd a drygedd eu drwg.

Yn y cyfwng hwn cofiant,
Drwy ofn seirph, am drefn y Sant.
Y drefn i gael ei hael hedd,
A'i gymmod Ef, o gamwedd ;
Heb arwydd i'w gwydd er gwell,
Heb obaith ond y Babell.
Ymgofio am y gafell
Y cair pawb o'r cyrau pell.
Murmuriad mawr am Aaron,
Gan lawer, a syber son.
Tàn eu nych, rhaid tynu 'n nês,
Mae eisieu cymhorth Moses ;
Ni lysid Eleazar,
Ei gymhorth yn borth o'u bâr.
Y dyrfa wnaent dwrf dirfawr
Am Moses ; Moses am wawr.
Er blino ar eu blaenawr,
Ef o neb yw 'r llef yn awr.
Ef ar ing yw 'r cyfryngwr ;
Yn awr eu gwae, hwn yw 'r gŵr.

Yr hwn, y dorf, ar hin deg,
A gwynent rhag ei waneg.

Ond ar ofid blin drafael,
Hwn yw 'r gŵr fynir ei gael.
Ef yw 'r gŵr, a fu er gynt,
I'w coledd o'u drwg helynt.
Sain ei enw sy 'n anwyl
Ganddynt, yn hynt eu han-hwyl.
Eu tŵr a'u tad trwy eu taith ;
Ei grybwyll grëa obaith.
Tyrfent yn merw eu terfysg,
"Mae Moses? Moses i'n mysg.
A phwy ŵyr, yn hwyr ein hynt,
Na hwylia ni o'n helynt.
Pwy ŵyr na ddaw llwyr wellâu
O lengoedd gwibiol angau?
Treiddiai adfywiad trwyddynt
Wrth goffâu y gwyrthiau gynt.
Dichon Duw, dichon y dyd
I 'n oedfa o'n blin adfyd.
Mewn ochain yn ymnychu,
Wylent a llefent yn llu;

"O Moses anwyl! moes oes ini;
A dad-dro weiniaid o'u trueni.
O! 'r llosg wenwyn a arllwys gyni;
Yn dryllio esgyrn drwy eu llosgi.
O'u tân 'n awr, O tyn ni;—wyt alluog,
A gweddi ffyddiog, i'w ddiffoddi.

"O! moes oes i ni, ein Moses anwyl;
A gwaredigaeth o gur diegwyl.
Gwna weddi esgud; a gawn ni ddysgwyl?
Erfyn o'n herwydd, ar fin ein harwyl:
Dwyn ein hoedl o dŷn anhwyl;—ac wedi,
Ni wnawn a erchi i ninnau 'n orchwyl.

"Attolygwn, attal wgus,
Lu asgenus, olosg wâniad:
Ninnau folwn yna 'n felus,
A difyrus, o adferiad.

"Yna ninnau wnawn yn union,
Addaw 'n calon i Dduw 'n Celi:
O iawn foddau yn ufuddion;
A rhai 'n gyson i'r hyn geisi.
Gwel y cleifion, a rhai meirwon;
Dyna 'n cwynion, dan ein cyni,
Llawn fendithion, i'n anghenion,
Dyr i waelion, od eirioli.

"Gwel ein gwasgfa; a thosturia;
Gwna, nac oeda, gwna ein Ceidwad;
Clyw 'n gruddfanau, dan ein poenau;
O'r hyll angau rho ollyngiad.

"Gwel fawr drallod ein babanod;
A dibechod yw y bychain.
Clyw eu lleisiau, eu gruddfanau;
Ië, lefau eu wylofain.

"Moses tyred, cais ymwared,
I'r diniwed rai dan waeau.
Clyw fawr ochain ein rhai bychain,
Trwst wylofain eu trist lefau.

"Gwnawn gyffesu i ni bechu,
Ac arhaeddu y ceryddon.
Ein drygioni sy 'n ein cosbi,
A drwg weli, drwy y galon.
Erfyn dithau, ar Dduw 'r duwiau,
Iddo fadd<u, o'i dda foddion,
Ein holl frynti, o'i dosturi;
Gwel ein cyni, erglyw 'n cwynion.

"Os ein harbed, gan ein gwared,
  O loes galed olosg weli;
Addunedwn, a chyflawnwn,
  Ië, 'n ddidwn 'r hyn ddywedi.

"Cyfammodwn, gwnawn, ni dyngwn,
  Y dilynwn dy oleuni;
Na wnawn wrthod rhoi ufudd-dod,
  Ië 'n barod, i'r hyn beri.

"Dadleu Moses, ein llwyr gyffes,
  O'n byw diles, a'n byd aelaf.
Ninnau blantos, wnawn yn ddios,
  Garu achos y Goruchaf."

Teimlodd Moses rym eu cyffes;
  Ai â'r neges, ar anogaeth,
At Dduw Iago, yn y cyffro,
  Trwst eu wylo o'u trist alaeth.

Taer weddïodd, llwyr ymroddodd,
  Do, a llwyddodd, wedi lludded:
Duw wrandawodd, a thosturiodd;
  Trwy ofn gwawriodd trefn i'w gwared.

Eiriol yn nerthol a wnai,
Ar ei Dad, 'n awr, a d'wedai;

"A leddi 'n awr, Arglwydd Naf,
Y gwersyll ar eu gorsaf?
Pwy all ffoi o fall ei fyd,
I unlle, rhag seirph tanllyd?
A leddi di, Lywydd doeth,
Yr uniawn gyda 'r annoeth?
A rwygi ar un ergyd,
Fel chwedl, y genedl i gyd?

Os dyna wna y drinfa drom,
O Dduw Dad! beth dd'wed Edom?
O mor chwith, os dyma 'r chwedl
A ganant am dy genedl!
Y moliant ganant i'r gau,
Y dïal wnaeth eu duwiau;
Y genedl hawliai Ganaan,
Laddwyd, ddilëwyd yn lân.
Gwedi 'r daioni di ail,
A'u gosod fel i'th gesail;
Treiddiai dy enw trwyddynt
Trwy 'r ddaear, fel gyda'r gwynt,
Y gair am wyrth rhwygaw 'r môr
A gyrhaedd trwy bob goror:
A'th elynion, bron bob rhai,
Soniant am wyrthiau Sinai.
A didor iddynt dodwyd,
Eu gwala o fanna 'n fwyd.
Ag ergyd i'r gareg dân,
Ennillwyd afon allan.
Aeth ar chwal, yr aruthr chwedl,
Hyd Ganaan, am dy genedl.
Cydiaist, a seliaist, Dduw Sant,
Dy genedl wrth d' ogoniant,

" O Dduw hael! os lleddi hon,
I lethu 'r genedl weithion;
Uthr eu hing, os sethri hon,
Ti lonit dy elynion.
Rhed y si ar hyd Söan;
Daw y chwedl yn wawd a chân.
Nesai draw yr hanes drom,
Ail trydan, led tir Edom;
Ha teryll hynt yr holl haid,
A wybydd y Moabiaid;
A hyn a fydd, yn y fan,
Aceniad cerddi Canaan.
Trwy Midian a Basan bydd

Llu annuw mewn llawenydd;
A meibion Ammon, yn wir,
D' elynion a gydlonir.
Saif yn fost, a bost dibaid,
A gwenau i baganiaid.

"I'w duwiau gwnant chwarau 'r chweãl,
Hyd ganoes, am dy genedl.
Yna 'r duwiau gau a gânt
Gan filoedd gân o foliant;
Am drechu, neu lethu 'n lân,
Duw Iago, gyda 'i ogan.
Ei drin Ef, gan droi yn au
Ei fawredig fwriadau.
A roi 'th fawl, brydferthaf Iôn,
I eilunod d' elynion?
Fel dy waith mae 'th fawl di, Iôn,
A ddygir hwn i Ddagon?
Ai d' enw roi, Grëwr y groth,
I estron megis Ast'roth?
Hyny a bery heb baid,
Ail estylch, i'r Philistiaid,
A wèdi d' enw gwadal,
Fel y bydd yn fawl i Baal?

"Y Duw hael, dangos dy hun;
Er alaeth i lu 'r eilun!
Ti Dduw, er hyn wyt Dduw 'r hedd,
Ragoraist mewn trugaredd;
Daioni yw dy enw, Iôr,
A dy ras yw dy drysor;
Agor hwn, a thrugarhâ,
A chyfod, ymddyrchafa;
Cyfod, Iôn, cofia d' enw,
O fâr llid, cofia 'r llŵ;
Tydi 'n wir, i'n tadau wnaist
Addaw, a llŵ a roddaist.

O cyfod, Iôn, cofia d' air;
Na wna Iôr, hwn yn annair.
O cyfod, Iôn, cofia d' arch;
Y gafell wnaist i'th gyfarch.
Gwel y gwaed mewn golwg, Iôr;
Na ddryllia nawdd yr allor.
Tostur dod, nid toster dig,
O Geidwad bendigedig!

Yn y cyffro, hyrddio hyll,
Ac arswyd trwy y gwersyll,
Ysblenydd troes eu Blaenawr
O'r ddu wyll, arwydd o wawr.
Ar air ei Dduw, gwir wawr ddaeth;
Gwawr deg o waredigaeth.
Gwnaeth Moses sarph bres i'w braint;
I ddofi eu dyoddefaint.
Er iachâd, gwnaed dyrchu hon,
I'w gweled gan y gwaelion;
Ar ben hir drosten, o draw
Hi welid ddigon hylaw.
Er iechyd, fel bo 'r achos,
Gwelid hon yn eigion nos.
Y golofn dân, i'r gwaelion,
Ail yr haul, ro'i wawl ar hon.
Heb anaf y gwnai beunydd,
Droi 'r hirnos ddunos yn ddydd.
Goleuddydd ei gwawl addien,
Ar y rhes o brês ar bren,
Dysgleiriai ail dysgl arian,
O fewn dydd y golofn dân.
Ac wele, clywid galwad,
Eiriau mwyn eu Blaenor mad,—
"Gwelwch y llu digalon,
O drist an-hwyl, 'r drosten hon!
O'ch oernad, edrych arni,
Wella oll eich archoll chwi,
O edrych, brathau 'r nadrodd.

Gânt wellâd, a rhad y rhodd.
Olew a gwin, fel o'i gwedd,
Dynwch i ôl eu dannedd.
Oeri llosgiadau eres,
Seirph y braw, a wna 'r sarph brês.
Edrych raid, edrych yw 'r oll,
Erchir i wella 'r archoll.
O'ch tristwch, gwelwch drosten;
Gwelwch res o brês ar bren!
Y sarph brês, yn nhes ein haul,
A yrai belydr araul;
O edrych ei phelydrau,
Sy 'n fuan a chyfan iachâu.
Gyr gyfferi ddad-dry 'r drwg,
I'r gweli, trwy y golwg.
Y ddyfais iachâ 'n ddiffeth,
Heb gynnyg physyg na pheth.
Heb eli dwyn weli 'n iach;
Y tyllau llosg ânt holliach;
Pobpeth iachâu 'n ddifeth ddwg,
I'r galon, drwy y golwg."

Treiddiai y newydd trwyddynt
Oll yn awr, a llawen ŷnt.

Ail trydan trwy 'r fan, ar fynyd,—y gair,
Agorodd ar fywyd;
Sain y gair yn swyn i gyd,
Lewyrchodd ar lwyr iechyd.

Y dyn clwyfus, dan y clefyd,
A ymachub am ei iechyd;
O'i dristyd, gwel y drosten.
Ei phrês wared, a phrysurai,
Y claf, a'r gwaelaf a'i gwelai;
Ireiddiai o'i wawr addien.

Troes y chwydd, dramgwydd drwg,

Ei aeliau dros ei olwg.
Cyfyd ar fynyd i fyny;
A'i ben at y drosten dry.

A'i law egyr ei lygad ;
Er gwaew, egyr ei gauad :
Ymdrecha am edrychiad.
Er ei ledu mawr lwydiad,
A lwydodd ei weledïad.
A swynol yw ei syniad,
"Af yn iach, er fy nychu,
Cawn feddu un canfyddiad."

Trwy sylliad troes i allu,—llwydweled ;
Lled olwg a ganfu
Ar y drosten ; a gwên gu,
Gorhoffus y gwnai graffu.

Ar hyny deuai rhinwedd,—i'w natur ;
Hynotaf ymgeledd.
O'i nych aeth yn iach ei wedd,
Ar fynyd, ac mor fwynedd.

Rhai yn prysur nerthu 'r naill;
Gan gofio gwŷn ei gyfaill;
Ei gwnu, gan ei gynnal;
Ei droi o ddê drwy ei ddal.
Ei amrantau 'n gau a gaid,
A chynhwrf caeth ochenaid.
Ni all agor un llygad,
Dan y chwydd, er dwyn iachâd.
Ond ar frys â bys a bawd,
Drwy ofal, gwneid ei drafawd.
Ar ol agor ei lygaid,
Gwna geisio 'spïo, nis paid;
Gwelai ben y drosten draw,
Ei glaerwaith yn dysgleiriaw.

Edrych, gan chwennych iachâd;
Traidd y rhin, trwyddo y rhed;
Tyr holl loes y teryll lid.
Dwyn yn iach, dyna ei nôd:
Gwyrth y drefn! a dwg werth drud;
Iach a'i gwel, a iach i gyd.

Mae gwerth a grym gwyrthiau gras,
  Trwy 'r drosten, y pren a'r pres,
Yn gwellâu y creithiau cras;
  O mor lawn yw ei mawr les!

Un edrychiad a wna drechu
Yr holl wenwyn, a'r hyll wânu;
Y clwyf ochus, a'r clafychu,
Dry 'r sarph brês yn gynhes ganu

Dilëodd, heb raid eliaw,
Y sarph brês ôl seirph y braw.
Eglur wawr, triagl a red,
Ac olew, trwy ei gweled,
I frathau llosgdyllau dig,
Ennynawl seirph gwenwynig.
Hefyd, y boen anhafal,
Dyr yn rhwydd, a'r chwydd a chwal,
O'i gweled iached y dyn!
Newidiodd ar fynydyn!
A chryno iach ar unwaith;
Tyllau 'r boen gaent groen di-graith.

Dilëad o grëad gras,
Ar seirph y brath fu 'r sarph brês.
Chwyrn gilient, collent eu cas;
Ail tarth a ffy rhag gwawl tes.

O'r llwythau 'r oll a aethant,—yn fuan,
Gan fywyd trwy 'r trefniant:

Rhag yr eres sarph brês brysiant
Ffoi lu erthawl; a ph'le 'r aethant?
Brathu i fadru ni fedrant:
Syrth eu dannedd, swrth edwinant:
O'r golwg llwyr giliant;—a'r sarph brês,
Wawr eres, yw 'r warant.

A gwarant y Duw geirwir
A fu i'w tarfu o'r tir.

Hynod hanes,
Y pren a'r prês!
Ei rin arial
O dan ofal Duw y nefoedd.
Gan y drosten,
O mor lawen y mawr luoedd.

Ni chai 'r miloedd, yn ochr y moli,
Swyn mwy denawl na son am dani;
A'r rhinwedd mawr o honi,—yn gyson,
Ar drem i waelion o drwm weli.

Dyna Ddwyfol ordeiniad,
Goruwch oll, er gwir iachâd;
Yr effaith, heb un drafferth,
Yn eglur uwch natur a'i nerth.

Duw natur, uwch natur, wnaeth
Weini y feddyginiaeth—
Gwreichionodd, goruwch anian,
Ei gariad yn rhad i'w rhan;
Moddion, difoddion, a fu
I fawrwyrth o'u hadferu.
Mor ryfedd oedd rhinwedd rhad
A roed yn yr ordeiniad!
Gweled rhes o brês ar bren,
A goethai waed pob gwythen.

O mor lon oedd y mawr lu,
Yn uchel lawenychu!

Wele, nid neb fel ein Duw ni!—y Glân,
Ac Arglwydd yr arglwyddi:
Ein Duw cryf yn gwrandaw cri;
Od ystôr ei dosturi.

Y Duw glân, Tad goleuni;—a gwyddom
Nas goddef ddrygioni:
Da a rhaith yw ein Duw Rhi;
Duw uniawn llawn daioni.

Ffrydiai yno 'n gyffredinol
Uthr siarad, a thra siriol,
Am wawr ymwared;
Mor gu eu mawr ged,
Rhyw nodded rhinweddol.

Daw mwy o drystaw am y drosten,
Trwy addig Assur, traidd i Gosen;
Daw 'n ebrwydd ledled dan y wybren,
Yn ail i folltiad wnel y fellten.

Y newydd i'r gwledydd a gludir;
Y son drwyddynt a syn adroddir
A sail yr hanes a olrheinir;
A'n Duw uniawn trwy hyn adwaenir.

Ofnant, pan glywant ei glod,—hyd eigion
Tiriogaeth 'r eilunod:
Duw ni fu, nid un i fod,
Dywedant, ond y Duwdod.

Y Duw ddylid ei addoli;—y Bôd,
O bawb sy 'n rheoli:
Mwy 'r un Iôr gymerwn ni,
Hyd einioes, i'w gydweini.

Rhyw gysgod hynod oedd hon,
O ddoniau mwy i ddynion:
Mwy y gras, i'r llwm a gred
I'r Sylwedd a groeshoelied,
Yr Achos o'r gwir iechyd,
Bendith pob bendith i'r byd;
O hyd ein hiechyd a'n hedd,
A seiliwn ar ei Sylwedd.
Y groesbren fu 'r drosten drom,
I'r Iesu farw drosom.
A'i efengyl, anwyl yw,
Hynodol drosten ydyw,
I ddyrchu Crist ardderchog,
Gwyrthiau gras, a gwerth ei grog.
Fe drechodd ef, edrychwch,
Yr hen sarph, llomen y llwch.
Do, â'i haeddiant dyhuddol,
Clwyfodd, ysigodd ei siol.
O dan ei nych, dwyn a wnaeth,
Ddigonol feddyginiaeth,
I wellâu 'r holl dyllau dig,
Ennynai 'r sarph wenwynig.
Gwaed y groes a gôd y graith,
I orphen gwella 'n berffaith.
O edrych, mewn diwydrwydd,
Ar Iesu, gwna chwalu 'r chwydd;
O reidrwydd daw, trwy 'r edrych,
Esmwythyd, ac iechyd gwych.

Ac yn llon acen y llu,
Y gwenwyn dry yn ganu:
Wrth gofio eu gwrthdro gynt,
Ac alaeth eu drwg helynt;
Mor afiach a mawr ofid,
Yn haeddu' llethu a llid;
Ond yn awr o'u gwneud yn iach.
Yn uwch na bod yn iachach.
A mwy y chwedl am iachâd

A gydir â'r mawr Geidwad.
Fe gaiff hyn ei fyw goffâu,
Ar adlais eu pêr odlau.
Uwch hwyl dry cofio 'r iachâu,
A thwyma 'r holl anthemau.

Iddo Ef, trwy 'r nef yn un,
 Wnaeth ein gwella o bla blin;
Y Duw hael, â'i waed ei hun;
 O mor râd a mawr ei rin!

Ac o'i ryglyddon Ef cair gwledda;
Ië, a'i ganfod o fewn Gwynfa.
Moliannant, a seiniant Hosannah,
Am fywyd, am iechyd trwy 'r Meichia'.
I'w hoen anwyl, hyn a'u hennyna,
Gwawl y Gweithiwr fu ar Golgotha.
Y rymus awen i'r Messiah,
O dan newyddiad na ddiwedda.
Ymddŷg y dorf i'r Meddyg da,—yn llon,
Hylaw alawon Haleluiah.

Adgofio 'r clwyfo, a'r clefyd,—a'r trin,
 Er eu troi i iechyd,
 Ennyn eu hemyn o hyd,
 Heb wywo yn y bywyd.

A chofio cael eu dyrchafiad,—ar sail
 Croeshoelio eu Ceidwad;
 Carodd hwy, ac eu rhyddhâd
 A gawsant o'i bwrcasiad.

Mor hynod! marw ei hunan,—yn eu lle,
 Pen Llywydd y cyfan;
 Byth y caiff boethi eu cân,
 Trwy adef Iôr ail trydan.

Moli o'u cadw, yn ymyl eu Ceidwad;
Ger ei wyneb, ac ar ei goroniad;
Ië, gweinyddant i'w ogoneddiad,
Ac arsylwant ar ol ei groeshoeliad,—
Ol yr hoelion geirwon dàn dêgwawriad,
Uthr wawl eu Brenin, a thraul ei bryniad.
Ol yn ei fron a'i filain frâd,—cydbrofion,
Yr haedd y goron herwydd ei gariad.

Ei ragorol fawr gariad,—ryfeddant,
Tra fyddo hanfodiad ;
Gwelir hwn dan eglurhâd,
Anniweddol newyddiad.

A mwy fwy 'n ddiammeu fydd—i'w weled
O'i oleu 'n dragywydd ;
Dïau y deil, yn ngwlad y dydd,
Byth yn Nuw bethau newydd.

Ei drefn i wellâu clwyfau 'r cleifion,
O'r erchyllaf a'r budr archollion,
A argyrhaedd uwch ei ragorion;
Mwy ddel goleu meddwl ei galon:
Prifwaith ei hollwaith yw hon,—mae'n amlwg,
Fry yn ngolwg ei fawr angelion.

A minnau a ddymunaf,—o galon,
Ymgeledd o'm hanaf;
Ac yna mwy y canaf
Fawl yn wir i'r nefol Naf.

---

## TEML Y PRYNEDIGAETH.

Mynu eu cael, y meini certh—a wna Duw,
Nid wyr ef am drafferth:
A hyn fydd yn nydd ei nerth,
I'r dyben y rhoed Aberth.

# TY FY NHAD.

Arglwydd, pan raid imi groesi
  Afon angeu i'r làn draw,
Boed yn ddydd heb droi ar nosi,
  Diwrnod têg, heb wynt na gwlaw:
Boed yr haul heb gwmwl arno,
  I gael gwel'd yr hyfryd wlad;
Yna 'r âf trwy 'r dwfr dan byncio—
  "'Rwyf yn ymyl Tŷ fy Nhad."

Ofni 'r wyf rhag cael yr afon
  Wedi chwyddo yn llif mawr,
Gwynt a gwlaw yn dymhestl greulon,
  Oll am guro 'r gwan i lawr:
Gwrês dy gariad a'i oleuni
  A ostega 'r dymhestl gref;
Treia 'r dwfr i mi heb ofni,
  Rhodio ymlaen dan ganu i'r nef.

Arwain fi trwy afon angau,
  Man 'r aeth Iesu trwy y dwfr;
Nid wrth Sinai 'n fellt a th'ranau,
  A niwl tew, i'm gwneyd yn llwfr:
Gwna im' groesi wrth Galfaria,
  Yno mae y dwfr yn fâs;
Nid oes mellt na th'ranau yma,
  Na thywyllwch,—dim ond gras.

Nid yw marw yma 'n farw,
  Llyncwyd angau ar y Groes;
Gwas yw mwyach i'r Gŵr hwnw
  A ddiddymodd ei wir loes:
Y mae dyoddef yn y driniaeth,
  Tori ymaith yr hên gnawd;
Dyosg dillad llygredigaeth,
  Er cael gwisg fel Iesu 'n Brawd.

Iesu Grist a ymostyngodd,
Do, i angeu yn ei nerth;
Dwylaw angeu a ddadblygodd
Ar ei fawr guddiedig werth:
Troes ar angeu pan y trengodd,
Llethodd dan ei bwysau mawr:
Boreu 'r trydydd dydd cyfododd,—
Mae 'r agoriad ganddo 'n awr.

Os yw 'r porth o du 'r byd aflan,
O dan enw marw o hyd,
O'r tu arall, bywyd cyfan
Yw ei enw o'r ail fyd:
Y porth du, mae 'n borth y bywyd,
Ni ddaw angeu byth i'r wlad;
Porth a wnaeth ein hên afiechyd,
Ddaeth yn borth i lwyr wellhâd.

Pant o hyd, er ei balmantu,
Sy 'n terfynu rhwng dau fyd,
Ei ddyeithrwch sy 'n brawychu
Plentyn Duw o nefol fryd;
Ond gwnaeth Iesu iddo waelod,
A phalmantodd hwn yn rhâd;
A phant yw, fel o dan gysgod,
Ond mae 'n ymyl Tŷ ein Tad.

Teimlaf boen a hiraeth greddfol
Wrth ymadael â'm hên dŷ;
Gadael byth y tŷ anianol,
Fy hên gartref i o'r bru;
Eto teimlaf yn wir ddedwydd,
Caru wnaf ewyllys Duw,
Mewn cryf obaith am dŷ newydd,
Yn annrhaethol well i fyw.

Tŷ trag'wyddol a gâf nesaf,
  Byth heb eisieu un gwellhâd,
A thŷ yn y lle prydferthaf,
  Y wlad oreu fedd y Tad;
Gwlad cartrefa Efe ynddi,
  A'i holl deulu gydâg Ef;
Gwlad y bywyd a'r goleuni,
  Cartref cariad yw y nef.

Ofer imi yw ymofyn,
  Pwy all roddi eglurhâd?
P'le'n y gwagle mawr, diderfyn,
  Mae sefyllfa Tŷ y Tad?
P'le mae 'r nef, y wir Baradwys,
  Hên gartrefle Duw erioed,—
Tŷ 'r angelion, a'r holl eglwys
  Pan y deuant i'w llawn oed.

Rhaid ei bod y llanerch oreu
  Yn y grëadigaeth fawr;
Hon yw cartref Duw o'r dechreu,
  Cyn goleuo 'r boreu wawr:
Mae 'r lle iachaf, mwyaf helaeth,
  Ac yn llawn o bob mawrhâd;
Gwelir cylch y grëadigaeth
  Yn hawdd iawn o Dŷ y Tad.

Cartref dedwydd pob un sanctaidd,
  Nid â 'r aflan yno byth;
Pawb yn gyfiawn, ac yn llariaidd,
  Oll yn llon mewn hedd dilyth;
Pawb yn sanctaidd hyd berffeithrwydd;
  Heb frychëuyn o'u pen i'w traed,
Cadwodd rhai eu diniweidrwydd,
  Rhai a olchwyd yn y gwaed.

## I AIR DUW.

Gwir Air Duw a gara 'r doeth,
  A gafael yn ei gyfoeth ;
Mwynhâ hwn o mewn ei hedd,
  Ei rinwedd ni ŵyr annoeth.

Prawf o'i rym, pair ei fawr ôl,
  Drwy newid yr annuwiol :
Effeithiau gwiw, ffeithiau gànt,
  Addefant Hwn yn Ddwyfol.

Y Gair, dyd olwg i'r dall,
  Rhodd Duw yn rhoddi deall :
Gair yw o faeth, y gwir fwyd,
  Bwyd yrwyd o'r byd arall.

Gair y ffydd, dŵg argraff Iôn,
  Lle gwelir ei holl galon :
Ei fryd hael, a'i fwriad hedd,
  O lawnwedd i'w elynion.

Anadl Iôr, cenad ei lŷs,
  Gwir deilwng yw 'r Gair dilys :
Mae yn ras, ei gymun rodd,
  A ddeilliodd o'i ewyllys.

Llyfr yn ben llyfrau 'n byd,
  Aur elfen yw o'r eilfyd :
Athraw i wir, uthr ei ol,
  A bywiol Air y bywyd.

Dawn y nef i'n dwyn yn ôl,
  Yn uniawn o'r anianol :
Dwyn ein bryd, o dan ein braw,
  I nofiaw yn y nefol.

Ein denu wna, i'n dwyn yn ôl,
  I'w diroedd o'r daearol:
Ein dwyn i mewn yn dỳn mwy,
  I fodrwy â'r Anfeidrol.

Y Gair ddwyn ein gwraidd yn ôl,
  I dyfu yn y Dwyfol:
Tawdd ein serch at Dduw ein Sanct,
  A'n nwyfiant yn y nefol.

Trwy ei ffydd mae'n troi y ffôl,
  Anwaraidd, yn synwyrol:
Yn y Gair daw hwn yn gall,
  Fe ddeall a fo dduwiol.

Y Gair sydd yn agor sêl
  Ar achos Duw goruchel:
Ei fwriad, er codiad cu,
  Yn Iesu i ddyn isel.

Llyfr yn uwch na llyfrau neb,
  Ddaeth o enau Doethineb:
Y Gair glân, o gywir glod,
  Gan undod ac uniondeb.

Llyfr i bawb, a llyfr heb ûs,
  Pur eglur, nid peryglus,
Un yw i gyd, fel un Gair,
  Dianair a daionus.

---

## BEDD-ARGRAPH MR THOMAS PRICHARD, A'I WRAIG; *GIN SHOP*, CAERNARFON.

Gwedi anwyl gyd-dynu,—eu hamod
  Maent yma 'n cyd-gysgu;
Cânt, cyn hir, o'r dyfndir du
Gyd fwynaidd godi fynu.

## FY MYFYRDOD AR FARWOLAETH FY ANWYL WRAIG, MRS. SELINA JONES.

Sâl iawn bu Selina bach,—i'w diwedd ;
Nes dianc yn holliach
Fry yno, i gyfrinach
Brenin Nef, a'i bron yn iach.

'E laniaist mewn bro lonach,—o'th alar,
A'i theulu 'n berffeithiach ;
Ni weli, wyt anwylach,
Selni byth, Selina bach.

Poenaist ni pan eist yn iach,— anwylyd,
Ni welaist dŷ trymach ;
Ar dy ôl, daeth hwyr dylach ;
Sâl iawn bûm, Selina bach.

Isel iawn bûm, Selina bach ;—gofid
A gefais adgasach,
Gwânu 'n ol, er gwenu 'n iach,
Anwiredd yn boen arwach.

Sail ein bôst, Selina bach,—dan ofid,
Yw nefol gyfeillach,
Dibaid wên cydwybod iach,
Ac Iesu yn agosach.

Selni byr, Selina bach—a'th weithiodd
O'th aethau yn holliach ;
Newid oedd yn enaid iach,
Trwy ofid natur afiach.

Mwyniant heb balliant bellach—a nofi,
Y nefol gyfrinach,
Heb ynot, uwch pob anach,
Sail un boen, Selina bach.

Mae y gân yn amgenach,—a seibiant
Un Sabbath byth mwyach;
Diball y cedwi bellach
Sul yn bur, Selina bach.

Cŵyn yn wir yw canu 'n iach—i'th hynaws
A'th anwyl gyfeillach,
Ys aethost goruwch sothach
Seilion byd, Selina bach.

Dof finnau fel llwyd fynach—ar enyd
I'r anwyl gyfeillach;
Seliwn byth, Selina bach,
Ail uniad mewn gwlad lanach.

Yno 'n un, o anian iach—a'n huniad
Na wahenir mwyach;
Yr Oen, a'i lon gyfrinach,
Selia 'n byw, Selina bach.

Yna ydwyt hunedig—am enyd,
Yn mynwent Llanbeblig;
Cest anedd mewn cîst unig
A gwely dwfn, o glyw dig.

---

## BEDD-ARGRAFF I BLENTYN MR. GRIFFITH GRIFFITHS,

YR HWN A FU FARW YN DDISYMWTH.

Eginyn o'i ogonedd,—yn sydyn
Osodwyd i lygredd;
Wedi edwi daw adwedd,
Iach i Morris bach o'r bedd.

## EDIFEIRWCH.

Fe arwain edifeirwch,—yr enaid,
Ar uniawn i heddwch ;
Y truan llesg, tra 'n y llwch
Giliodd i ddiogelwch.

Dyferion edifeirwch—a fagant
Brif egin dedwyddwch :
Mae 'r nef draw gerllaw i'r llwch,
O grefydd daw digrifwch.

Dyfera edifeirwch—wir fwyniant
I'r fynwes mewn tristwch :
Nid un lle, ond yn y llwch,
Cyrhaeddir cywir heddwch.

Difyra edifeirwch—y galon,
A goledd ei dristwch ;
Grawn llawn a geir yn y llwch,
O frodir yr hyfrydwch.

Difyrodd edifeirwch—ugeiniau,
O ganol eu tristwch ;
Mwydai 'r llym, a daw i'r llwch,
O'i fodd elai 'n feddalwch,

Adfera edifeirwch—yr anwar,
I rinwedd a harddwch ;
O'i deryll wib, daw i'r llwch,
Dan arwydd gwir dynerwch.

Adferiad edifeirwch—a orphen
Yn berffaith brydferthwch :
Gedy 'r holl ûs gyda 'r llwch ;
A dwg i ddwyfol degwch.

Adferiad yw edifeirwch—ar ddyn,
Er ei dda, o'i fryntwch:
Ni wellâ ond yn y llwch,
Drwy ei ostwng i dristwch.

Daw adferiad edifeirwch—â'r dyn
Yn ŵr Duw, o'i hagrwch:
Delw ei Dduw, yn ffluw fflwch
A'i hurdda ef â harddwch.

Dïau fe ŷr edifeirwch—swcraeth
I sicrwydd a heddwch:
Ern oll yw, geir yn y llwch,
O ddwyn i fro 'r dyddanwch.

Deuai o fawr edifeirwch—deimlad,
Lled amlwg, o heddwch:
Fe wna wellâu 'n fwy 'n y llwch;
Daw i gryfiant digrifwch.

Daw fory i edifeirwch,—o nos,
Anesmwyth ei dristwch,
Yn ddydd llawenydd,—o'r llwch;
Nad all yr â 'n dywyllwch.

Du foreu yw edifeirwch,—a ddaw
Yn ddydd heb dywyllwch;
Dydd pur uwch llafur a llwch;
Dydd ennyn pob dyddanwch.

Daw o forio edifeirwch—gyrhaedd
Porth goror dedwyddwch;
Tynu draw wna 'r tònau trwch,
A rhoddant ar fro'r heddwch.

Dofa wir edifeirwch—y nwydau,
Rhag niweidio heddwch ;
Tir mwynaidd llariaidd yw 'r llwch,
A'i deulu am dawelwch.

Difa wir edifeirwch—y sorod,
A surant ddedwyddwch ;
O boen a llaid, byw 'n y llwch,
Rydd i ddyn wir ddyddanwch.

Darostwng duwiol dristwch—y gwydau
A godant anheddwch ;
Ymröir i'w lladd yn mro 'r llwch
Lle y noddir llonyddwch.

Modd i gyrhaedd maddeugarwch—i'w gâs
Yw gwir edifeirwch:
Y mwyn lleddf, mae yn y llwch,
O dan goron dyngarwch.

Duw a ddwyn i'r dyddanwch,—draw i'w lŷs,
Drwy lwybr edifeirwch ;
Nid â i'r llys, ond o'r llwch,
Drwy ystwyth dduwiol dristwch.

Tu allan i'r tywyllwch,—annifyr,
Mae'r nefol ddedwyddwch ;
Bywyd llawn, uwch byd a llwch,
Dyf o wir edifeirwch.

Ond yr Iesu, heb un d'ryswch,—o'i ras
A rydd edifeirwch ;
Y fron, trwy ei rhagfarn trwch,
Drywana â'i dirionwch.

Efe a ŷr edifeirwch ;—â gwên
Y gwâna galedwch ;
Enaid, yn llymaid i'r llwch,
A dodda i'w ddedwyddwch.

# PENNILLION

ER COFFADWRIAETH AM DDWY FERCH I JOHN ROBERTS, YSW., A.S., A'I BRIOD; BRYNGWENALLT, ABERGELE, Y RHAI A FUONT FEIRW PAN YN IEUAINGC.

A ddarfu i'r ddwy ieuangc flaenori
  Eu hanwyl rieni fel hyn ?
A gawsant hwy wybod trwy brofi,
  Pa beth mewn gwirionedd yw 'r glyn ?
A gawsant wybodaeth helaethach
  Na holl ddysgedigion y llawr,
Gwybodaeth yn llawer ëangach.
  Am angeu, ac am y byd mawr ?

A wnaethant hwy gyrhaedd prif ddyben,
  Y bywyd daearol mor chwim ?
Heb wybod am helbul nac angen,
  Na cheisio gofalu am ddim.
Ffoi ymaith cyn teithio 'r anialwch,
  Cyn adwaen trallodion y byd ;
Diengu i berffaith ddedwyddwch,
  Uwchlaw y gofidiau i gyd.

Maent hwy yn seraphiaid y nefoedd,
  Mewn llawnder, yn canu mor llon ;
O gyrhaedd gwlawogydd a gwyntoedd,
  A goruwch rhyferthwy y dòn ;
Mor fedrus y maent yn clodfori
  Yn canu dan edrych i lawr,
Yn gweled eu hanwyl rieni
  Mewn hiraeth, a'u galar yn fawr

Clywch sisial nefolaidd eu lleisiau,
  Yn cyfarch eu tad a'u hoff fam,
Yn dywedyd, "Ateliwch eich dagrau,
  Ni chawsom gan angeu ddim cam :
Ymlonwch, gwnaeth Duw ein gwaredu
  O'r ddaiar i fyw mewn gwlad well ;

Dowch yma i fyw gyda 'r Iesu,
  Nid yw eich newidiad chwi 'n mhell.

Gadawsom y byd yn fabanod,
  Ond yma yr y'm mewn llawn faint,
Yn berffaith mewn tuedd a gwybod,
  Yn nghanol angelion a saint;
Mae Abraham yma, a Moses,
  A buom yn siarad â hwy,
A chawsom ymddiddan yn serchus,
  A'r Iesu, beth all'sem gael fwy?

Yr ydym mewn teulu serchiadol,
  Yn gwenu oll arnom heb baid
Mae 'r saint a'r angelion yn siriol,
  A chynes ryfeddol yw 'n taid.*
Yr ydych chwi yna yn dduon
  Eich gwisgoedd, 'n ol arfer eich gwlad,
A ninau mewn dillad claer wynion
  Yn deilwng o urddas tŷ 'n Tad.

Er cystal ein cartref daearol,
  Ni charem ni byth ddod yn ol,
Ond cawsom ni enill rhyfeddol,
  Na wylwch byth mwy ar ein hol:
Cyn rhedeg yr yrfa drallodus,
  Ni gawsom gyrhaeddyd y nôd
Ni ddaethom trwy angau yn hwylus
  I gyrhaedd prif ddyben ein bod.

Ni ddeuwn ill dwy i'ch cyfarfod,
  Dan ganu, i enau y glyn:
A llu o angelion i'n gwarchod,
  Os Iesu'n Gwaredwr a'i mŷn,
Arweiniwn ein hanwyl rieni,
  Yn union at Iesu y Pen;
Cyd drigwn yn ngwlad y goleuni
  A hyny 'n oes oesoedd, Amen."

* Y diweddar Barch. John Hughes, Liverpool, Awdwr "Methodistiaeth Cymru."

## I'R GYMALWST.

Gwae a enir i'r gewynwst—i fyw
Yn fwyd i'r gymalwst;
Mor chwerw gwaew ei gwst
Pwy adwaen waeth y pedwst.

Y droedwst a ỳr drydan,—ar wasgar
Trwy esgyrn a chyfan;
Nydd o hyd yn ddiwahan,
Ewynau nerthol anian.

---

## AR FEDD GENETH,

YR HON OEDD YN MEDDU HYDER CRYF YN EI GWAREDWR AR EI GWELY ANGAU.

Ei ber einioes a brynodd—o oes fer
Oes faith a enillodd;
Ei chymeriad, o fâd fodd,
Yn anwyl bêr eneiniodd.

---

## BEDD-ARGRAFF MISS SELINA OWEN,

MERCH-YN-NGHYFRAITH YR AWDWR.

Bu farw mewn canlyniad i niwaid mawr a dderbyniodd, trwy syrthio i lawr dros graig ger Caernarfon.

Addfwyn a hardd fu yn ei hoes—a chall
Ni chollodd i anfoes;
Aeth i'r làn trwy ruthr ei loes
I lawenydd ail einioes.

# HYFRYDWCH Y NEFOEDD.

Mae 'r fordaith yma yn y byd,
Trwy dymhestl ddirfawr bron o hyd;
Peryglon mawrion drwyddi 'n llawn:
Pan gair i'r môr o heddwch pur,
Ymhell o gyrhaedd ofn a chur,
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Ei long fu 'n hir ar gulfor bâs,
Heb ddwfr i'w gael, ond o fôr gras;
Rhwng craig a thraeth yn niwl prydnawn:
Pan ddaw ryw foreu i'r môr mawr,
Er anobeithio lawer awr,
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Bu'n morio 'n aml ar noswaith oer,
Mewn niwl heb weled sêr na lloer:
Pan ballai 'n hollol ei holl ddawn.
Pan ddaw i'r môr o'r culfôr caeth,
Lle syrthiodd ganwaith ar ryw draeth,
A nefoedd fydd yn felus iawn.

Wrth fyn'd drwy gyfwng diwedd oes,
Y lle sydd gul, a'r gwynt yn groes,
A thywyll fachlud haul brydnawn:
Pan ddaw i'r môr trwy 'r cyfwng du,
Y môr o'i flaen, a'r gwynt o'i du,
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Y man lle collwyd llongau lu;
A chlywai 'r bradwyr o'i ddau tu
Yn dweyd yn hyf, "Nyni a'i cawn:"
Pan gyrhaedd hwn i'r cefnfor draw.
Trwy 'r holl beryglon ar bob llaw,
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Cael nofio 'r môr tawelog maith,
Heb ofni glàn na thymhestl chwaith,
  Ar dònau cryfion dwyfol ddawn;
A gallu d'wedyd ar bob tòn,
"Myfi, myfi y piau hon;"
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Pererin tlawd, ymhell o'i wlad,
Sy'n teithio 'mlaen i dŷ ei Dad,
  O hyd trwy gymhorth dwyfol ddawn:
Ar ol blin teithio amser maith,
Trwy ofnau dirfawr lawer gwaith,
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Y daith sydd trwy anialwch mawr;
Mae bron a'i dd'rysu lawer awr;
  Ac ofna fwy wel'd hwyr brydnawn:
Pan ddaw i'r làn trwy 'r d'rysni oll,
Er ofni ganwaith fod ar goll,
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Ymdeimlo 'n aml yn wan a llwfr,
Mewn crasdir poeth, lle nad oes dwfr;
  Ond ceir o Ganaan sypiau grawn.
Ar ol cael trwy y crasdir llwm,
Bron trengu 'n aml o syched trwm,
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Mae 'r daith trwy diffaeth anial du,
Peryglon mawrion o bob tu;
  Bwystfilod rheibus drwyddo 'n llawn:
Ar ol d'od trwy 'r arswydus fro,
Er yn safn angeu lawer tro,
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Rhaid gweithio 'r ffordd ymlaen o hyd
Yn erbyn Satan, cnawd, a byd,
  Heb orphwys foreu na phrydnawn:

Ond pan ddaw drwodd i dir glân,
'Nol braidd cael byw mewn mwg a thân,
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Rhaid llwybro ymlaen aml noson ddu,
Tra rhua 'r llewod o bob tu,
Heb nawdd na nerth ond dwyfol ddawn:
Pan ddaw trwy 'r niwl i oleu 'r dydd,
Er ofni llwyr ddiffygio 'i ffydd,
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Trwy 'r daith rhaid dwyn ryw groes bob awr,
Mor flin a llesg, bron syrthio i lawr,
A gofid yn ddwfr ffiol lawn:
Ar ben y daith, trwy erchyll hin,
Yr ymdrech mawr, a'r lludded blin,
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Ymholi 'n aml mewn dirfawr ofn,
"Pa fodd 'r âf trwy 'r Iorddonen ddofn?
Pe deuwn ati, beth a wnawn?
Ar ol hir nychu gan ei braw,
Ac ofn na welai y làn draw,
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Rhaid myn'd ei hun i gerbyd prudd
Yr angeu du, dan leni cudd,
Tra rhuthrai ofnau iddo 'n llawn:
Pan ddaw o'r cerbyd, yn ŵr rhydd,
Wrth dŷ ei Dad, yn ngoleu 'r dydd,
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Saint ac angylion dyra'n llu,
I'w dderbyn ef o'r cerbyd du,
Gan floeddio, "Deuwch, llawenhawn!"
A'r Iesu ddaw, yn benaf un,
I'w dderbyn yn ei law ei hun;
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Ymdaena 'r gair trwy 'r nef yn awr
I'w brawd gael glàn o'r cystudd mawr
  Ffrwyth angeu 'r Iesu un prydnawn:
Ac yna cyd-ddolefant hwy,
"Gogoniant! Buddugoliaeth mwy!"
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Ond Iesu mewn serchiadol wrês,
A ddywed wrtho, "Tyr'd yn nês,
  Ti wobr fy ngwaed a ffrwyth fy nawn!
Gwêl, dyma 'r fan, yn f' ystlys i,
Caed ffynnon i dy olchi di!"
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Yr Iesu 'n gwenu arno 'n fwyn,
Gan ddweyd, "'Rwyt ti yn un o f' ŵyn,
  A brynais i drwy daliad llawn:
Mae pobpeth yma yn eiddo i ti;
Cai drigo mwyach gydâ mi!"
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Holl groesau 'r daith yn troi yn hedd,
A'r holl ofidiau 'n troi yn wledd,
  A'r tlodi 'n troi yn Ganaan lawn;
Yr arfau 'n troi yn balmwydd mwy;
A'r ofnau gynt, fe 'u siomwyd hwy:
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Ar ol ymestyn am lanhâd;
Ac ofni nad oedd dim gwellhâd;
  Halogrwydd trwy 'r holl ddyn yn llawn:
Ond hwnw 'n cael ei hun heb friw,
Yn berffaith lân ar ddelw Duw:
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Ar ol hiraethu, trwy 'r daith bell,
Am adwaen Iesu 'n llawer gwell,
  Ac ofn niwl mwy yn hwyr prydnawn;

Ond hwn trwy 'r ofn yn cael ei hun
Ar fainc, yn ymyl Mab y Dyn :
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Yn lle wylofain, seinio cân ;
Yn lle gelynion, brodyr glân ;
Yn lle 'r wlad lom, cael Canaan lawn ;
Heb ofni llithro byth drachefn,
Ac angau mwyach o'r tu cefn :
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Bydd holl dduwiolion oesau 'r byd
Yn cymdeithasu yno ynghyd,
A'r cyfan yn eu hoed yn llawn ;
Mewn heddwch byth, heb unrhyw boen,
O flaen gorseddfaingc Duw a'r Oen :
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Yr etifeddion ydynt hwy ;
Heb Ismael groes i'w blino mwy,
Nac Esau gâs trwy 'r Ganaan lawn ;
Ond anwyl frawd a fydd pob un,
Ar berffaith ddelw Duw ei hun ;
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Un corff yw 'r oll tu fewn i'r llen ;
A'r Iesu mawr yw 'r uchel Ben :
Yn fuan, daw 'r holl gorff yn llawn :
A chariad Duw a rêd o hyd,
Fel gwaed, yn ffrwd trwy 'r corff i gyd :
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Mae 'r holl aelodau fry 'n gytûn ;
Cyd-lawenhânt wrth fawrhâd un ;
Yr oll yn cyd-fwynhau pob dawn ;
Mwynhant eu gilydd yn ddiball,
A'r naill fwynha ddawn Duw trwy 'r llall :
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Cael gwel'd y daith o'r bryniau draw,
Ei throion oll, heb deimlo braw,
  Nac ofni machlud haul brydnawn:
Ond gwel'd pob rhan o'r yrfa gâs
Yn dangos rhyfeddodau gras;
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Cael cyrhaedd fry i dŷ ei Dad;
Ymborthi ar hên ŷd y wlad,
  Y mêl a'r llaeth yn ffrydiau llawn;
Ymrodio gydâ 'r Iesu gwiw,
Ar hyd rhodfëydd Paradwys Duw;
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Ymddyddan gydâ 'r Iesu hardd,
Gan rodio 'r baradwysaidd ardd,
  A phob ffrwyth drwyddi 'n addfed rawn;
Gwelyau 'r llysiau pêr bob lliw,
Yn cyd-groesawu 'r Iesu gwiw;
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Cael clywed Iesu 'n eglurhau
Rhagluniaeth ddofn, dan lawenhau;
  Pob chwerw dro 'n ddaioni llawn:
A mwy, ei wrandaw 'n traethu 'i oes,
O'r bru trwy ddyfnder angeu 'r groes:
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Pan draetha Crist ei ryfedd oes,
Pan ddechreu dd'weyd am angeu'r groes,
  Bydd teimlad pawb trwy 'r nef yn llawn:
Ar hyn, ymdorant mewn cyd gân;
A gwel'd yr Oen ennyna 'r tân:
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Hên gartref bywyd yw 'r wlad lon;
A bywyd byth deyrnasa 'n hon;
  Mae ffynnon bywyd yno 'n llawn:

Ei llyfr, ei phren, a'i hafon rad,
Pob peth yn fywyd trwy 'r holl wlad:
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Gwlad Duw—"y Bywyd" gelwir hi;
Ei haul yw Crist ein bywyd ni;
Pelydrau bywyd yw ei ddawn:
Mae awyr bywyd yn rhy gref
I angau ddyfod byth i'r nef:
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Mae bywyd yno 'n bren dan ffrwyth;
Afalau bywyd arno 'n llwyth;
A'i ffrwyth bob mis yn addfed lawn:
Cael bwyta 'r ffrwyth—pa beth fydd hyn?
Ond bwyta bywyd faint a fyn:
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Mae bywyd yn y nef mor rad,
Yn llifo 'n afon trwy 'r holl wlad;
A hono yn drag'wyddol lawn:
Cair yfed dwfr y bywyd byth,
Sef, yfed bywyd yn ddilyth:
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Cofrestrwyd enwau 'r nefol hâd
Yn llyfr y bywyd gan y Tad;
Pob sill a bywyd ynddi 'n llawn:
Bydd bywyd yn y llyfr byth mwy,
Yn pêr eneinio 'u henwau hwy:
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Mae pawb dan goron drwy 'r nef lon
A bywyd yw y goron hon;
Mae perlau bywyd drwyddi 'n llawn:
Bydd bywyd heirdd goronau 'r saint
Yn fywyd byth i'w bri a'u braint:
Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Y bywyd piau yr holl wlad;
Teyrnasa byth yn fywyd rhad;
  A bywyd bywyd fydd pob dawn:
Teyrnasu gydâ Christ byth mwy.
Mewn bywyd y teyrnasant hwy:
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Pa beth ond bywyd yw eu gwledd;
A'r Iesu 'n d'weyd â siriol wedd,
  "Fy mrodyr, yfwn a bwytawn;"
A'r wledd o fywyd a'u deil hwy
Mewn llawn ieuengctyd am byth mwy:
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Eu gwledd fydd bywyd y Duw Ior;
Fel ffrydiau lenwir gan y môr:
  Ei fywyd ef trwy 'r oll yn llawn:
Bydd ffynnon bywyd yn mhob un;
A hwnw 'n fywyd Duw ei hun:
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

Y môr o fywyd, pery 'n un.
Trwy 'r ffrydiau yn mawrhau ei hun;
  Nid edwyn drai, ond byth yn llawn:
Ni fetha 'r un o'r teulu fyw,
Tra pery bywyd yn eu Duw:
  Y nefoedd fydd yn felus iawn.

---

## BEDD-ARGRAFF

MR. JOHN THOMAS, LLANBERIS, YR HWN A FU YN PREGETHU GYDA Y TREFNYDDION CALFINAIDD 63 MLYNEDD.

Enyd hir bu'n genad hedd—a'i goron
  Nis gwyrai i'w ddiwedd;
 Dyn o barch hyd yn y bedd,
 Llu a garant lle gorwedd.

## BEDD-ARGRAFF Y DYN RHINWEDDOL.

Fe wnaeth fyw faenwaith ei fedd—mwy enwog
Na mynor y bonedd;
Deil o hyd gofadail hedd
Mae ar hwn emau rhinwedd.

---

## BEDD-ARGRAFF HEN GREFYDDWR.

Pererin pur a orwedd—o dan hon,
Dyn hynaws i'w ddiwedd;
Er distryw daw 'n fyw o'i fedd,
Ryw foreu i wir fawredd.

---

## BEDD-ARGRAFF

### Mr. William Williams a'i Briod, Ty Capel, Llanrug.

Buont yno o gychwyniad yr Achos am flynyddoedd lawer yn gweini yn ffyddlon ar weinidogion yr Efengyl.

Dau enwog mewn cydweini—i weision
Yr Iesu trwy egni;
Difyr fraint, dau o fawr fri,
Dau anwyl, llawn daioni.

Bywiai 'r ddau yn bur dduwiol—a medrus
O ymadrodd siriol.
Byw trwy ffydd, heb droion ffol;
Rhai o fryd gwir frawdgarol.

O dan hon y cydhunant—hyd foreu
Difyrus a welant;
Heini gydgodi a gânt
I gynal pwys gogoniant.

# MARWNAD

## Ar ol Mrs. Williams, Priod Mr. D. Williams, Druggist, Pwllheli.

**Bu farw Ebrill 10fed, 1856, yn 69 mlwydd oed. Yr oedd yn wraig rinweddol iawn, yn hanu o deulu cyfrifol, ac yn meddu duwioldeb eglur.**

Daeth taith Meistres Williams i fyny,
I fyned o'r anial i'w gwlad;
Yr amser oedd wedi ei benu,
Y funyd bennododd ei Thad;
Yr adeg i newid anialwch
Am Ganaan drag'wyddol ei hedd;
Cyfnewid y groes am y goron,
A newid y newyn am wledd.

Angylion a'i cipiodd trwy 'r afon
Yn annisgwyliadwy i ni,
Mor gyflym trwy ddwfr yr Iorddonen,
Na theimlodd ryferthwy ei lli;
Ni chafwyd un sail i ragdybio
Fod awr ei dattodiad ger llaw,
Nac arwydd flaenorol o hono,
Cyn iddi gael tir y làn draw.

Cyfnewid o'i hiechyd arferol
I iechyd na theimla un boen;
Pan ydoedd yn fywiog a siriol,
Diangodd i wynfyd yr Oen:
Ni wybu am boenau 'r dattodiad;
Aeth drosodd heb deimlo un dòn:
Ar unwaith y bu ei nhewidiad,
I'w theimlad fel breuddwyd o'r bron.

Nid orfu ymaros mewn llafur,
I ddisgwyl ar derfyn y glyn;

Gan deimlo dattodiad ei natur,
  A rhwygo hên rwymun mor dŷn :
Heb aros ar làn yr Iorddonen,
  Yn ngolwg ei thònau a'i braw,
Hi gafodd ei hunan yn llawen,
  Yn ebrwydd yn canu 'r làn draw,

Rhyfeddodd wrth ganfod ei hunan
  Mor ebrwydd tu arall i'r dwfr ;
Rhyfeddodd gael drosodd mor fuan,
  Heb amser i deimlo yn llwfr ;
Pwy ddirnad ei theimlad buddugol
  Y fynyd pan gafodd ei hun
Yn mhorthladd y bywyd trag'wyddol
  A'r fordaith i'w golwg fel hûn !

O fynwes ei theulu 'n Mhwllheli,
  Gan aros o hyd yn eu serch ;
Ymddyddan heb bryder nac ofni,
  Mor siriol â'i phriod a'i merch :
Ar funyd hi gafodd ei hunan,
  Yn llawen, yn nheulu 'r ail fyd,
Yn dechreu trag'wyddol ymddiddan
  A saint ac angylion yn nghyd !

Pwy ddirnad ogoniant y newid,
  Gorfoledd ei theimlad pryd hyn ;
Cael allan o gyrhaedd pob gofid,
  A chefnu am byth ar y glŷn !
Paradwys o'i blaen yn ymagor,
  Ac angeu 'n drag'wyddol tu cefn ;
Perffeithrwydd, heb eisiau dim rhagor,
  Na pherygl ei golli drachefn.

Enillodd hi 'n fawr trwy 'r newidiad,
  Ond colled i'w theulu a fu ;
Mawr golled i'r tlawd a'r amddifad
  A cholled a deimlwyd gan lu :

Ei boreu, o berffaith oleuad,
  Droi 'n gwmwl tywyllwch i ni;
Ac achos ein trymaidd alarnad
  Yw dechreu ei gwynfyd mawr hi.

Ei llygaid a wyliai 'r anghenus,
  A'i chalon a deimlai ei gwyn
Yn ddistaw cyfranai 'n haelionus ;
  Ei thymer a'i geiriau mor fwyn :
Hi roddai na wyddai 'r llaw aswy
  Pa beth a gyfranai 'r llaw ddê ;
Ymddygodd yn wir ganmoladwy,
  Yn mhob peth yn llenwi ei lle.

Mor brydferth yw cyd gyfarfyddiad
  Callineb naturiol a gras ;
Sancteiddrwydd yn llywio 'r gweithrediad
  A'r meddwl galluog yn wâs.
Mae natur a gras yn cyd-lunio
  Yr enaid rhagorol i'w oes,
Rhagorol mewn gwir ddefnyddioldeb,
  Rhagorol o brydferth mewn moes.

Ni ddichon i ras cadwedigol
  Arddangos rhagorion ei waith,
Heb gryfion alluoedd meddyliol,
  I dderbyn ei argraff heb graith ;
A'r meddwl galluog, er cryfed,
  Nid yw o ymddiried heb ras
Hwn ydyw ei addurn ogoned,
  Wrth lywio, ac yntau yn wâs.

Cyfarfu 'r ddwy elfen fawr yma
  Yn ngwrthddrych ein hiraeth pryd hyn ;
Prif nodau cymeriad ei gyrfa
  A wnaeth ei nhodweddiad mor wỳn
Mor gall yr ymddygai 'n wastadol,
  Yn mhob rhyw amgylchiad mewn pwyll,

Ymddiddan yn fwyn a synwyrol,
  Heb fedru ar ffalsedd na thwyll.

Mor amlwg o hyd y dangosai
  Mae crefydd oedd dyben ei byw,
Y cyfan a wnai ac a dd'wedai
  Dan argraff llywodraeth ofn Duw;
Ni chlywid hi 'n cwyno dan groesau,
  Dyoddefai yn dawel dan gur
A'i llonder a gadwai derfynau,
  Gan feddwl gwir dyner a phur.

Taweled ei theulu i'w colled,
  Gan gofio 'r enillodd hi 'n fawr;
Yr Arglwydd roes iddi ymwared
  O'r rhyfel, fe benodd yr awr:
Ni fynai ei Phrynwr fod hebddi,
  Na 'i gadael ddim rhagor mor bell;
Cymerodd hi ato i'w gwmni;
  Mae 'n llawer, *yn llawer iawn gwell.*

Addawodd y Duw digyfnewid
  Gyfanu y golled ei hun
I'r enaid a grêd ei addewid,
  A gwiria ei eiriau bob un;
Mae 'n Dad i'r amddifad, i'w noddi,
  Yn Farnwr i'r gweddwon wrth raid,
I'w coledd â'i ddirfawr dosturi,
  Gan sefyll ei hunan o'u phlaid.

---

## PWY SYDD FWYAF.

Ymawydd am y mwyaf,—dŷn i lawr,
    Dyna loes i'r eithaf;
  Da yw i ni medd Duw Naf,
  Ymryson am yr isaf.

# CARIAD Y BUGAIL DA.

Aeth Mab Duw ar ol dynion, i'w hadferyd, eithr gadawodd yr angylion syrthiedig yn eu trueni.

Mae 'r Bugail yn ffyddlon a mwyn,
  Yn ceisio 'r golledig o hyd;
A dwg yn ei fynwes yr ŵyn,
  Coledda 'r mamogiaid 'r un pryd;
Pwrcasodd ei ddefaid yn ddrud,
  I haeddu eu cyfiawn ryddhad;
Darparodd eu cartref yn glud,
  A hwnw yn mynwes ei Dad.

Mae 'n enill ei ddefaid heb drais,
  Chwenychant gael dyfod i'w gôl;
Mae 'r defaid yn adwaen ei lais,
  A hwy a ganlynant ei ôl,
Mae 'n adwaen ei ddefaid ei hun,
  Ac yn eu bugeilio trwy 'r nos,
Ni chollodd y Bugail ddim un,
  Er syrthio o lawer i'r ffos.

Fe ddywed yn llon wrth ei Dad,
  Ar gyhoedd yn niwedd y byd,
Mi ddaethum trwy 'r dirmyg a'r brad
  I'm cartref, a'm teulu i gyd;
Y cyfan a roddaist i mi
  A gedwais, ni chollais yr un,
Ac wele byw ydwyf mewn bri,
  Yn nghanol fy nheulu fy hun.

Ymroddais i wneuthur y gwaith,
  A roddaist o'r dechreu i mi;
Ac heddyw holl gynyrch y daith,
  Yn llawen gyflwynaf i ti.
Mawrhai yn drag'wyddol dy Sant,
  Tra cofi ei ddirmyg a'i loes—

Nis gallwn anghofio fy mhlant,
  Tra cofiwn am angau y groes ;

Ffrwyth llafur fy enaid ynt hwy
  Ti weli na chollais yr un ;
A ni a gyd-drigwn byth mwy
  Yn Nhŷ ein Tad Nefol ei hun.
Ac wele 'r angylion a'r saint,
  Heb eisiau fod rhyngddynt rhyw len,
A llawen gyfrifant y fraint—
  Ymuno o dan yr un Pen.

Aeth llu o angylion ar goll,
  Mawr hyrddod Nabaioth y nef :
Gadawodd yr Arglwydd hwynt oll,
  Eu cloi yn y carchar wna Ef:
Ond defaid disylw 'n byd ni
  Grwydrasant o'r borfa i gyd,
O Arglwydd paham y gwneist ti
  Amlygu dy gariad i'r byd !

Paham y gadawodd Duw da
  Hen lestri ei balas ar lawr ?
Aur lestri, eu gadael a wna,
  Ni chawsant un amnaid am wawr :
Ond codi trwy gostau mawr iawn,
  Mae llestri o bridd ac o glai,
Eu golchi i'w hurddas yn llawn,
  A hyny o'i gariad didrai.

Y Mab a gymerodd o'i ras
  Wisg bugail am dano ei Hun,
Disgynodd i ganol ei gas,
  Dibrisiodd y rhwystrau bob un,
Aeth rhagddo yn ddyfnach i lawr
  Nes cafodd ei ddefaid ei hun,
Ac yna esgynodd fel cawr,
  Gan drechu 'r gelynion bob un.

Bugeilia ei braidd yn y nef,
  I'w porthi a'u cyflawn ddyfrhau
O hyd mewn gwisg bugail mae Ef—
  Ei wisg i drag'wyddol barhau:
Mae arni hi olion y daith
  Geirwindeb ei ddirmyg a'i loes
Ei gariad a ddengys pob craith
  Maent megys geneuau ei groes.

Mae creithiau i'w ystlys a'i ben,
  A chreithiau i'w ddwylaw ai draed,
Arwyddion o rwygiad y llen,
  Pan liwiwyd ei ddillad a'i waed:
Mae 'r creithiau 'n ffynnonau dilyth,
  Yn llifo 'n afonydd bob pryd,
Trwy nefoedd y nefoedd dros byth,
  A'r dyfroedd a chwyddant o hyd.

Rhyfeddol yw enw Mab Duw,
  Disgleirdeb gogoniant y nef,
Er hyny dros ddynion mae 'n byw
  Dros ddynion mae 'n codi ei lef.
Yr wyf yn anghofio fy hun,
  Anghofio pob gofid a gwae,
Mewn gobaith cael bod ar ei lun,
  A'i weled ef fel ag y mae.

---

## AR FARWOLAETH MR. D. JONES, 'RACHUB, LLANLLECHID.

Y dyn anwyl dan eneiniad—nefol,
  Yn ufudd henuriad;
Ond aeth fry i dŷ ei Dad
I gadw gwyl i'w Geidwad.

# ENLLIB.

"Torraf ymaith yr hwn a enllibio ei gymydog yn ddirgel.—
Salm ci., 5.

Gwr wena ger y wyneb;
Ond tu 'n ol nid da yw neb.
Ger wyneb geiria weniaith;
Tra o'r ol dad-dry yr iaith.
Ni all wgu mewn llygaid;
Ond i'r cefn, Och! neidr ei caid.
Un yn lladd dan wenu 'n llon
Dyn ag anffawd yn gynffon.
Bradychu brawd, cu ac iach,
A'i gusan, beth atgasach?
Mawr ei lid, ond pwy mor lân?
Yr un sut a'r hen Satan.
Brawd odwych o bryd ydyw;
A gelyn o'r galon yw.
Blaidd gwaethaf yn ngwisg dafad;
Oen â'i fron yn llawn o frad.
Llyfn i frathu trwy frad,
I glwyfo â theg lyfiad.
Gwên dirion gan y diras,
A chynffon ysgorpion gas.
Seraff o wedd ond sarff yw;
Duwiol od, ond diawl ydyw.
Cwd gwenwyn o groen oenig,
Llawn gwenwyn, mae 'n dordyn dig;
Gwenwyn yw ei brif gynneddf,
Ei hoffus a'i rymus reddf;
Gwenwynllyd holl fryd ei fron,
Holl giliau ei hell galon:
Ffalsio a phigio ni phaid;
Gwenwynig yn ei enaid.
Telpyn o wenwyn yw oll;
Mae a'i orchest am archoll.

Hir drafod o ganfod gwall
A chwerwa wrth barch arall.

Buan cenfydd o bydd bai;
Mwyfwy arfod am fawrfai.
Rhinwedd a gwychedd nis gwel;
Gwna guchiau gan eu gochel.
Llygaid wel bob llaid a llwch;
Nid y da ond y düwch.
Dwg anaf lygaid gwenwyn;
Gwel y gwall, nis gwel y gwyn.
Taeoga weled tegwch;
Ymdorcha, llyfa y llwch:
Anian y sarff wenwynig;
Ffriw dyn gyffry ei dig.
Ar dêr orwychder ei wedd
Y gesyd ei ddygasedd.
Ni fyn, ni fedr hi edrych
Ar dduwiol wawr ei ddelw wych.
Ei ffriw deg gyffry ei daint,
Dygyfyd ei digofaint.
Pan y'i gwel, rhed poenau gant
Drosti, trwyddi y treiddiant:
Twymn iasiau o donau dig,
Ennyniad naws wenwynig.
Ei dig sydd at ei degwch;
Y budr llyf, ei bwyd yw 'r llwch.
Bwrw ei mefl chwyd-boer ei mant;
O lyfoerion lifeiriant
Ar y glân er gelyniaeth;
Toi ei wych wedd at ei chwaeth.
Haenu ei phoer ei hunan
Dros wychder gloywder y glân,
Baedda wych, bodda ei wedd,
Yn afon ei lysnafedd.

Pa wiber îs ser y sydd
Weithreda ail athrodydd?
Mor gynffonog, daeog dŷn;
Mor wynias ei mawr wenwyn,
Mor dorchog ddolenog lêch;

Chwyl amdro, a chêl ymdrech.
Absenwr, meistr pob swyniaeth;
Y pen neidr yw, pa neidr waeth?
Mae achos mwy i'w ochel,
Dwyn ei gâs yn fwy dan gêl.
Mwy enbyd gwaedlyd ei gais;
Mae filwaith mwy ei falais.
Mwy ystrywddrwg, gilwg gâs;
Fâg wenwyn yn fwy gwynias.
Mwy ffalslyd, fradlyd ei fron;
A llawnach o gynllwynion.
A'i deg rith, mwy dig o wraidd;
A chwery 'n fwy llechwraidd,
Mileiniach, fryntach ei fron,
A llawnach o gynllwynion.
Ei frathiad, rwygiad o'r ol.
Mae 'n waediad mwy niweidiol,
Erchyllach ei archollion;
Mwy ysol i frawdol fron.

Gwânu mae'r cenfigenwr,
Nid i gig neu gnawd gŵr;
Ond i'w addas nodweddiad,
Ei wir lwydd a'i barch drwy 'r wlad.
Ei gymeriad gamwyra,
A gwâna ei deg enw da,
Dirgelaidd dery 'i golyn,
Drwy frad yn nodweddiad dyn.
Enw da, pwy ddirnad ei werth?
Mewn berw adfyd mae 'n brydferth;
Mwy ei werth na 'r gemau yw:
Da nodwedd, gwerth dyn ydyw.
Mae 'n anhebgor drysor drud;
Rhyw well elw na 'r holl olud.
Uwch mŵnau, holl berlau 'r byd;
Yn fwy i ddyn na 'i fywyd,
Nôd, prif arfod ei yrfa:
Nid dyn yw dyn heb enw da;

Diafl edwyn, diafol ydyw;
Ond a fo lân dwyfol yw.

Pe yn isel ddirgel ddyn,
Hyd at yn llwm gardotyn;
Is galwad, goris golwg,
Y beilchion o droion drwg;
Pe 'n fyr iawn mewn dawn a dysg
Heb arwyddion bri addysg;
Pe 'n afiach a bach ei ben.
Un o wybod annyben:
Er gwaeledd natur gwla;
Os dyn yw 'r dyn o enw da,
Mae 'n fonedd, yn fonedd ail-fyd,
O ddwyfol fonedd hefyd:
O alwad gan angylion;
Yn sylw, ac ar ddelw hardd Iôn.
Os cyfoethog eurog ŵr,
Uwch ri, neu ben chwareuwr;
Pe 'n nerthol, ragorol gall,
Neu ddi-ail yn ei ddeall,
Pe 'n cael heb ffael yr holl ffydd,
O myn, i symud mynydd;
Pe medrai bob ymadrodd,
Filiwn eu rhif, fel un rhodd;
Holl ddoniau er llwydd enyd,
Dynion, angylion ynghyd;
Pe 'n gwybod pob gwybodaeth,
Holl ddirgelion cuddion caeth:
Er hyny, diffyg rhinwedd,
Os cariad, enw mad, nis medd:
Dim, dim, gwaeth na dim yw dyn;
Heb nodwedd, mae 'n ben adyn.

Dwyn aur sy 'n ail dwyn eira,
Wrth gynllwyn er dwyn enw da.
Nid yw aur ond daearol,
Gollir, ennillir yn ol.

Lleidr enw dyn, lleidr enaid yw;
Brad waedydd ysbryd ydyw,
Lleidr yn ben lladron y byd,
Ddwyn elfen neu ddwyn eilfyd:
Pa ladrad mor ofnadwy?
Yn wir ni feddir ei fwy,
Gorleidr ar gysegr-ladrad,
Dwyn addurn cysegr Duw Dad:
Lleidr grasau 'r nef, a chrefydd;
Lleidr doniau effeithiau ffydd;
Lleidr rhinwedd, bonedd o bwys,
Priodol urdd Paradwys;
Lleidr delw fâd ein Ceidwad cu,
Ddilysiant ddelw Iesu;
A dwyn enw nid yw 'n ynnill,
A'i gwna, nis elwa un sill,
Er dwyn dirfawr drysawr drud,
A elwa ddim i'w olud?
I ddyn a'i medd, pa ddawn mwy?
Ys ydyw anmhrisiadwy.
Da nid yw i'r dyn a'i dwg,
Na mwy i'w elw na mwlwg,
Er mwyn dwyn mae 'n dwyn enw da,
Y llolyn ni all elwa.
Naws cenfigen ddyben ddall,
Ei goreu drygu arall.
Dyn gwenwyn, pa wenwyn waeth?
Dylanwad ei elyniaeth.

Ti adyn sydd yn tydach
O wlad i wlad, grwydriaid gwrach:
Meflau, chwedlau, brychau brâd,
A ddodi trwy 'th gerddediad,
Pa adill, Och! pwy ydwyt?
Hil, neu pa epil, pwy wyt?
Un o lwyth y tylwyth têg,
Wrachenaidd ruwch ei waneg.

## MYFYRDODAU PAN AR BEN Y WYDDFA.

Fry ar ben y mynydd uchel,
  Copa 'r Wyddfa hâf-ddydd clir,
Mor hyfrydol fydd yr awel,
  Ar drem geir ar fôr a thir:
Gwel'd yr haul o'i gell Ddwyreiniol,
  Braidd yn agor cil y ddôr;
Yna 'n teithio i'r Gorllewin,
  Lle gwna 'i wely yn y môr.

Cyffry natur drwyddi 'r boreu,
  I'w fawrhau, ail priod-ferch:
Pan ddaw allan o'i ystafell,
  Fel gŵr priod yn llawn serch:
At yr hwyr tristâ holl anian,
  Oh! ei chawr sy 'n gwaelu 'i wedd,
Yna troes i ddu alarwisg
  Pan yr aeth i'w ddyfrllyd fedd.

Ar ei godiad, clyw ganiadau,
  Cerddi adar mân y coed:
Ail i ganu ser y boreu,
  Pan y cododd gynta' erioed:
O'i fachludo, clyw 'r alarnad:
  Peidiodd cerddi 'r adar mân;
Dylluanod sy 'n gruddfanu,
  Cŵn yn udo, yn lle cân.

Pan ddynesa i fachludo,
  Natur drwyddi sy 'n trymhau;
Dacw 'r nentydd wedi duo;
  Ar y dyffryn mae 'n hwyrhau;
Wele 'r gweithwyr ar y llwybrau,
  A'r llafurwyr ar y rhos
Oll yn tynu, trwy flinderau,
  I'w cartrefydd cyn y nos.

Aeth yr haul i'w 'stafell wely,
  Rhwng yr awyr a'r môr mawr;
Gwridai, fel wrth gael ei wasgu
  Rhwng y ddau pan aeth i lawr:
Godreu llaes ei fantell freiniol,
  Wyna gẃr yr awyr draw
Dynodd ar ei ol yn raddol;
  Aeth o'r golwg maes o law.

Daeth tywyllwch i deyrnasu,
  Pan y ciliodd cawr y dydd,
Gormes deyrn yn sarug wgu,
  Rhwymau Orion roes yn rydd:
Nid oes neb am ei orseddu
  Ond y gwylliaid o dwyll rith;
Gan mòr drymaidd mae 'n teyrnasu,
  Wyla 'r cwmwl ddagrau gwlith.

Dyma ymgais ei deyrnasiad,
  Cuddio pobpeth fel dan len;
Dwyn pob bywyd dan farweiddiad;
  Cloi pob genau 'n fud fel pren:
Anifeiliaid wedi gorwedd;
  Penau 'r ednaint yn eu plu;
Huno 'n drwm mae gwreng a bonedd:
  Troes y byd yn fud a du.

Pob planhigyn fel yn gwywo,
  Blodau siriol yn pruddhau;
A'r rhosynau yn penwyro,
  Fel gan dristwch yn ymgâu:
Llwyr ddistawrwydd trwy 'r freniniaeth!
  Ai marwolaeth glôdd bob llu?
Fel i'r ddaear gan yr alaeth,
  Wisgo 'r fath alarwisg ddu?

Wrth ymwrandaw, clywir sïad
  Tònau 'r môr yn golchi 'r làn,

Sï yr afon, yn bloesg siarad
  A'r mân raian, sy 'n fwy gwan,
Clywir twrf y wyllt afonig,
  Rêd ar llethrau serth y nant,
Yn cynhyrfus dreulio 'r ceryg
  Wasgant ar ei ffordd i'r pant.

Mae 'r awelon a'r coedwigoedd
  Fel yn sibrwd sisial serch,
Weithiau dwrdia 'r pyffiau gwyntoedd
  Freichiau 'sgythrog creigiau erch
Pan mae natur fel yn huno,
  Chwyth yr awel, rhed y ffos;
Ni wna 'r gwynt na 'r dwfr farweiddio
  O dan ormes deyrn y nos.

Clywir twrf y praidd yn rhysio,
  Ar y llethr mae rhedeg gwyllt;
Trwst y ceryg mân yn llithro,
  A chibanau ffroenau 'r myllt:
Brefa 'r mamau a'r ŵyn gwirion
  Sy 'n ymateb o hir bell;
Cynllwyn mae y llwynog creulon
  Am ysglyfaeth i'w gudd gell.

Dyna 'r oenig fach yn brefu,
  Ac angeuol frefiad yw:
Mor dosturiol mae yn crefu
  Am ryw help i'w chadw 'n fyw!
Llwyr ddystawodd, aeth yn yspail:
  Dal i frefu mae y fam;
Brêf y boreu yn nghlyw 'r bugail,
  Achwyn wrtho ei mawr gam.

Gynen gwelid goleuadau
  Tai yn mhob màn fel ser mân,
Rhai 'n anaml, rhai 'n rhes-dyrau,
  A'r holl drefydd fel ar dân;

Gellid meddwl mai dynwared
  Gwedd yr wybren wnaeth y llawr:
Ser i fyny, ser i waered,
  Pell ac agos, bach a mawr.

Cyd-ymladdant â'r teyrn gwyllaidd,
  Gan eu saethu o'r ddau tu:
Ond rhy fân eu saethau gloewaidd
  Cryfha 'r cyfnos yn fwy du:
Llwyr ddiffodda 'r goleu isod,
  Rhoes y byd ei eirf i lawr;
Nid oes neb ond llu 'r nef uchod
  Ddeil i'r frwydr a'r gwyll yn awr.

Yn y drymnos codai 'r lleuad
  Daeth i'r maes o blaid y ser:
Llonai 'r llu â'i hymddangosiad,
  Adgryfha eu goleu têr;
Mae 'r tywyllwch yn teneuo,
  Ond ni ddarfu golli 'r maes
Nid adwaenir un màn eto
  Trwy ei fantell dywell laes.

Fel mae 'r nos ar fyned heibio,
  A'r boreuddydd yn nesâu;
Wele natur yn ymddeffro,
  Pob peth drwyddi 'n adfywhau;
Y blinderau wedi colli
  Rhwymau 'r nos yn myn'd yn rhydd:
Ysgafnha yr awyr drwyddi
  Gan ragnodi toriad dydd.

Wele, dacw 'r wybr Ddwyreiniol
  Yn teneuo gyda 'r llawr,
Mae ei godreu 'n gwynu 'n raddol,
  Wele oleu, dacw 'r wawr:
Rhagwawr yw 'n glanhau 'r ffurfafen,
  Brychau 'r nos yn cilio sydd;

Taena arni glaerlas lawrlen
  I groesawu teyrn y dydd.

Gwena 'r brenin ar ei ddeiliaid
  Cyn nesau i'w gŵydd ei hun:
Egyr gil ei lygaid tanbaid,
  Wrth ymddeffro o'i faith hûn:
Daw ar hyn o'i 'stafell wely
  Fe agorodd gŵr y ddôr,
O mor ddysglaer mae 'n pelydru,
  Wedi ymdrochi yn y môr.

Dacw gŵr yr haul aruthrol
  A chlaer enfys uwch ei ben,
Bwa gwawl y porth Dwyreiniol
  A ddyosgodd ei gudd lèn:
Daeth i'r golwg, mae 'n arswydol,
  Megys olwyn fawr o dân
Yn y gwynder, tra thanbeidiol
  Yw gwrid coch ei wyneb glân.

Pa beth gododd wrid i'w wyneb,
  Gwrid mor danbaid goch a hyn ?
Ai cynhyrfiad tân digllondeb
  Wnaeth mor goch ei wyneb gwyn ?
Ai 'r tywyllwch wrth ormesu
  Ar ei hawl, tra bu ar daith,
Wnaeth gyffroi ei ddig i'w chwalu
  Ac i lwyr ddadwneyd ei waith ?

Ha, ennyniad tân serchogrwydd
  Gododd ynddo gymmaint gwrid,
A gweniadau caredigrwydd
  Mae 'n rheoli, nid trwy lid;
Ei wên siriol gywilyddia
  Y tywyllwch i frysg ffoi,
Gwedi dychwel o'i ymguddfa
  Gwres ei serch sy 'n ymgyffroi.

Mor fawreddig y daeth allan
  I ymwel'd â'i briod-ferch!
Ennyn fywyd trwy holl anian
  Dyrcha niwl o chwys ei serch:
Neu mae 'r haul yn serchog sugno
  Leithder dagrau ei hardd bryd:
Deigr ei hiraeth mawr am dano
  Wylodd trwy 'r holl nos o hyd.

Helia 'r gwyll i'r nentydd dyfnion,
  A chyn hir i'r cysgodfëydd,
Aeth yr oll o'r golwg weithion,
  I ymlechu i'r cuddfeydd
Ser a lleuad, er eu gloewder,
  Megys yn ymguddio sydd,
Nis gallasant fel gan wylder
  Ddal dysgleirdeb brenin dydd.

Mor effeithiol ei gyfodiad
  Ar yr ednaint fawr a mân!
Myn y ceiliog roi 'r cyfarchiad
  Cyntaf iddo, â'i gref gân:
Hwn osododd Awdwr anian
  Fel gwyliedydd toriad gwawr;
Gwylia amser taith yr huan
  Wedi iddo fyn'd i lawr.

Cana pan fo 'n croesi llinell
  Canol nos er trymed fydd
Ar bwynt pellaf ei gylch hirbell,
  Hanner ffordd cyn toriad dydd
Cyffry, fel i ddeffro 'r oror,
  Deil i dreblu 'r gân, pan ddaw
Teyrn y dydd i ddechreu agor
  Doreu porth y Dwyrain draw.

Annirnadwy ddeddf naturiaeth,
  Ennyn ryw gynhyrfiad byw:

Nid gweithrediad dealldwriaeth—
  Anian-reddf ddirgelaidd yw:
Gweithia 'r haul, pan ar ei godiad,
  Yn ei natur i'w ddeffroi,
Gan ogleisio ei holl deimlad
  I'w gyhoeddi 'n ddi-ymdroi.

Deffry 'r adar trwy 'r coedwigoedd
  Hêd i lawr aml bluen rydd,
Wrth dacluso eu heirdd wisgoedd,
  I groesawu teyrn y dydd:
Cyffry 'r corau i gerddori
  A pheroriaeth heb ei hail:
Llona 'r llu—yr haul sy 'n codi!
  Gydâ 'u cerddi dawnsia 'r dail.

Mae 'r mân wenyn yn blygeiniol—
  Yr holl gychaid drwyddo 'n fyw:
Daw llu allan yn olynol,
  Mewn mawr frys—eu tymor yw;
Swniant weithio, fel ar ganiad,
  Gan i'r wawr eu rhoddi 'n rhydd,
Neu mae 'r llu yn mwngial siarad
  Am rinweddau goleu ddydd.

Braidd y gall'sant gadw noswyl,
  Gan eu brys i gasglu mêl
Boreu godant at eu gorchwyl
  A phob un yn llawn o sêl:
Dyna yw eu croesaw goreu
  I'r haul, ddychwel o'i gudd daith,
Eu cael oll, pan godo 'r boreu,
  Yn egnîol gydâ 'u gwaith.

Mae 'r wenynen fach yn brysur,
  Ac mor gywrain yn ei gwaith.
Megys plentyn hoffaf natur
  Wisgodd yn ei siaced fraith:

hoddodd iddi arf amddiffyn
  Teimla gelyn ei losg fin;
Sugna fêl o fron y rhosin,
  Darpar at y geuaf blin.

Pan dywyna haul y boreu,
  Dyosg natur ei gwisg nos,
Gan ymdrwsio â'i heirdd dlysau,
  Chwarddai 'r haul o'i gwel'd mor dlôs;
Gwisgiad o bob lliw ardderchog,
  Pob pêr-arogl; O mor hardd!
Gwena 'i phriod arni 'n serchog,
  Hithau arno 'n ol a chwardd.

Dacw 'r haul â'i dirion wenau,
  Yn dadebru 'r blodau mân,
Ac agorant eu llygadau,
  Fel i wel'd ei wyneb glân;
Maent yn agor eu mynwesau
  Gan ymledu am ei wres,
Talant iddo beraroglau,
  Pan o'i wenau 'n sugno lles.

Wele 'r rhosyn yn sirioli,
  Tra yn wlyb o ddagrau 'r nos;
Agor mae i berarogli,
  I'w llawn led ei fantell dlos;
Pan mae'r haul yn tyner sychu
  Dagrau 'r nos oddiar eu rudd,
Dengys yntau, fel dan wenu
  Ei fynwesol dlysau cudd.

Cyffry pob peth i'w groesawu,
  Gan ei ganmawl yn eu hiaith:
Rhai trwy leisio i'w fawrygu,
  Rhai trwy fywiog wneyd eu gwaith,
Rhai trwy wasgar peraroglau,
  Rhai trwy chwareu yn ddiddrwg;

Wrth ddyrchafu yn golofnau
  Crymu iddo 'n aml wna'r mwg.

Teyrn y dydd a ddyry oleu
  Rhad i bawb, ac i bob peth:
Brysia fachlud, am i'w radau
  Gael fath gam, a'u rhoi dan dreth;
Pa beth trethu rhodd o'i eiddo!
  Gwerthu 'n ddrud ei anrheg rad
Na fedd gorsedd un hawl ynddo,
  Mwy na 'r tlotaf yn y wlad?

Rhydd oleuni i'r tlawd weithio,
  Na fedd ganwyll yn ei gell;
Gwel y morwr p'le i hwylio;
  A'r trwm glaf ymdeimla 'n well;
Dena 'r hen i eistedd allan:
  I ymdwymno yn ei wres,
A'r gwael nychlyd rydd daith fechan—
  Mae 'n adloni dan ei dês.

Ymddyrchafa 'r haul yn araf,
  Poethi 'n raddol mae ei dês:
Pan gyrhaeddo i'w bwynt uchaf
  Llesgâ natur dan ei wres;
Yna newid fel i ddeisyf,
  Ar yr haul a'i poetha hi
"Tro dy lygaid oddiwrthyf.
  Canys gorchfygasant fi."

---

## DIRWEST.

Darostwng wnelo Dirwestiaeth—flysiau
    Aflesol dynoliaeth;
  Troi y byd, trwy wybodaeth,
  Er eu lles, at ddw'r a llaeth.

Hawddgar ddiodydd gardd Eden,—y brid
Baradwys ddiangen,
Heb lai eu swm, na blas hen,
Atebant eto 'u dyben.

Ymlusgiaid, a haid ehedion—nwyfus,
A nofiaid yr eigion,
Ac Adda syw, eu llyw llon,
Yn yfed o'r un afon.

Tori eisiau trwy oesoedd,—dywedaf,
Diodi mil filoedd;
Nid yw lai, hynodawl oedd,
Darllawiad Iôr y lluoedd.

Od o led, a diwaelodion,—drylew,
Gostrelau yr eigion,
O lân ddwfr a lanwodd Iôn,
I ddegau mwy mae 'n ddigon.

Ei fferyllu yn ffreu allan,—heb ball
Drwy bibellau arian:
I'w groewi a'i loewi 'n lân
Ryw adgreu trwy rwyd graian,

Trwy bob gwlad yn rhad rhedant—eu dw'r fyth,
Trwy dyrfu gymellant,
Pawb is gwawl, pob eisiau gânt,
Yn ddigŵyn a ddigonant.

Ai nid difai i nwyd d'afiaeth—o ddyn,
Hen ddïod naturiaeth?
Iach oes gaiff na cheisio 'i gwaeth,
Heb doliant, a byd helaeth.

Ni bu un coll ar ben callwr—na rhwyg
Yn rhywiogedd mwynwr;
Nac aflwydd mewn un cyflwr,
Gan feddwdod trwy ddiod ddw'r.

Mil i'n mysg, ail melinau mân—y gwellt
A geir yn llaeth allan,
Wrth raid cawn lymaid yn lân
O wŷn anwyl win anian?

Yn ddiball pan ddaw y byd— i adael
Dïodydd bastarddlyd,
Yna hoedl ddaw i lawn hyd,
Ail llinfaith hoedl y cynfyd.

Wyf reithedig wirf wrthodwr,—boddawl,
Tra byddwyf anadlwr:
O f' enaid yn erfyniwr
Ar bawb ddod at ddïod ddw'r.

Gwir yw, fe fu pob gwirf yfwr—fisoedd
Yn foesol ddirwestwr;
Eilwaith dewch at laeth a dw'r.
Gwarth yw gweled gwrthgiliwr.

Pa beryglon i ddynionach,—neu wr
Mewn oed o ryw linach,
Yw yfed pe ba'i 'n afiach
O ddiod wan baban bach!

---

## ER COF AM MRS. JONES, YR ALLT, MON.

Ni bu achwyn o'i buchedd,—o'i chladdu
Ni cheddir ei rhinwedd;
Ei rhodiad bair anrhydedd,
Yn ei byw i fàn ei bedd.

Ei hun, a'i hoes roe's i'r Iesu—ei dysg
A'i dâ i'w groesawu;
Iachus fam i'w Achos fu,
O ewyllys a gallu.

Trwy orphwys a phwys ei phen—ar Iesu
Y croesai 'r Iorddonen;
Ai trwy 'r llif tu draw i'r llen,
Mewn llewyrch i'r mân llawen.

---

## ENGLYNION

### A Gyfansoddwyd yn atebiad i Englynion Eben Fardd ar Gymedroldeb—Fel hyn yr ysgrifenai at y Bardd:—

"Anwyl Syr,—Wrth ddarllen eich Englynion i Ddirwest yn y *Gwladgarwr*, cynhyrfodd fy awenydd, gan obeithio na thramgwyddwch wrth ei ffrwyth, ac y cymerwch hyn yn garedig oddi wrthyf, er nad wyf yn honi i mi fy hun yr enw Bardd."

I Iesu, ai melyswin—a ddeuent
Yn ddiod gyffredin?
Neu ddywed, od wyt ddewin,
A fu'r Gŵr yn yfwr gwin?

Ai gâlon Iesu goeliaist?—dywediad
Ei wawdwyr, a wiriaist;
Rhyfyg noeth! mor hyf y gwnaist!
Ow! ddwl! ai Iuddew welaist?

Cymeraist eu cam eiriau—a ddeuent
I dduo ei foesau,
(O ryw nwyd)—fel gwir nodau,
Testyn gwawd y tystion gau.

Fe wyddom mai 'r un fyddin—ro'i wâg lef
"Gwr glwth"! am ein Brenin;
A geiriau roent mwy gerwin
Fwyhâi 'r gwarth,—"Mae 'n yfwr gwin!"

Y gân gyhoeddaist, gwna gyhuddo;—paid
 Fel *Pwl*, ag ymddigio;
Hyd fedd dy fuchedd a fo
A Dirwest yn cyd-daro.

Eirf dilesg gwirf hudoliaeth—Oh! gochel
 Rhag awch eu llywodraeth;
Rhwng dy sïol a'i swynol saeth
Dyro astalch Dirwestiaeth.

---

## BEDD-ARGRAFF.

Teithiwn i ddoe fel tithau—i edrych
 Ysgrif-adrodd beddau:
A thi fydd, ar ddydd neu ddau
Yn y fynwent, fel finau.

---

## MEDDWL MYNED I AMERICA.

I Americ y moriaf—ac ansawdd
 Wisconsin a brofaf:
O naws hin ei chynes haf,
Hyd rewiant ei hydr auaf.

---

## ENGLYN I'R IA.

Englyn cywrain heb gydsain ond yr "R" ynddo.

Ar Eryri, oer yw'r eira,—oer wawr
 Yr arwr â rewa;
Oer arw rew yr oror iâ,
Er arwyre'r Awrora.

# USURIAETH.

Os arian ar usuriaeth,—mae 'n wasgu
Mewn esgus cynaliaeth.
Yr helpu, gan wasgu 'n waeth,
Sy'n ecrach yn swyn ocraeth.

Un roes arian ar usuriaeth—a droes
I dreisio 'n llywodraeth;
Pwliwn ef, pa elw a wnaeth?
Ha, bawaidd elw cribddeiliaeth.

A drysorer drwy usuriaeth—ei elw
Fydd olud didoraeth
Holir o'i ol, Pa le yr aeth?
Gan wasgar o'r gynysgaeth.

A drysoro drwy usuriaeth—i'w enw,
A ynill amhariaeth.
Ei enw'n uu a'r hyn a wnaeth,
Anadlir i'w genhedlaeth.

Aur a dyrodd, fawr doraeth,—a'u gadael
I gyd yn gynysgaeth;
Ond colled, a niwed wnaeth,
Trysorodd trwy usuriaeth.

Os arian ar usuriaeth—a geisir,
Rhag isach bywioliaeth
Gau yw'r nawdd, a'i gyr yn waeth,
Daw'n ecrach dan iau ocraeth.

Ysa arian usuriaeth,—y gwr,
A gais eu gwasanaeth:
Eu llôg aiff yn llewyg waeth,
Dirdyniad eu drudaniaeth.

# Y MAB AFRADLON.

Sef myfyrdodau barddonol ar Luc xv, 11—

## Y MAB YN YMGALEDU YN ERBYN ADDYSG A CHYDWYBOD.

### YR HANESYDD YN RHODDI YR ACHOS I LAWR.

Yr oedd rhyw bendefig urddasol,
Cyfoethog, a duwiol ei fryd,
Yn trigo ar ddyffryn ffrwythlonaf,
Y llanerch brydferthaf o'r byd;
Ar gyfer goludoedd mor fawrion,
Ni feddai o feibion ond dau:
A'i feibion oedd enaid ei fywyd,
Llafuriai o hyd i'w mawrhau.

Yn foreu tueddai'r ieuengaf
I'r bywyd oedd groesaf i'w dad,
Meithrinodd ei wyrgam dueddiad
Yn fwriad i adael ei wlad;
Dirgelaidd feithrinodd ei fwriad
Yn llwyr benderfyniad cyn hir;
A hyny trwy rwystrau beunyddiol,
Trwy ymdrech egnïol, yn wir.

Ei fynwes oedd faes ymrysonfa,
A chaled ymladdfa a fu;
Dwy fyddin yn wir wrthwynebol,
Ac ymladd egniol bob tu;
Y diafol un tu ymfyddinai,
A'r dûwch arliwiai yn wŷn,
Gan dwyllo a denu'n ddichellgar,
Llefarai'n wenieithgar fel hyn :—

"Tydi, wr ieuangc, harddwch gwlad,
O gyfansoddiad cryf;
A'th natur sy'n cryfhau bob dydd,
Nac ofna, bydd yn hyf;
Cai oes faith iawn, heb boen na chur,
Pa fodd nad âi'n bur hên?
A'r byd sy'n rhedeg, yn mhob da,
I'th gyfwrdd gyda gwên.

Nid rhaid i ti, yn ddigon siwr,
Fod fel hen wr ar drangc;
Os gwedda sobrwydd i dy dad,
Mae'n iselhad i langc:
Ymollwng i dy duedd lòn,
Yn union doi i fri,
Rhof le i'r byd i draethu'n awr
Y gwynfyd mawr gai di."

Y BYD YN ADDAW YN DEG IDDO.

Myfi y byd sy'n cael mawrhâd
Pob oes a gwlad o hyd,
Yr holl enwogion uchel gais
Enillais i eu bryd;
Ymroesant hwy yn llwyr i mi,
I'm hoffi yn fwy bob awr,
A minau roddais iddynt lwydd
A'r holl enwogrwydd mawr.

Rho sylw teg, yn ol dy chwant,
I'm holl ogoniant i;
Mae fy nifyrwch, yn ddi fôst,
Fil mwy nag wyddost ti:
Ond iti adael tŷ dy dad
A myned i wlad bell,
Cei nofio yn fy rhwysg o hyd,
A gwynfyd llawer gwell.

Y GYDWYBOD YN DEFFROI I RYBUDDIO.

Mae'n rhaid i mi 'r Gydwybod,
  Gael lle i ddweyd yn awr;
Myfi sy'n gwir ymwybod
  A rhwymau i'r Duw mawr:
Ofnadwy yw dirmygu
  Holl addysg duwiol dad,
Yr addysg sy'n dyrchafu
  I heddwch a mawrhâd.

Rhwysg pechod, a'i holl fwyniant,
  Ddiflanant megys tarth;
Arweiniant i gyfyngder,
  I ddyfnder poen a gwarth;
Os hau i'r cnawd, trwy dd'reidi,
  Rhaid medi byth mewn poen,
Gwellhau trwy ddagrau yma
  'Gael medi gyda'r Oen.

Pa beth os gwna Duw dewi?
  Na weli ond ei wg,
Dy adael yn ddi atreg
  I redeg i bob drwg,
Ar ol ymroi i lygredd
  Pa ddiwedd i ti ddaw?
A chofia, enaid gwerthfawr,
  Mae'r frawdle fawr ger llaw.

Y TEMTIWR YN DENU YN ERBYN CYDWYBOD.

Nid yw'r Gydwybod ond creu braw,
  O'r hyn sydd draw yn mhell,
Plentynaidd yw yr ofn i gyd
  A niwl ar fyd sydd well;
Mae'th haf yn deg, o hir barhâd,
  Heb arwydd tröad hîn,
Cei amser maith i lawenhau,
  Cyn dyfod dyddiau blin.

Fe dderbyn Duw bechadur mawr
  Yr unfed awr ar ddeg,
Cei ras yn hawdd, pan fo'n hwyrhau,
  Mwynhâ dy foreu teg;
Pa beth fydd beiau dy hir oes,
  Wrth waed y Groes, pryd hyn?
Y Ffynnon hon, ar ben y daith,
  A'th ylch yn berffaith wỳn.

Paham na chai, heb ofni drwg,
  Un olwg ar y byd?
Ti elli'n hawdd, fel llawer un,
  Feddiannu'th hun o hyd;
Enilli'r doethion i'th fawrhau,
  Gocheli bethau ffol;
A phe dygwyddit fethu'r nôd,
  Mor hawdd yw d'od yn ol.

Nis gelli gael dy ffordd yn rhwydd
  Tra byddi'n ngwydd dy dad;
Mwynhait dy hun yn llawer gwell
  Pe bait yn mhell o'th wlad:
Ti gai yn rhwydd dy ran o'r da,
  Gan esgus elwa mwy,
Pan gai dy ran, gwna droi o'th wlad,
  Na wrando'th dad ddim hŵy.

Nid yw'r Gydwybod ond ofn gau,
  Ffrwyth geiriau dy hen dad,
Mae ymdrech hon i'th rwystro di
  Rhag dyfod i fawrhâd;
Ond dàl i'w chroesi, na lwfrhâ,
  A hi wanhâ o hyd,
Cyn hir llwyr golli ei braw ffol
  Yn nghanol rhwysg y byd.

SERCH YN ERBYN Y GYDWYBOD, AC YN EI MYGU.

Gydwybod, gad i mi, y Serch,
  Yn awr dy anerch di,

Paham y ceisi roddi'th gaeth
  Arglwyddiaeth arnaf fi?
Paham? yr wyf mor wreiddiol reddf,
  Neu gyneddf lawn mor gref;
Gwres serch sydd yn sirioli'r byd,
  A gwynfyd nef y nef.

Yn wir, naturiol iawn i ddyn
  Ymestyn am fwynhâd,
Ac iechyd dyn i'w calon lòn,
  Mor groes cynghorion tad!
Mae'r byd yn addaw, yn deg iawn,
  Ryw hawddfyd llawn heb fraw;
Ymroddaf iddo, aeth a 'mryd,
  Mae môr o wynfyd draw.

Gydwybod, taw, a thaw ar frys,
  'R Ewyllys sydd o'm plaid;
Mi'th foddaf yn mwynderau'r byd,
  A'th ladd â'i wynfyd raid;
Myfi yw'r trechaf, gwn yn dda,
  Nac aflonydda di:
Clyw, mae'r Ewyllys, na thry'n ol,
  Yn hollol gyda mi.

YR EWYLLYS YN PENDERFYNU YR ACHOS.

Myfi, 'r Ewyllys, sydd yn gref,
  Rhaid addef fy nerth i;
Mi fynaf gyrhaedd at fy nôd,
  Gydwybod, beth wyt ti;
Cyffro'ist yn hyf, byth mwy na wna,
  Na feiddia godi braw,
Dy foddi wnawn, a chyll dy gur,
  Mewn môr o gysur draw.

CYDGAN O FUDDUGOLIAETH AR Y GYDWYBOD.

Ymlawenhawn am gael y dydd,
  Dim ond llawenydd mwy,

Rhoed i'r Gydwybod hollol daw
  Ni chyfyd fraw yn hŵy;
Holl ofnau Crefydd ffoes i gyd,
  Dilëwyd addysg tad;
Ni bydd, pan elir o'r hen fro,
  Ond nofio mewn mwynhâd.

---

## Y MAB YN YMADAEL A'I DAD.

### YR HANESYDD YN MYNEGI CANLYNIAD YR YMGALEDU.

Y rhyfel o'r diwedd derfynodd,
  A llygredd orchfygodd yn llwyr,
Ymwerthodd yr ieuangc i wagedd,
  Pa beth fydd ei ddiwedd? pwy ŵyr!
Y chwant wedi ymddwyn trwy 'smaldod.
  A esgor ar bechod cyn hir.
A phechod a esgor ar alaeth,
  Ar chwerwder marwolaeth yn wir.

Terfynodd y rhyfel guddiedig,
  Y fwyaf arbenig ei phwys,
Na ffurfiodd yr ieuangc un ddirnad
  Fod iddi ganlyniad mor ddwys;
Ei nodwedd rhagllaw a benododd,
  Y brenin gaethiwodd yn was,
A phenodd ei gyflwr trag'wyddol,
  Os na cha dro'n hollol o ras.

Nid rhyfel am arian, a thiroedd,
  Fel fu rhwng teyrnasoedd y byd,
Ond rhyfel am werth mwy sylweddol
  Na phobpeth daearol yn nghyd;
Ymladdfa am enaid rhesymol,
  Un sydd o drag'wyddol barhâd,
I drefnu ei gyflwr tragywydd,
  Mewn poenau neu ddedwydd fwynhâd.

Gorchfygwyd yn fud y gydwybod,
  Ac wele, ffordd pechod yn rhydd,
Yr ieuangc â rhagddo'n gyflymach,
  Cynydda'n galetach bob dydd;
Bydd mwyach at alwad pob pechod,
  Gan iddo lwyr wrthod ofn Duw;
Yn debyg i long ar y cefnfor,
  Heb iddi un angor na llyw.

Addfedodd, trwy galon galedu,
  I adael ei deulu a'i wlad,
Trwy hyfdra dideimlad, ryw foreu,
  Anturiodd i ddadleu â'i dad;
Caledwch â chariad yn dadleu,
  Golygfa a ddrylliai ddyn cryf,
Er hyny yr ieuangc ni theimlai,
  Fel hyn y llefarai yn hyf:—

IEUANGC. Dymunaf arnat f' anwyl dad,
  Roi caniatâd i mi,
I eglurhau fy uniawn gais
  A'm dyfais o'th flaen di;
Yr wyf am droi'n Farsiandwr call,
  A phwy, os gall, na wna?
Os rhoi imi fy rhan yn rhwydd
  A ddygwydd im' or da.

Y TAD. Fy mab, na wna fy ngado,
  Ond gwrando ar dy dad,
Mae perygl it' ymwylltio
  A suddo i sarhâd;
Mae'n hawdd i'r ieuangc dybio,
  Ond eto'r hen a ŵyr,
Na chymer dy gam arwain
  Rhag ochain yn rhy hwyr.

IEUANGC. Paham, fy nhad? Yr wyf mewn oed,
  Ac wedi do'd yn ddyn,
Yn fwy o synwyr ac o ddawn
  Na llawer iawn sy'n hŷn;

A ddygaf fi'th gaethiwed tỳn,
Fel plentyn bach o hyd?
Na wnaf, ddim hŵy, gwna 'mharotoi,
Mi fỳnaf droi i'r byd.

Y TAD. Fy mab, canfyddaf weithian,
Pa beth yw d' amcan di,
Ymroi i fwyniant pechod
Ond cael o 'ngwyddfod i;
Fy mab, a droi fy llafur,
Yn ddolur i fy mron?
A wnai fy addysg dyner
Yn ofer yr awr hon?

IEUANGC. Fy nhad, mae d'addysg di o hyd
Yn pleidio bywyd trist,
A raid imi, yn moreu 'nydd,
Ddwyn pruddni crefydd Crist?
Ymdrechu'r wyt i'm hiselhau,
Dan rith gwellhau fy moes,
A gwrthwynebu, yn ddiau,
I mi fwynhau fy oes.

Y TAD. Fy mab, fy mab, Oh! gwrando,
Yr wyf yn teimlo'n ddwys,
Gofalais am dy foesau,
A'th foesau sydd o bwys;
Ai nid wyf fi'n dy garu?
Yn caru'th wir lesâd?
Nis gallaf dd'weyd mewn geiriau
Deimladau calon tad.

IEUANGC. Fy nhad, na fydd fel hyn yn ffol;
Annynol yw dy gais;
Pa beth, a all hen wr fel ti
Fy atal i drwy drais?
Moes im' fy rhan, mi âf o'th fro,
Pe bait yn wylo llŷn;
A mynaf gychwyn heddyw yn wir,
Na ddal fi'n hir fel hyn.

Y TAD. Fy mab, ymadael fyni,
A dyma i ti'th ran;
Os gweri yn afradus,
Try'n gostus yn y man:
A elli wenu'n llawen
Ar ddagrau dy hen dad?
Dy g'ledwch sydd yn profi
Paham gadewi'th wlad.

Mae gwel'd dy fryd afradlon
Yn clwyfo 'nghalon i,
Ac ofnaf na chaf mwyach,
Byth mwyach dy wel'd di!
Na wna ddirmygus gilwg,
Gan droi dy olwg draw;
Fy mab, os rhaid ymadael,
Dod afael yn dy law.

IEUANGC. Mae henaint wedi'th hurtio di,
Paid, gollwng fi, fy nhad,
Mae'n llawen genyf fi, yn wir,
Gael troi o dir dy wlad;
Na ddal fy llaw, mi fynaf droi,
Na wna gyffroi mor ffol;
O'r braidd rhag cased yw dy swn,
Na ddeuwn byth yn ol.

YR HANESYDD YN DYSGRIFIO EI YMADAWIAD A'I DAD.

Terfynodd yr hir ymrysonfa,
Na welwyd golygfa fwy trom;
Y tad yn taer grefu'n dosturus,
A'r mab yn gilwgus a ffrom;
Ymaflai y tad i'w gofleidio,
A'r ieuangc yn gwthio'i dad draw,
Y tad fel yn methu ei adael,
A'r mab yn dadafael ei law.

Yr ieuangc brysurodd i'w ymdaith,
Heb edrych ddim unwaith yn ol,

Gan rodio'n ben uchel, ymrwyfus,
  Rhyw agwedd gellwerus a ffol;
Dangosai'r fath agwedd yn amlwg,
  Cyn cyrhaedd o olwg ei dad;
Arwyddai ryw fywyd pur benrhydd.
  Pan elai yn rhydd a'r hen wlad.

Ond sefyll wnai'r tad, nid eisteddai,
  Mor chwerw yr wylai'r hên wr;
Gan edrych trwy d'wyllwch ei ddagrau
  A chraffai trwy ffrydiau o ddw'r;
Dilynodd ei blentyn â'i olwg,
  Nes ciliodd o'r golwg yn llwyr,
Parhaodd i edrych am oriau,
  Nes taenodd cysgodau yr hwyr.

Ni syflodd ei olwg am unwaith,
  Hir graffai rhwng gobaith a braw,
Lle collodd ei blentyn o'i wyddfod,
  Dych'mygai ei ganfod o draw;
O'r diwedd, dan grynu, eisteddodd,—
  Am yspaid eisteddodd yn sỳn,
Ac yna ymdorodd i wylo,
  Llefarodd mewn cyffro, fel hyn:—

"Fy nolur sy'n anaele,
  Nis gwn pa le yr âf;
Daeth cwmwl du ar bobpeth,
  Pa beth, pa beth a wnaf?
Fy mab, fy mab ieuengaf,
  Fy mab nis gwelaf mwy,
Pa fodd gall natur gynal
  I attal ddim yn hŵy?

Fy llafur, am flynyddau,
  Ddifaodd chwantau 'r cnawd,
Fy addysg a ddilëwyd,
  A dröwyd oll yn wawd;

Fy nhlentyn a'm dirmygodd,
  A mynodd ffoi o'm llaw,
Ymwerthodd i anwiredd,
  Pa ddiwedd iddo ddaw?

Nid angau a'i cymerodd,
  Yr hwn sydd genad Duw,
Ond Satan a'i caethgludodd,
  Hen elyn dynol ryw;
Ei golli'n fyw i bechu.
  Nid colli wnaeth i'r bedd;
Pa beth fuasai 'i gladdu,
  Wrth hyn, ond llawen wledd?

Ei ddarlun gerfiodd cariad
  Yn ddwfn o dan fy mron,
A'm gwaed yn frwd, bob curiad,
  Gusana 'r ddelw hon;
Fy nheulu, cydymdeimlwch
  A'm tristwch sydd mor fawr,
Gruddfanwn ei alarnad,
  Neu farwnad, iddo'n awr."

CYD-ALAR Y TEULU AM DANO.

A droes y wawr foreuol,
  Yn ddu gaddugol nos?
Ai'r ffynnon bach risialaidd,
  Sy'n awr yn ffiaidd ffos?
Ai'r glân ymroes i ddrygfoes?
  Ai'r oen a droes yn llew?
A droes y claer farworyn
  Yn delpyn oer o rew?

Gruddfanwn ar adfeilion
  Ein hen obeithion gynt,
A'n gwaedd aed at y bachgen,
  Ar d'aden di y gwynt;
Nid aeth y mab afradlon
  Tu draw i ddichon Duw,

Pwy wyr na wrendy'n gweddi,
  Gall godi'r marw'n fyw.

Y TAD A'R TEULU YN YMATEB.

TAD. Nis gallaf gyraedd ato:
TEULU. Mae breichiau gras yn hŵy.
TAD. Llwyr fethais ei berswadio;
TEULU. Ond dichon Duw sy'n fwy.
TAD. Oes modd glanhau ei galon?
TEULU. Fe ddichon gwaed yr Oen.
CYDGAN. Mae gobaith, Haleliwia;
  Hosana, dan bob poen.

## YMDRECHION LLWYDDIANNUS Y TAD YN ACHOS EI FAB.

YR HANESYDD YN HYSBYSU YMDDYGIAD Y TAD.

Ni chiliodd y tad, trwy ei dristwch,
  O'i hen gyfeillgarwch â Duw;
Ond yma o hyd yr ymnerthodd,
  A dyma a'i cadwodd yn fyw:
Ymwasgai at Dduw yn nydd blinder,
  Cyflwynai ei fater i'w law,
Ei unig ddiangfa a'i ryddid
  O ganol ei ofid a'i fraw.

Cyflwynodd ei blentyn, o'i febyd,
  I Arglwydd y bywyd trwy ffydd,
Arferodd mewn gweddi ei gofio,
  Parhâodd i'w gofio bob dydd;
Dilynodd ei arfer trwy 'r aflwydd
  Heb weled un arwydd o lwydd
Gweddiau yn daerach gan hiraeth
  Er pan yr aeth ymaith o'i wydd.

Dadleuai, ar ran yr afradlon,
  Yr hen addewidion i'r saint,

Sy 'n cyrhaedd am had y duwiolion,
  Mawrygai o galon y fraint;
Ymaflai yn llŵ y cyfammod,
  Dadleuai deilyngdod yr Iawn;
Fel hyn yr ymdorai mewn gweddi,
  A'i deimlad yn boddi ei ddawn.

GWEDDI Y TAD DROS EI FAB.

O Arglwydd Dduw Goruchaf,
  Pa beth a dd'wedaf fi?
Mae trallod mawr fy enaid
  Yn noeth i'th lygaid di;
Mae'th galon mor dosturiol,
  A nerthol yw dy law,
Am hyn o'th flaen ymdaflaf,
  A llefaf yn ddi daw.

Fy mab, yr hwn addysgais,
  Gyflwynais i dy waith;
Pa beth, a dry yn ofer
  Fy llafur amser maith?
A syrth fy holl weddïau,
  Flynyddau, 'n ddim i'r llawr?
Pa beth, y Duw all gadw,
  A ddaw o'th enw mawr?

Fy mab a aeth o'm golwg,
  Ond amlwg yw i ti;
A gelli'n hawdd ei ddenu,
  Er iddo 'nhrechu i;
A mwy wyt mewn tosturi
  Na holl rïeni'r llawr,
Nid yw pob serch at blentyn
  Ond defyn o'th fôr mawr.

Rhagflaena, o'th drugaredd,
  Fy mab, mewn buchedd ddrwg,
Tosturia, i'w adferu,
  Er iddo haeddu'th wg;

Oh, gwna ei ymgeleddu,
  A'i dŷnu i dy gôl,
Ti elli, er ei grwydro,
  Ei ddychwel eto 'n ol.

Er mwyn dy drugareddau,
  A'th dosturiaethau rhad;
Er mwyn dy addewidion,
  I'th weision ac i'w had;
Er mwyn dy Enw prydferth,
  Er mwyn yr Aberth hedd,
Gwna hyn, a mi a'th folaf,
  A gwenaf ar y bedd.

YR HANESYDD YN HYSBYSU LLWYDDIANT GWEDDIAU Y TAD.

Mor werthfawr i ddyn, mewn cyfyngder,
  Fod wedi ymarfer â Duw,
Yn gyfaill, pan eir i fôr trallod,
  A'r Penaeth sy 'n trafod y llyw.
Haws teithio hen lwybr cydnabyddus,
  Pan niwlio 'r brawychus ddydd blin;
Haws myned at gyfaill mewn gofid,
  A'r Arglwydd all newid yr hîn.

Mewn gweddi, cai dd'weyd ei anhunedd,
  Yn nghlustiau Trugaredd ei hun;
A rhoddi ei achos i'w drefnu,
  I Gariad a Gallu yn Un:
Fe welai Duw angen ei enaid,
  Dealla ochenaid heb iaith;
Trwy weddi gall truan anghenog
  Ro'i braich Hollalluog ar waith.

Mae Gweddi'n cysylltu y gwagder,
  Wrth berffaith gyflawnder Duw Iôr,
Yn uno'r gwag bydew tòredig
  A llanw chwyddedig y môr;
Mae'n cydio y gwendid a'r llesgrwydd,
  Wrth Hollalluawgrwydd ei hun;

Y dim, a Ffynnonell Daioni,
  Sy'n cyfwrdd mewn Gweddi yn un.

Esgynai gweddïau'r tad duwiol,
  I fyny'n dderbyniol, i'r nef,
Ac yno'r ochenaid lefarai,
  Yr Allor a'i chwyddai yn llef;
Cymerai'r Eiriolwr ei fater,
  Dadleuai mewn hyfder di gryn,
Eiriolai, goruwch ein dychymyg,
  Mewn ystyr yn debyg i hyn :—

YR EIRIOLWR YN DADLEU CWYN Y TAD.

Mae yma, fy Nhad, i dy wyddfod,
  Weddïau yn dyfod bob dydd,
Yn tarddu o wasgfa credadyn,
  Yn esgyn ar edyn gwir ffydd;
Yn achos mab cyndyn, annuwiol,
  Wnaeth chwantau a'r diafol ei ddwyn;
Rhof finau, O Dad, fy nylanwad,
  I bleidio gwrandawiad i'r gŵyn.

Mae'r taerion weddïau'n gydredol
  A'r Arfaeth drag'wyddol ei hun,
Rhai hyn yn fy ngwaed a gyferfydd,
  A rhedant i'w gilydd yn un;
Cyd-bleidiant holl amcan fy Aberth,
  Defnyddiant fy Mhridwerth mewn bri;
Gwna dithau, fy Nhad canmoladwy,
  Eu hateb yn wobrwy i mi.

Mae llythyr, fel hyn, ar ol llythyr,
  Yn dyfod mor ddifyr i'm llaw,
Fy nghalon a'm hangau sy'n dadleu
  Rhag troi y llythyrau hyn draw;
Yn f' Enw y gwnaed eu cyfeirio,
  A'm Gwaed sydd yn selio pob un,
Rhof finau, i bleidio eu llwyddiant
  Holl urddas fy haeddiant fy Hun.

Cyfeiriwyd pob un o'r tir anial,
  I'w adael dan ofal fy Ngwaed,
I ateb pob gwaeledd, a'i guddio,
  Gwel f' ystlys, fy nwylaw, a'm traed;
Trugaredd, addewid, ac arfaeth,
  Fy Iawn, a f' Eiriolaeth sy'n un,
O blaid i weddïau'r tad lwyddo,
  I ddwyn ei fab ato ei hun.

YR HANESYDD YN MYNEGI LLWYDDIANT YR EIRIOLWR.

Y weddi ruddfanwyd yn wanaidd,
  Yn nghanol tawch trymaidd, trwy boen
Ai'n gryfach o lawer, pan ddyrcha
  I awyr Gorseddfa yr Oen;
Yn awel yr hen Drugareddfa,
  Ochenaid adfywia yn llef,
Mewn awyr mor iachus a gloyw,
  Llefara yn groew a chref.

Fe ddeall Offeiriad yr eglwys
  Ochenaid, a'i chynwys i gyd;
Y mudan a ddaw i lefaru,
  Yn ymyl yr Iesu o hyd;
Ochenaid yr yspryd drylliedig,
  O'r tawch halogedig a chas,
A nerthol ddadseinia'r Orseddfainge,
  Yn *eco* Gorseddfainge y Gras.

Mae yno fwg arogldarth lawer,
  Yn mygu bob amser mor hael,
Croesawa ochenaid o dlodi,
  Ymgaua am weddi y gwael;
Aeth gweddi amherffaith y truan
  I'r làn, o'r byd aflan a drwg,
Cyfiawnder sy'n gwenu mor siriol,
  Ar hòno, yn nghanol y mwg.

Dyferai gwael weddi'r cwynfanwr,
  O enau'r Eiriolwr yn làn,

Er oered, wrth rinwedd y Thuser,
  Hi fygai gan boethder y tân ;
Pan wedi ei gwisgo â mawredd,
  A dwyfol hyawdledd fath Un,
Nis gall'sai 'r cwynfanwr ei hadwaen,
  Byth adwaen ei weddi ei hun.

Eiriolaeth y Meichiau a lwyddodd,
  Y nef a gynhyrfodd yn awr ;
Angylion yn ysgwyd eu hedyn,
  Yn barod i gychwyn i lawr ;
Trugaredd a'i chalon mor gynhes,
  A'i mynwes yn awr fel ar dân,
Mewn bywiog orfoledd dychlamodd,
  Fel hyn y llefarodd, ar gân :—

TRUGAREDD YN GORFOLEDDU, AC YN RHOI RHAGLUNIAETH AR WAITH.

Caf wneuthur fy ngwaith gorfoleddus,
  Adferu'r gwallgofus i'w bwyll ;
Caf gadw pechadur colledig,
  A dwyn y gwrthnysig o'i dwyll ;
Caf godi y truan o'r domen,
  I fyny i lawen fawrhad ;
Caf ddwyn yr afradlon o'i grwydrau,
  A'i ddychwel i freichiau ei dad.

I ddechreu, ymrithiaf yn farnol,
  Mewn newyn angeuol bob tu,
Ymwisgaf â dillad digllonder,
  A chuddiaf fy mwynder mewn du ;
Fy nghanu a swnia'n sarugrwydd,
  Fy ngwên mewn gwisg sobrwydd i'r byd ;
Egluraf fy hunan, o'r diwedd,
  Yn ddim ond Trugaredd i gyd.

Pan ddygaf y gwallgof yn bwyllog,
  Y truan newynog i'r wledd ;

Y carpiog i gael ei addurno,
  A'r euog i deimlo gwir hedd;
Er chwerwed a fu y triniaethau,
  Gwasgfeuon ac ofnau o hyd;
Daw yntau i'm hadwaen o'r diwedd,
  Yn ddim ond Trugaredd i gyd.

Wrth fyned i droi yr afradlon,
  A'i ddwyn, o dir estron, i'w wlad,
Mi alwaf, er cymaint fy mrysio,
  Yn awr i gysuro'r hen dad;
Fy llewyrch, wrth gyflym fyn'd heibio,
  Yn foreu wawr iddo a fydd;
I'w godi i gadarn obeithio,
  Y daw ei fab ato ryw ddydd.

Ymddyrchaf i gadw'r colledig,
  A'r dalaeth bellenig a gryn,
Y dalaeth a swcrodd ei bechod
  A ddygaf i drallod pryd hyn;
Rho'f newyn trwy'r wlad i gyniwair,
  Er gwywo pob cellwair a gwŷn;
Rho'f fawredd, a gyffry bob teimlad,
  Fel hyn ar ddychweliad un dyn.

Cynhyrfais dylwythau yr Aiphtiaid,
  Wrth ddwyn yr Hebreaid o'u tir,
Gwnaf gynhwrf, wrth droi yr afradlon,
  A gofia'r trigolion yn hir:
Rhagluniaeth, gweithreda'n ddioedi,
  I ostwng a dofi'r mab drwg;
Mi roddaf i ti yr anrhydedd,
  I ddechreu'r ymgeledd â'th wg.

RHAGLUNIAETH YN YMGYMERYD A'R GWAITH.

Llawforwyn wyf i'r Prynedigaeth,
  Mawrhaf fy ngwasanaeth o hyd,

Mor agos berthynas i'n gilydd,
  Y Prynwr yw Llywydd y byd;
Fe 'n ganwyd o groth yr un Arfaeth,
  Yr ŷm dan reolaeth 'r un llaw;
Gwobrwyo 'r Cyfryngwr yw 'n hamcan,
  Poblogi ei Ganaan sydd draw.

Mi siomaf fwriadau 'r afradlon,
  A'i rwysgfawr obeithion i gyd,
Pan daenaf gaddugol dywyllwch,
  I guddio holl degwch y byd;
Gwel wasgfa na ddichon ei gochel,
  Rhaid marw, neu ddychwel i'w wlad;
A'r balch a ymostwng o'r diwedd,
  I droi at drugaredd ei dad.

Ei chwantau porthiannus newynaf,
  A buan marweiddiaf bob gwŷn,
A Geiriau y Bywyd gânt siarad,
  Pryd hyny, â theimlad y dyn;
Cynhyrfaf holl bydew ei galon,
  I godi adgofion o'i wlad:
A daw, o'r cudd ddyfnder, trwy 'r terfysg,
  I'r wyneb, hen addysg ei dad.

Mi ddofaf y gwyllt â chaledi,
  I ras gael ei doddi i'w le:
Gostyngaf y balch i gyfyngdra,
  A gras a'i dyrchafa o dde.
Mi ddaliaf y dyn anystyriol,
  I ras cadwedigol ei drin;
A rhyngom, ei wynfyd trag'wyddol,
  A ddechreu yn nghanol dydd blin.

---

## DYGIAD YR AFRADLON I GYFYNGDER, AC ATO EI HUN.

YR HANESYDD YN HYSBYSU Y CYFNEWIDIAD.

Rhaglaniaeth a gododd gymylau
  I doi holl gyffiniau 'r wlad bell;

Mor dywyll na welid, er chwilio,
  Un dim yn arwyddo byd gwell:
Dechreuodd pob masnach arafu,
  Y byd yn gwaethygu mwy fwy:
Chwareuon a gwleddoedd rhai gwamal
  Nis gellid eu cynal ddim hŵy.

Daeth yntau, 'r Afradlon, i deimlo,
  Gwasgarodd ei eiddo yn llwyr;
Ymgauodd tylodi am dano,
  A gwelodd werth eiddo 'n rhy hwyr.
Ni welai well golwg er tramwy;
  Y newyn oedd trwy yr holl wlad:
Rhagluniaeth a gauodd am dano,
  O amgylch, ond rhyngddo a'i dad.

Y gwamal a ddaeth yn ystyriol,
  Newidiodd yn hollol ei iaith;
Gorfyddodd y moethus di weithio,
  Droi allan i chwilio am waith:
Neillduodd ei hun i le unig,
  A golwg wasgedig a syn;
Heb wybod fod neb yn ei wrando,
  Gruddfanodd dan wylo fel hyn:—

YR AFRADLON YN DECHREU YSTYRIED.

Nid oes a wyr fy mhrofiad,
  Daeth cyfnewidiad chwith;
Rhai llymion a ddirmygais,
  Ond syrthiais yn eu plith.
O arfer byw mewn moethau,
  Dim mwy ond cibau 'r moch:
Yn lle pêr *fusic* palas,
  Rhaid gwrandaw atgas roch.

Holl natur droes yn drymllyd,
  O'i hiechyd, yn drom glaf;

Mehefin droes yn Rhagfyr,
  A rhewodd ganol haf:
Troes Eden yn ddiffeithwch,
  Anialwch mwy a fydd.
Haul f'einioes, mewn bro alltud,
  Wnaeth fachlud ganol dydd.

Mor chwith i mi wel'd tlodi,
  Heb ofni unrhyw feth;
Ni welais erioed brinder,
  Ond llawnder o bob peth;
Ymdeimlwn uwchlaw ofnau
  Y gwelwn eisiau byth;
Dych'mygais gael mawr lwyddiant,
  Pob mwyniant yn ddilyth.

Ond tlodi mawr a deimlaf,
  Pa fodd y gwnaf ei ddwyn?
Trymhau mae f'eisiau beunydd,
  A ch'wilydd d'weyd fy nghwyn:
Trwy warth, rhaid troi 'n gardotyn,
  Yn adyn llwm a llwyd;
Rhaid troi, neu mi a drengaf—
  Mae arnaf eisiau bwyd.

Pa beth! Ai 'r gwyllt penchwiban,
  Sy 'n gruddfan heddyw 'n groch?
Ai 'r balch, o'i lawn fawrhydri,
  Sy 'n awr yn porthi moch?
Ai mab i'r bonedd uwchaf
  Yn awr yw 'r mwyaf llwm?
Och! syrthiais, o f'anrhydedd,
  Rhwng dannedd newyn trwm!

Rhaid gweithio trwy bob tywydd,
  A'm gwisg sydd bron fel rhwyd
A gweithio 'mron a marw,
  Mewn enw, am fy mwyd;

Ond oer a gwag yw fy nghylla,
  Yn wir mae f'eisiau 'n fawr :—
Af at fy Meistr i gwyno—
  Mae 'n d'od—âf ato 'n awr.

NI RODDAI NEB IDDO.—CWYNO WRTH EI FEISTR.

Fy anwyl Feistr, tosturiwch,
  Wrth dristwch adyn llwyd;
Ni cheisiais, er mor garpiog,
  Ddim cyflog ond fy mwyd.
A gweithiais i chwi lawer,
  Do, ngoreu amser maith;
Er hyn, 'rwyf ar newynu,
  Yn methu gwneud fy ngwaith.

ATEB EI FEISTR.

Pa beth! Ai cwyno 'r rwyt fel hyn,
  Gan achwyn arnaf fi?
Rho'is iti le, gan drugarhau,
  Heb ddim o'th eisiau di;
Cai droi i ffordd, a'th droi a wnaf;
  Ni chadwaf di ddim hŵy.
Ni fynaf wel'd yn aned neb,
  Mo'th wyneb di byth mwy.

YR AFRADLON.

Gan iddi gau fan yma,
  Cardota raid trwy fraw;
Pwy ŵyr na chaf drugaredd,
  Gan fonedd sydd ger llaw;
Efe yw'r cyfoethocaf,
  A'r haelaf trwy 'r holl fro;
Beth, dyma 'r gwr, heb ddisgwyl,
  Yn f'ymyl ar ei dro.

CWYNO WRTH Y BONEDDWR.

A wnewch chwi wrandaw, f'Arglwydd,
  Ar aflwydd dynyn gwael,
Yr ydych chwi bob amser,
  Yn arfer bod yn hael:—

Yr wyf o deulu uchel,
  Yn isel iawn yn awr;
Yn mhell oddiwrth berth'nasau,
  Yn wir mewn eisiau mawr.

ATEBIAD Y BONEDDWR.

Mab drwg, afradlon, a diwaith,
  Dos ymaith i dy wlad;
Rhoi'st boen a gwarth i'th deulu oll,
  Ac archoll mwy i'th dad
Os poeni Fawrion y fro hon,
  Y cyffion a gai di;
Ni wel dy fath, er maint dy ing,
  Byth hadling genyf fi.

AFRADLON. Nid âf at neb o'r Bonedd,
  Oferedd yw, mi wn;
Mor chwerw 'r Bonedd haelaf!
  Ni feiddiaf droi at hwn.
Yn wir efe a'm clwyfodd,
  Pan soniodd am fy ngwlad;
Mae f'enaid yn ymdryllio,
  Wrth gofio am fy nhad.

Er bod holl ddrysau llawnion
  Y mawrion wedi 'u cloi,
Mae genyf un man eto,
  Oes eto le i droi;
Af at fy hên gyfeillion,
  Fu 'n byw ar f'eiddio 'n faith,
Gwnant hwy fy ymgeleddu
  A'm nerthu i gael gwaith.

Gan gofio, dyma amser,
  Eu harfer i gyd gwrdd;
Lle buom mi a hwythau,
  Aml weithiau gylch y bwrdd.

Mae 'r lle gerllaw, âf ato;
  Caf yno groesaw rhwydd:
Ac âf, trwy g'wilydd dirfawr,
  I mewn yn awr i'w gwydd:—

CWYNO WRTH EI HEN GYFEILLION.

Anturiais yno atoch,
  Adwaenoch fi yn dda;
Pan welaf hên gyfeillion
  Fy nghalon a dristâ;
Bum yma 'n fawr fy n'reidi,—
  Mor chwith i mi fy myd!
Ond gellwch f' ymgeleddu,
  Os gwnewch fy helpu 'nghyd.

ATEBIAD YR HEN GYFEILLION.

Yr adyn llwm, a feiddiaist ddod
  I'n gwyddfod yma 'n awr?
Gwan iawn yw'r byd, y tymor hwn,
  Ni feddwn ninau fawr.
Mae 'r gwledda gynt ar ben er's tro,
  Cynilo raid i ni;
Er maint a gwyni, dan dy bwn,
  Ni roddwn ddim i ti.

AFRADLON. Yr wyf yn llwm a charpiog,
  Anwydog yw fy nhrem;
Bron rhynu yn yr oerfel,
  O dan yr awel lem;
Mor chwith yw dod i'r carpiau,
  O'r torchau o aur coeth;
Gwnewch roi ryw hen ddilledyn
  I adyn sydd mor noeth.

CYFEILLION. Ni chawn ddilledyn newydd mŵy
  Os deil yn hŵy 'n fyd gwael;
Rhaid cadw 'r hên er maint lymha,
  Rhag ofn bydd da ei gael;

Rhyw dlawd ddaw yma yn ddi dòr,
  Yn frodor o'n gwlad ni;
Os gallwn ddim gwnawn hwnw 'n glud,
  Nid alltud fel tydi.

AFRADLON. Mi renais â chwi f'eiddio;
  Do, f'eiddo mawr yn llwyr,
Mae ol fy eiddo arnoch,
  A phawb o honoch ŵyr;
Na chwerddwch am ben gruddfan
  Y truan gwag a llwyd;
Yn wir, yr wyf mewn newyn,
  Rhowch dipyn bach o fwyd.

YR HEN GYFEILLION.

Dy ffoledd mawr, yn mhob ryw fodd,
  A ddygodd hyn i ti;
Os wyt yn awr heb ddim at fyw,
  Pa beth yw hyn i ni?
Os gweriaist rhyngom dymor bach,
  Pawb mwyach drosto'i hun;
Pwy roddai ddim, a'r bwyd mor ddrud,
  I alltud drwg ei lun?

Tosturio'n wir, pwy byth a wna?
  Ni haedda ddim ond sen;
A phob gwr enwog a'i nacâ,
  A chwardda am ei ben.
Pa beth, edrychwch fel y cryn,
  A'r deigryn ar ei rudd;
Dowch, a chyd ganwn gwyn o wawd,
I'r cwynwr tlawd a phrudd:—

CYDGAN Y CYFEILLION.

Yr estron balch, fu'n fawr ei fri;
  Mae'th noethni'n destyn gwawd;
Y wisg fu'n wych, sy'n ddrylliau mân
  O gylch y truan tlawd.

Rhaid iti droi ar frys o'r tŷ,
  A hyny'n ddi nacâd;
Y mawr ei rwysg, fe ddarfu'th ddydd,
  Rhag c'wilydd dos i'th wlad.

CWYN YR AFRADLON PAN GAUODD O BOB MAN.

Mi brofais siomedigaeth,
  Hudoliaeth byd a chnawd;
Cenedlu dirfawr obaith,
  I'w droi yn berffaith wawd;
Enynu serch i fflamio;
  I'w suddo yn nwfr siom;
Dwyn dyn i dra dyrchafu,
  I'w daflu lawr i'r dom.

Nid yw hudoliaeth natur
  Ond gwneuthur gwawd o ddyn;
Mwyn addaw ei ddedwyddu,
  I'w frathu trwy bob gwŷn.
Llawr-lenu'n wych a dengar,
  Y porth i'r carchar llwm;
Arlunio pren y bywyd,
  Yn mhorth yr adfyd trwm.

Ffug-rithio teg Ardd Eden
  Ar domen ing a gwarth;
Twyll-lunio byd o wynfyd,
  A hwn i gyd yn darth.
Hudoliaeth a wnaeth siomi,
  A meddwi llawer un,
I fŷnu, er a fyddo,
  Wneud gwawd o hono'i hun.

Ac, Ow! fy hen gyfeillion,
  Mor greulon na chawn ddim!
Yn lle fy nwyn o'm llewyg,
  Rhoi'r dirmyg mwyaf im':

Y rhai bum yn eu cadw,
  Caf farw o'u rhan hwy;
Gwneud gwawd o'm gwasgfa chwerwaf,
  Ymgadwaf rhagddynt mwy.

Yn awr y llwyr dywyllodd,
  A chauodd o bob man;
Ni feddaf un lle eto,
  I geisio cyraedd glan;
Yn wir, yr wyf ar drengu,
  Ar dd'rysu dan fy mhwn;
Pa le, pa le, y troaf?
  Pa beth a wnaf? nis gwn.

Diflanodd fy ngobeithion,
  A'm haddewidion gynt,
Fel niwl a chwythir ymaith,
  Ar unwaith, gan y gwynt,
Breuddwydion am fawr drysor,
  Yn esgor oll ar wae;
Dych'mygion am ryw wynfyd,
  Mor ynfyd pa le mae?

Nis gallaf dòri f'eisiau
  A'r cibau, er eu cnoi,
Mae 'n siomi 'r chwant wrth gynyg,
  A llewyg sy 'n f' amdoi;
Ni chaf, oferedd gofyn,
  Friwsionyn mwy gan neb;
Gorweddaf yn fy ngalar,
  Fel hyn ar ddaear wleb.

Cnofeydd fy nghyllau gweigion
  Sy 'n drymion iawn, yn wir;
O! 'r dirdyniadau deimlaf,
  Nis gallaf fyw yn hir:
Fy nghroen a'm cnawd a ddelwodd;
  Llwyr giliodd y gwrid côch;

Rhaid trengu ar noeth ddaear,
  A'm pen ar gafn y môch.

Pa le mae fy rhïeni,
  I weini ar y claf?
Nid oes a dry ei olwg,
  Ond cilwg pawb a gaf;
Rhaid trengu 'n mro estroniaid
  Heb lygaid wel fy ngwedd;
Caf gladdedigaeth asyn,
  Heb ddeigryn ar fy medd.

P'le mae fy nhad i'm cynal,
  A'i fraich i ddal fy mhen?
Gwres mynwes tad ddadmera
  Fy ngwasgfa, er mor den.
Ni chaf i'm trin ond angau;
  Oh, angau trom dy loes:
Pa bryd y llwyr derfyni
  Drueni mawr fy oes?

ANGAU YN HYSBYSU EI HUN.

Arnaf fi oferedd gwaeddi;
  Syrth dy weddi wrth dy droed:
Angau wyf, wrth bwy tosturiais?
  Ni wrandewais weddi 'rioed;
Ni ddof fynud cynt, er gwaeddi;
  Ni wnaf oedi dim ychwaith;
Pan ddaw f'amser mi a ddeuaf,
  Yna, mynaf wneud fy ngwaith.

Bydd fy ngwasgfa yn wir galed,
  A rhy galed fydd i'w dwyn;
Llawer mwy na'r hyn a brofi,
  Fel nas gelli dd'weyd dy gŵyn;
Nid poen corff a'm gwna'n ofnadwy,
  Llawer mwy na'r boen i gyd;

Mawredd yw goruwch dy ddirnad,
  Fy nghysylltiad âg ail fyd.

Dy drosglwyddo di, fel ereill,
  A wnaf o'r naill fyd i'r llall;
Heb un newid ar dy gyflwr,
  Boed yn gyflwr ffol neu gall:
Wrth dy ddwyn o'r holl flinderau,
  Holl ofidiau 'n nglŷn â chnawd,
Gwnaf dy ddwyn o fyd yr olchfa,
  Byd marchnadfa'r enaid tlawd.

Dwyn a wnaf i fyd ysbrydol,
  Byd tragwyddol ei barhad;
Byd a phawb o'i fewn yn berffaith,
  Mewn anobaith, neu fwynhad;
O sugn-dyniad tragwyddoldeb,
  Ni ddaw neb, na chall na ffol;
Drws y Glyn, i mewn mae'n agor,
  Ni thry'r ddôr i ddod yn ol.

Dernyn bach wyf o'r ail farw;
  Rhyw un marw wnaeth cwymp dyn;
Trefn y Cymmod wnaeth eu hysgar,
  Nid oes bàr i'w dal yn nglyn;
Ffydd yn Nghrist a'm cydia'n hyfryd
  Wrth ail fywyd, pur dilyth,
Annghrediniaeth fyn fy nghadw
  Wrth ail farw, marw byth.

Bychan iawn wyf fi fy hunan
  Wrth fy rhan sydd mewn ail fyd;
Llai na defnyn wrth y moroedd,
  Ië, 'r bydoedd oll yn nghyd;
Dafn yw'r oll o'r boen bresenol
  Wrth dragwyddol danllyd lŷn;
Pa beth, ddyn, a wyt ti'n barod?
  Dy gydwybod ddywed hyn.

## Y GYDWYBOD YN DEFFRO WRTH GLYWED LLAIS ANGAU.

Angau, ai dy lais di glywais,
  Pan gyffroais trwy'r fath fraw?
Rhoed i mi, 'r Gydwybod dyner,
  Er's hir amser, hollol daw;
Mae dy adlais di, i'm teimlad,
  Megys rhuad taran fawr;
Er fy maeddu, fi yw'r trechaf,
  Wele, mynaf draethu'n awr,

Os bu'r Tyst am ddyddiau'n farwol,
  Ar fudr heol Tref Annhrefn,
Awel o'r ail fyd, pan chwythodd,
  Adgyfododd hwn drachefn;
Gwedi taflu'r Prophwyd obry,
  I'r daeardŷ dwfn, o'r clyw,
Adlais angau, pan lefarodd,
Gododd hwn i fyny'n fyw.

O ddyn ynfyd, dy wag grwydro
  Ddaeth i gostio iti 'n ddrud;
Gwrandaw Satan a'r byd fynaist,
  A gostegaist finau'n fud;
Llwyr droes y Serch a'r Ewyllys,
  Gyda nerth ar frys, o'u plaid,
Gan gyduno i fy mygu,
  Ac i'm sathru yn y llaid.

Cyd-ganasoch wedi trechu,
  Am fy nhrechu i mor lwyr;
Ond y canu mawr y boreu,
  Sy 'n ruddfanau gyda 'r hwyr:
Dyma 'r cyni, fel y d'wedais,
  A rhybuddiais di mewn pryd;
Nid yw 'r ing ond dechreu eto,—
  Beth am dano mewn ail fyd?

Rhaid ymddangos i roi cyfrif,
  Manwl gyfrif i'r Duw glân,
O flaen purdeb sydd mor danbaid,
  Un â'i lygaid fel fflam dân:
Tragwyddoldeb, clyw, mae'n rhûo,
  Ydyw'n rhûo bron wrth law;
Gwedi byw mor ffol a chyndyn,
  Ddyn! O ddyn pa beth a ddaw?

Digio'r Arglwydd sy'n ofnadwy!
  Llawer mwy na methu byw;
Nid oedd pechu'n erbyn teulu
  Ddim wrth bechu'n erbyn Duw.
Adolyga dy bechodau,
  Draw o'r dechreu hyd 'r awr hon;
Galwaf ar y Cof i'w cyrchu,
  Ac i'w lledu'n awr ger bron.

Y COF, WEDI EI ALW GAN Y GYDWYBOD, YN DWYN Y BYWYD GER BRON.

O! Gydwybod, mae'r un teulu
  Fu'n dy sathru di dan draed,
Wedi f'attal inau'n gynar
  Rhag adgoffa'r drygau wnaed;
Claddwyd hwynt o sylw ynof,
  Fel mewn anghof o'r tu cefn.
Ti, Gydwybod, a'u bywhëaist,
  Adgyfodaist hwy drachefn,

Er fod rhai pechodau'n anghof,
  Maent hwy ynof fi bob un;
Colli wnaethant mewn niwl ynof,
  Dan niwl yn y Cof ei hun:
Chwâl y niwl o flaen goleuni,
  Yn ngoleuni yr ail fyd,
Pan ddaw ynof fi i'r goleu,
  Holl bechodau'r oes i gyd.

Ymagoraf ar yr yrfa,
Un sy'n yrfa fer a llawn,
Yn orlwythog o bechodau,
A phechodau mawrion iawn:
Oes siomedig, pawb a siomodd;—
Yr oen rhywfodd droes yn flaidd;
Un a fagwyd gynt mor ddiddan
Yn y gorlan gyda'r praidd.

Megys doe yw boreu'r bywyd,
Adeg mebyd, gwanwyn braf;
Llysiau tyner yn blaguraw,
Gan gyd-addaw dedwydd haf:
Cartref llawn o bob rhyw radau,
Dan wêniadau oddi fry;
Llawn goleuni a moesoldeb,
Gan dduwioldeb gwr y tŷ.

Yno'r plentyn bach ieuangaf
Oedd anwylaf trwy'r tŷ gyd;
Pawb a'i gwelai a'i bendithiai,
Ac a dd'wedai, "Gwyn ei fyd;
Dyma'r bachgen ddaw'n ymgeledd,
Ac anrhydedd mawr i'w wlad:
Mae'n ymddangos, wrth gynyddu,
Yn tebygu'n fawr i'w dad."

Gwênai ar ei dad gan loned,
Heb un synied am ddydd blin;
Gwedi chwareu, âi i orphwys,
I'w baradwys ar ei lin;
Rhodiai yn ei law trwy'r dolydd,
Dan y coedydd, ar hin frwd;
Gyda gwên y câi ei godi
Ar ei fraich, i groesi'r ffrwd.

Pan âi'r tad i daith ddiochel,
Brysiai ddychwel yn ddioed;

Rhedai'r bychan i'w gyfarfod,
Gan adnabod sŵn ei droed:
Gwnai ei dynu'n mlaen i eistedd,
Mewn gorfoledd, a mawr frys;
Gwaeddai, "Nhad," yn llawn o fywyd,
Gan ymaflyd yn ei fys.

Gwrandaw'n astud, rhwng ei liniau,
A rhai prydiau ar ei lin,
Ar ei dadol addysgiadau,
Gaid fel sypiau o rawn win;
Dysgu llawer o adnodau,
Gyda gwênau o foddhad;
A phenlinio i weddïo,
Lawer tro, wrth glin ei dad.

Mor ddifrifol y gwrandawai,
Pan y clywai am ail fyd;
Am y farn, ac uffern obry,
Llety'r holl blant drwg i gyd:
Ac wrth wrandaw am Dduw'r lluoedd,
A'i weithredoedd doeth a glân;
Am ei fawredd, a'i sancteiddrwydd,
A'i lidiogrwydd sydd fel tân.

Ymwrandawai, mewn sirioldeb,
Am anwyldeb nef y nef;
Am ddaioni Duw'r gwirionedd,
A'i drugaredd helaeth Ef;
Am y ddwyfol drefn i faddeu,
Yn rhinweddau'r aberth hedd;
Am y ddedwydd lòn orphwysfa,
Gaiff plant da tu draw i'r bedd.

Oed yn groes i holl gynghorion
A rhybuddion, anwyl dad,
Meithrin llygredd, ymgaledu,
Yna mynu troi o'i wlad:

Ar ymwerthu i ddrygioni
  Yw'r trueni'r sy'r awr hon.
Dyma fŷr a bras olygfa
  Ar yr yrfa ddrwg, ger bron.

ANOBAITH, ODDIAR OLWG AR Y FUCHEDD, YN HONI EI HAWL.

Goleu purdeb glân y Duwdod,
  Drwy'r gydwybod, sy'n wir gryf;
Llwyr wallgofa enaid gelyn,
  Lletha ddyn, yr hwn sydd bryf.
Wele'r Cot wnaeth ledu'r yrfa,
  Yn ddisgynfa'r goleu mawr:
Fi, Anobaith, mwy deyrnasa;
  Pwy a'm tafla byth i lawr?

Brenin ydwyf ar ran dywyll,
  Holl barth erchyll yr ail fyd;
Brenin arno er ei ddechreu,
  A pharhau a wnaf o hyd;
Mae fy neiliaid yn lluosog,
  A gorphwyllog yw pob un;
Cipiais ddeiliaid, pawb a allwn,
  O'r byd hwn i'm gwlad fy hun.

Brenin gwreiddiol ar anghysur,
  Nid oes ing pur hebof fi,
Bydd pob ing heb ei berffeithio,
  Nes y delo i'm llaw i:
Dyben eithaf fy nheyrnasiad
  Yw perffeithiad pob rhyw boen;
Deddf fy nheyrnas yw gorthrymu,
  Cloi fy llu dan lid yr Oen.

Pe cawn ledu'n awr fy nheyrnas,
  Draw o gwmpas daear lawr;
Gan ddiffoddi, 'n llwyr ar unwaith
  Ganwyll Gobaith fach a mawr;

T'w'llwch du a döai'r ddaear,
  Ai yn garchar uffern ddofn;
Dim trwy'r byd ond cyd-ruddfanau,
  Dan arteithiau marwol ofn,

Lladdwn galon corff holl fasnach,
  Pob cyfeillach, a'i mwyn iaith;
Pwysau'r awrlais fawr a gollai,
  Yna safai ei holl waith:
Ciliai enaid corff y Peiriant,
  Sy'n rhoi'r Peiriant oll i droi:
Olwyn mwy ni syfla unwaith,
  Gwnai Anobaith ei llwyr gloi.

Wele di, O ddyn, yn barod,
  Dan f'awdurdod yn ddiffael;
Deiliad wyt i mi yn gyfiawn,
  Mae yn iawn i mi dy gael:
Nid myfi trwy drais a'th ddygodd,
  Rho'ist o'th fodd dy hun i mi;
Ti a fynaist fy nghenedlu,
  I mi fynu'th boeni di.

Mae'th bechodau'n dra ysgeler,
  Mwy ysgeler na rhai neb;
Ofer wylo'r dagrau'n foddfa,
  I'th orweddfa fod yn wleb:
Anwireddau mor borphoraidd,
  Mwyaf ffiaidd trwy 'r holl wlad;
Pa les gruddfan a gweddio,
  Ofer ceisio, cael rhyddhâd.

Gwawdio'r Arglwydd yn ei eiriau,
  Yn ei ddoniau o bob rhyw;
Gwneud gwawd o'i lais trwy 'th Gydwybod
  Ac o'r Cymmod, prif waith Duw;
Sathru'n llwyr ei holl alwadau,
  Ro'es trwy enau d'anwyl dad:

Mynu rhyddid i fyw'n aflan,
  Gan droi allan o dy wlad.

Dy bechodau sydd yn ffiaidd;
  Ac ysgeler yw dy lun:
Angau du, 'rwyt dan ei ddyrnod,
  A'th Gydwybod yn gytun,
Yn fy ngosod i, Anobaith,
  Mewn bawl berffaith ynot ti;
A wna'r Cof roi gwawr i Obaith,
  Am droi ymaith o'm llaw i?

GOBAITH ODDIAR OLWG AR ABERTH Y CYMMOD, YN ANADLU.

Anobaith pan ddeliaist y fuchedd,
  Er dangos ei drygedd yn fawr,
Yn wyneb yr addysg foreuol,
  O hòno'n bresenol daeth gwawr:
O'r pechu yn erbyn goleuni,
  Y sugnaist ti hawl a chryfhad;
A'r unrhyw oleuni trwy'r ofnau,
  Ddyg obaith i ddadleu rhyddhad.

Prif bechod, a dduai bob pechod,
  Oedd gwrthod y Cymmod ei hun;
A'r Cymmod a ddengys deilyngdod
  Myrdd mwy na phob pechod yn un
Y goleu ddangosai 'r ffieidd-dra,
  A ddengys yr olchfa'r un pryd;
Daeth llais o dan gryfder anobaith,
  Yn dywedyd fod gobaith i'r byd.

Mewn tymhestl, a'r môr yn ymchwyddo,
  A'r tagddu'n gorchuddio pob man,
Daeth gwawr yn yr adeg orphwyllog,
  Ar gilfach i'r euog gael glàn;
Yn nghanol y mellt a'r taranau,
  Ar lethu i angau gan fraw,

Rhyw adlais, trwy'r terfysg, a dd'weda,
"Gobeithia, mae noddfa wrth law,"

Mor werthfawr, ar lethu gan ofnau,
Yw cofion o eiriau'r hên dad;
Dywedodd yn fynych, dan wenu,
Mai'r Arglwydd sy'n caru yn rhad:
Yn barod i faddeu pob camwedd,
Ac ynddo drugaredd yn stôr;
Gwna daflu pechodau'n oes oesoedd,
I lawr i ddyfnderoedd y môr.

Adgofion o eiriau'r tad duwiol
Am rinwedd anfeidrol y Gwaed,
Yn gymmod foddlona 'r Goruchaf,
A phura'r aflanaf a gaed.
Mae yma ddiangfa'n safn angau,
A bywyd o angau'n wir yw;
Hyd derfyn yr anadl diweddaf,
Mae Gobaith i'r dyfnaf yn fyw.

Anobaith, os wyt am wneud rhwymau
O ddrygedd pechodau yn hŵy;
I'th ateb, gwnaf ddadleu y Cymmod,
Mae yma deilyngdod myrdd mwy:
Anadlaf yn merw'th lifeiriant,
Fod maddeu'n ogoniant i Dduw;
Pwy ŵyr na ddaw eto ymwared,
Mae gobaith, er dyfned, i'r byw.

## EDIFEIRWCH O DAN EFFEITHIAU GOBAITH, YN YMDYWALLT ALLAN.

Gwawr gobaith o dyfnder trueni,
A phan ar wallgofi yn llwyr;
Sy 'n werthfawr, yn werthfawr anrhaethol,
Pwy ond y profiadol a wyr?
Pwy ddichon ddysgrifio 'r teimladau,

Cael bywyd o angau ei hun;
Mae fel yn ail greu y dyn drwyddo,
Fel nad yw 'n ymdeimlo 'r un un.

Ti, Obaith, a siomaist farwolaeth,
Gan ddwyn ei ysglyfaeth o'i safn;
A dygaist ffrwd gref o dwfr bywiol
I'r tlawd anobeithiol am ddafn;
Rhoist olew mewn archoll angeuol,
Diffoddaist dân ysol ei loes;
Anadlaist y marw i fywyd,
Marwolaeth yn fywyd a droes.

Pan nad oedd mewn golwg ond uffern,
Ar ddisgyn i uffern yn fyw,
Caed golwg ar Aberth y Cymmod,
I'r euog gael cymmod â Duw;
Yr olwg a chwalai 'r tywyllwch,
A doddai 'r caledwch fel cŵyr;
Newidiodd yn hollol yr archwaeth,
Gan ladd yr elyniaeth yn llwyr.

Er chwerwed a fu 'r oruchwyliaeth,
Ni syflai 'r elyniaeth hyd hyn;
Daeargryn yn meddwi dynoliaeth,
Ond daliai 'r elyniaeth heb gryn;
Edrychai ar Dduw yn un caled,
A'i ddeddf yn gaethiwed ar ddyn;
Ei burdeb a'i hawl a'i henynai,
Casineb orlanwai bob gwŷn.

Cymerai bob trallod yn arwydd,
Nad oes yn yr Arglwydd ond cas;
Yn profi mai twyll yw ei enw,
Nad teilwng ei alw 'n Dduw 'r gras.
Ac felly yn brawf o'i chywirdeb,
Yn faeth i'w chasineb i gyd;

A chynydd cyfyngdra y driniaeth,
Gynyddai 'r elyniaeth o hyd.

Nid allodd Anobaith ei threchu.
Tan hwn adnewyddu a wnaeth ;
Pob defnyn o r dwyfol ddialedd,
Gyffroai chynddaredd waeth waeth.
Heb ollwng y cleddyf gelynol,
Trwy'r cynwrf aruthrol i gyd ;
Ei wasgu bob mellten yn gryfach,
Bob tarau yn dynach o hyd.

Ond gobaith cael byw yn safn angau,
Cael bywyd yn angau Mab Duw,
Fu farw dan wawd yn wirfoddol,
I'r euog gelynol gael byw ;
Golygfa ar Dduw yn ei gariad,
Yn Hanfod o Gariad a Gras ;
Ddileodd gamsyniaeth y galon
Am Dduw yn un creulon a chas.

Ei gariad â phorphor yn wregys,
Neu'n nghanol cylch enfys o waed,
Yn gwênu ar druan di obaith,
A sathrodd y gyfraith dan draed ;
Y gelyn a doddodd a ch'wilydd,
A chreodd ddyn newydd o'r hên,
Ei fwynder roes ddarfodedigaeth
I ladd yr elyniaeth a gwên.

Newidiodd holl naws yr Afradlon,
Gan wneuthur oen tirion o'r llew ;
Ei wres a ddadmerodd ei galon,
Meiriolodd yn union ei rew ;
A llifodd o'i galon yn dristwch,
Yn wir edifeirwch fel ffrwd
Troes drigfa y rhewdod yn gynes,
Gwnaeth cariad ei fynwes yn frwd.

Y gofid blaenorol am bechu,
  O'i ganfod yn tynu cosp gas;
Sy'n ofid yn awr, am roi anfri
  Ar Dduw sy'n ddaioni a gras:
Y dagrau, oedd wreichion yn neidio,
  Gan burdeb Duw'n taro'r graig dân;
Newidiodd yn awr yn chwys cariad,
  Dan boethder mawr gariad Duw glân,

Yr hwn a gyhuddai y Duwdod,
  Fel ffynnon pob trallod yn un,
Yn awr sy'n cydnabod, dan wylo,
  Y drygau oll iddo ei hun:
O feïo rhag maint ei ddialedd,
  Mae'n gwel'd ei amynedd yn fawr,
Y trallod a'i gweithiai yn mhellach,
  A'i tŷn yn agosach yn awr.

Môr trallod ymchwyddai 'n ofnadwy,
  Gan nerthol ryferthwy 'r ail fyd,
A'i lanw a sugnai i'r cefnfor,
  Yn mhellach i'r dyfnfor o hyd;
Ond cariad a droes yr holl lanw,
  Yn fywyd o farw i'r gwan,
A'r tònau chwyddedig wnaeth mwyach
  Ei weithio at gilfach a glàn.

### CYFFES EDIFEIRIOL YR AFRADLON.

Dyma lanerch bach o'r ddaear,
  Cronfa galar fy holl daith:
Oriau f'einioes droesant yma,
  Yn un gronfa uwchlaw iaith;
Lle 'r ystwythwyd y mab cyndyn,
  Gan droi 'r asyn wyllt yn ddôf;
Lle y toddwyd calon gelyn,—
  Nid â'r llecyn byth o'm côf.

Yma gorfu i'm agoryd
   Ar fy mywyd draw i'r bru;
Poenau 'r corff a wnaethant gilio,
   Gan boen cofio 'r fuchedd ddu.
Rhaid oedd ail fyn'd dros fy llwybrau;
   Dwyn y costau fu 'r ail dro;
Troes y cellwair yn ddydd caled,
   Gorfod yfed lludw 'r llo.

Beth oedd oes o fwyniant pechod,
   Wrth fod ddiwrnod dan ei loes;
Profais ofid mewn pum munud,
   Wnaeth yn ddrud bêchodau f'oes;
Poen heb le i ymgysuro,
   Poen yn llifo o bob man;
Hyd nes gwelais yn fy nhrallod,
   Waed y Cymmod i gael glàn.

Addysg foreu fy nhad duwiol,
   A fu 'n fuddiol iawn yn awr;
Yn ei goleu gwelais bechod,
   A threfn cymmod â'r Duw mawr.
Yma 'r oedd fy nhad, mewn effaith,
   Fel cydymaith gyda mi,
Trwy ei addysg yn ceryddu,
   Ac yn helpu f'enaid i.

Trwy ei addysg gwnaeth fy nhywys
   Yn y ddyrys dywyll nos;
Yn ei addysg fe' m cofleidiodd,
   A dyrchafodd fi o'r ffôs.
Er i'w addysg am hir amser,
   Syrthio 'n ofer ynof fi;
Adgyfodai 'n awr o farw,
   A gwnaeth gadw mywyd i.

Bu ei addysg yn ngwaelodion
   Pydew 'r galon trwy 'r oes bron;

Yn rhyferthwy blin drychineb,
  Daeth i'r wyneb yr awr hon?
Er ei chladdu er's blynyddau,
  Tan drachwantau o bob rhyw;
Cynwrf fel a ddeffry 'r meirwon,
  Adgyfododd hon yn fyw.

Rhoes fy nhad trwy addysgiadau,
  Y llyth'renau fel mewn trefn,
Ni wnaent argraff, er cymhellion,
  Ar fy nghalon ddrwg drachefn;
Ond dydd trallod fu'n wasg bwysig,
  A gwasgedig iawn yn wir;
Gwasgai'r addysg gynt i'm calon,
  Pery'r argraff hon yn hir.

Yma'r ydwyf mewn trychineb,
  Heb gael neb i dd'weyd fy nghwyn;
Trallod cyflwr heb ddyn duwiol,
  Na'r dyngarol, i gyd ddwyn.
Oh na chawswn air o gynghor
  Gan ryw frodor o'm hên wlad;
Beth pe cawswn heb anghydfod,
  Dd'weyd fy nhrallod wrth fy nhad!

Pwy ond Duw y caf droi ato,
  Ef sy'n gwrando gweddi'r gwael;
Mewn cyfyngder mae yn gymhorth,
  Ac yn gymhorth hawdd ei gael.
Pwy a ŵyr na wna fy ngwrando,
  Gan dosturio wrth fy llef;
Gwaeddaf arno yn y dyfnder,
  Rhôf fy mater i'w law Ef.

GWEDDI YR AFRADLON.

"Wele fi, o Dduw trugarog,
  Druan euog, gèr dy fron,

Nesaf at dy Drugareddfa,
  Yn y wasgfa gyfyng hon;
Fy mhechodau sydd yn drymion,
  Maent yn fawrion a di rif;
Cyfiawn haeddais gael fy mwrw
  I'r môr marw gyda'r llif.

Eto cofiaf dy gyfammod,
  A theilyngdod mawr y gwaed
Sy'n helaethach ei rinweddau,
  Na'r pechodau mwyaf gaed.
Maddeu i mi er mwyn hwnw,
  A chai enw wrth wneud hyn;
Byth, byth dy ras a ryfeddaf,
  Os daw'r duaf eto'n wyn.

Brysia, edrych o'th dosturi
  Ar drueni adyn tlawd,
Dy gyfreithiau mwy a hoffaf,
  A ffieiddiaf ffyrdd y cnawd;
Gwel yr unig a'r di nodded,
  Dynodd dynged flin i'w ran;
Alltud tlawd heb neb dry ato,
  Cauwyd arno o bob man.

Gwel fy mod ar drancedigaeth,
  A marwolaeth gyfyng yw;
Dwg fy enaid o'r caethiwed,
  Rhyw ymwared i gael byw.
Gelli agor ffordd ddiogel
  I mi ddychwel i fy ngwlad;
Rho imi, 'rwyf yn atolwg,
  Gael un olwg ar fy nhad.

Mae fy nheimlad yn fy nhrechu,
  Bron a'm llethu'n hollol fud;
Gwrando 'n awr fy ocheneidiau
  Yn rhinweddau'r Aberth drud.

Mae gweddïau fy nhad yna
  Ar dy Drugareddfa rad,
Gwrando yn fy achos innau
  Hen weddiau f'anwyl dad."

---

## Y MAB YN DYCHWELYD AT EI DAD.

### PRYDER Y MAB WRTH FEDDWL TROI ADREF.

Fy meddwl sy'n awr yn tueddu,
  Gan ofni rhyfygu 'r un pryd,
I droi at fy nhad am ymgeledd,
  Trwy warthrudd fy ffoledd i gyd;
Gwrthodwn o'r blaen y dychymyg,
  Arswydwn rhag cynyg fath beth;
Ond teimlaf dueddiad i geisio,
  Er gwaned, am ddringo 'r allt sêth.

Mae hyder ac ofn mewn gwrthryfel,
  Wrth feddwl am ddychwel i'm bro,
Ymryson sy 'n d'rysu fy yspryd,
  Fel berw syfrdanllyd llyn tro;
Gwynt nerthol yn erbyn y llanw,
  Wna 'r môr yn fwy garw o hyd;
Tân hyder, ac ofn, fel llifddyfroedd
  Sy 'n cyfwrdd ei nerthoedd yn nghyd.

Mae hyder yn twymno 'r teimladau,
  Ond ofn a ddyg iasau o rew,
Rhydd hyder wawr oleu i'r meddwl,
  Ond ofn ddaw a chwmwl du dew,
Ymdeimlaf yn fywiog am godi,
  A'm calon, dan ofni a gryn,
Trwy 'r cyffro yn erbyn yr ofnau,
  Mae hyder yn dadleu fel hyn :—

HYDER. Pa gymaint o weision cyflogiad
O'r eiddo fy nhad, sydd yn cael
Eu gwala a'u gweddill o fara,
Bob diwrnod mewn llawndra mor hael,
A minnau, ei fab, yn dwyn newyn,
Ar farw o newyn yn wir,
Mi âf at fy nhad trwy 'r anhawstra;
Nis gallaf fan yma fyw 'n hir.

OFN. Pa reswm i druan mewn newyn
Freuddwydio am gychwyn mor bell?
Er symud trwy boen oddiyma,
Ni byddai'r orweddfa ddim gwell;
Daw llewyg, gan newyn a noethni,
I'th lethu os codi i'r gwynt;
A'r ymdrech i deithio trwy eisiau,
Brysurai dy angau yn gynt.

HYDER. Pa ddyben yw aros fan yma,
Cynydda'r cyfyngdra fwy fwy
Cyn hir âf rhy wan i gyfodi,
Ffolineb yw oedi ddim hwy;
Er gwaned, mae gobaith os ceisiaf,
Pwy wyr na chyraeddaf dŷ 'nhad;
Gwell genyf os trengu o newyn,
Gael trengu ar derfyn fy ngwlad.

OFN Pa fodd y gall adyn mor wrthun
Byth ddangos ei hun yn ei wlad?
Ymddangos mewn newyn a noethni,
Lle buwyd mewn bri a mawrhad.
Pa fodd yr â'r carpiog at balas?
At uchel berthynas, mor llwm?
Haws goddef y newyn na'r c'wilydd,—
Mae'n rhaid bydd y c'wilydd yn drwm.

HYDER. Mae'n rhyfedd bod balchder fy nghalon,
Trwy'r cyfyng wasgfeüon mor fyw!

Cywilydd troi adref at lawnder,
  Pa beth ond fy malchder i yw?
Fy nhad a arferodd haelioni,
  Tosturia wrth noethni dyn tlawd:
Pwy ŵyr na chaf ganddo ryw wisgiad,
  Neu rai o hen ddillad fy mrawd.

OFN. Os dychwel at dad sydd mor gywir,
  Ni weli yn hir ond ei ŵg:
Dangosaist dy hun mewn gwrthgiliad,
  Yn ddyn o dueddiad mor ddrwg:
Dy dad sy 'n ffieiddio drygioni,
  Pa fodd y disgwyli ei hedd?
Bradychaist bob ffafr ac ymddiried,
  Ni chai di byth weled ei wedd.

HYDER. Mae 'n wir fod fy nhad yn ŵr cywir,
  Ffieiddia yr anwir ei fryd;
Ond eto, at ddyn edifeiriol,
  Mae 'r mwyaf tosturiol 'run pryd;
A minnau sy 'n awr, trwy drugaredd,
  Yn gwbl o'r un duedd ag ef;
Af ato, a d'wedaf i gychwyn,—
  "Mi bechais yn erbyn y Nef."

A hyn sy 'n fy mhoeni i fwyaf,
  Dirmygu 'r Goruchaf ei hun;
Nis gallaf ei grybwyll heb wylo;—
  Ni byddaf byth eto 'r un un.
Canfydda fy nhad gyfnewidiad,
  Os dyry wrandawiad i'm llef,
Pan dd'wedaf, cyn dechreu ei ofyn,
  "Mi bechais yn erbyn y Nef."

OFN. Pa fodd y gwnai droi at dy deulu,
  Na beiddio wynebu dy dad?
Ti sethraist ei addysg, dan gellwair,
  A theflaist fawr anair i'th wlad:

Dirmygaist ei lafur flynyddau,
A thro'ist ei weddïau yn wawd:
Ni ddichon ond edrych yn llidiog
Ar gerpyn mor euog a thlawd.

HYDER. Fy nirmyg i'w holl addysgiadau,
A alwaf, â'm dagrau, yn ol;
Achubaf ei flaen i ymachwyn,
Y bu i mi ymddwyn yn ffol.
Wrth ddychwel, ei addysg ddangosaf,
Ei ffrwythau gyflwynaf i'w ŵydd;
Er arwydd o'i hollol ddiflaniad,
Fe wel, yn f' adferiad, ei llwydd.

Wrth ddychwel, cyflwynaf i'w wyddfod
Ei addysg yn dyfod yn ol,
O'r pellder, a'i ffrwyth yn ei chanlyn,
Ei gwrthrych yn dŷn yn ei chôl.
Gwel ynof atebion, mewn ffrwythau,
I'w daerion weddïau yn un:
Cyflwynaf hwynt oll, os âf adref,
I'w wyddfod ef, ynof fy hun.

OFN. Adgofia, pa fodd yr ymddygaist
Y diwrnod gadewaist dy dad;
Atebaist ei eirchion â gwawdiaith,
A mynaist droi ymaith o'th wlad;
Yr hyn, os gwnaist ti ei anghofio,
Dy dad sy'n ei gofio'n bur dda;
A'th weled o dan ei hen glwyfau,
Ail enyn ei boenau a wna.

HYDER. Fy mhechod i'w erbyn a deimlaf,
A hwn a addefaf yn rhwydd;
Achubaf ei flaen i'w gyffesu,
Os caf fi ddynesu i'w ŵydd.
Pwy ŵyr na wna faddeu f'ynfydrwydd,
Pan dd'wedaf, âg arwydd gwellâd,

" Mi bechais yn erbyn Duw'r duwiau,
 Ac o dy flaen dithau, fy nhad."

OFN. Adgofia ei hynaws gynghorion,
 Tra rhoddit atebion mor ffrom;
Mor ysgafn a choegaidd dy eiriau,
 A'i galon fwyn yntau mor drom:
Mor serchog at fab mor annheilwng,
 Yn methu a gollwng dy law;
Yn erfyn, dan wylo'n resynus,
 A thithau'n dirmygus droi draw.

HYDER. Af ato i addef fy mhechod,
 Af ato i'm gwrthod, os myn,;
Goddefaf fy ngwrthod, heb achwyn,
 Os tâl fy hên echwyn fel hyn.
Ni theimlaf dan newyn mor ddyrys
 Wrth oddef ewyllys fy nhad;
Pwy ŵyr na chaf le fel gwas cyflog,
 Mae'r mwyaf trugarog trwy'r wlad.

OFN. Ystyria dy galon galedrwydd
 Yn erbyn serchogrwydd mor fawr,
Mor dirion fu'th dad tuag atat,
 Gofalai am danat bob awr;
Adgofia ei dymer mor dirion,
 Mor addfwyn wrth weision ei dŷ;
Ond gwawdiaist am ben ei addfwynder,
 Adgofia, a'th hyder a ffŷ.

HYDER. Os yw ei diriondeb yn dangos
 Fy ngwrthdro'n ddiachos a ffol;
Mae cofio ei fwynder ef hefyd
 Yn nerth i ddychwelyd yn ol:
Tiriondeb a wrendy fy nghwynfan,
 Cyfrana i'r truan yn rhad;
Anturiaf, fy hun yn fy ngwaeledd,
 Yn awr ar drugaredd fy nhad.

OFN. Ystyria mor warthus dy wrthdro
Yn beiddio dibrisio dy dad;
Bradychu 'r berthynas agosaf,
A chlwyfo'r serch gryfaf â'th frad:
Ti fynaist gael diangc o'i ddwylaw,
Tra gwasgai dy law at ei fron;
Dirmygaist ei dristwch a'i wylo,
Pa fodd y troi ato 'r awr hon?

HYDER. Af ato â'm llygaid yn ffrydiau,
Ad-dalaf ei ddagrau yn rhwydd;
Yr echwyn a'i lôg a ddychwelaf,
Yn gyflawn, pan ddeuaf i'w wydd.
Er pechu i'w erbyn mor atgas,
Mae yma berthynas o hyd;
Fy nhad yn wir ydyw ef eto;
Fy nhad, er fy ngrwydro i gyd.

Fy nhad, o bawb gynt a dosturiai,
Fy nhad gydymdeimlai i'r byw;
Fy nhad, er a bechais i'w erbyn,
Af ato er hyn, fy nhad yw.
Fy nhad yw y mwyaf maddeugar
Er pobpeth fe gâr fy llesâd;
Yr undeb wna goffa'r gair cyntaf,
Af ato a d'wedaf "Fy nhad."

OFN. Ystyria hyn eto cyn cychwyn,
Er cystal dy dad, mai dyn yw;
Mae dyn yn ei faddeu yn gyndyn,
Yn llawer mwy cyndyn na Duw,
Bu'n fynych, a Duw wedi maddeu,
Ond dyn yn coffhau yr hên ddrwg;
Os Duw a faddeuodd i tithau,
Mae'th dad yn parhau i ddal gwg.

HYDER. Ni cheisiaf i'm tad fy adferu
Fel mab yn y teulu, na wnaf;

Mae hyny yn ormod i'w ddisgwyl,
  Cymeraf ryw orchwyl a gaf;
Cyfrifaf yn fraint i'r afradlon,
  Gael gweini ar weision ei dŷ;
Mi godaf, âf ato beth bynag;
  Mi âf, pa fodd bynag y try.

Addefaf o'i flaen fy ngwrthuni,
  Dywedaf, heb floesgni ddim hŵy,
"Nid ydwyf yn deilwng ti weli,
  I'm galw yn fab iti byth mwy;
Dymunaf, yn druan anghenog,
  Gael bod fel gwas cyflog i ti;
Rhyw orchwyl ni cheisiaf ei ochel,
  Ni bydd yn rhy isel i mi."

Os trengu heb geisio dychwelyd,
  Dibrisio fy mywyd a wnaf,
Ac felly mi ddigiaf yr Arglwydd,
  A newyn tragywydd a gaf.
Fy nhad a gaiff wybod fy newyn;
  Ca'n wir, os yn f' erbyn y trŷ:
Gwell genyf os trengu'n newynog,
  Gael trengu ar riniog ei dŷ.

YR AFRADLON YN CYFODI, AC YN DYCHMYGU EI DAITH.

Mi godaf, ynfydrwydd i'w oedi,
  Ac wele fi'n codi yn awr;
Anystwyth yn wir yw f'aelodau,
  Trwy orwedd, mewn eisiau, ar lawr.
Mae codi yn enyn fy adwyth
  I deimlo'n anystwyth a gwan,
Ond gallai'r ystwythaf, wrth dwymno,
  I brofi'n haws teithio'n y man.

Iach mwyach i'm distaw orweddfa,
  Gadawaf fan yma fy llun;

Anghofio y llanerch nis gallaf,
Lle deuais i ataf fy hun.
Iach mwyach, estroniaid annynol,
Eich cellwair annuwiol, a'ch gwlad;
Cychwynais, o'r diwedd, i'm hymdaith,
Rai camrau o'm taith at fy nhad.

Fy meddwl yn awr sy'n cynhyrfu,
I geisio dych'mygu fy nhaith;
Pa ffordd yr âf adref unionaf,
Mae'n wir fod y feraf yn faith.
Gwn eto pa ffordd i gyfeirio,
Fy nhad sy'n preswylio'r un lle:
Adgofiaf y ffordd wrth ei thramwy,
Rhag gwyro ar aswy na'r dde'.

Ymdeimlaf braidd gartref mewn gobaith,
Ar ol bod yn ymdaith yn hir,
Ar derfyn y tyddyn tyfadwy
Yn myned trwy'r adwy i'w dir.
Dych'mygaf fy mhrofiad cynhyrfus,
Yn llawen ac ofnus 'r un pryd;
A throion fy mebyd mor amlwg,
Yn dyfod i'm golwg yn nghyd.

Yr holl anifeiliaid mor ddedwydd
Yn britho y dolydd bob tu;
A'u llydnod yn llamu 'n chwareuol,
Fel bywyd yn nghanol pob llu:
Y gweision mor ddifyr yn gweithio,
A'r adar yn pyngcio 'n ddi ri';
Y cyfan trwy 'r tyddyn mor hapus,—
Pob peth yn ddifyrus ond fi.

Ar gyraedd i olwg yr anedd,
Yr un sy 'n anrhydedd y wlad;
Draw acw, ymddyrcha colofnau
Y mwg o ffumerau tŷ 'nhad;

Yr olwg fan yma a'm cyffry,
  Fy nghalon pryd hyny a gryn,
Fy enaid yn wir sy 'n cynhyrfu
  Yn awr, wrth ddych'mygu am hyn.

A ddichon fy nheimlad i oddef
  Yr olwg ar gartref fy nhad ?
Er disgwyl yn wan am dosturi,
  Ymlethaf dan ofni nacâd.
Pan âf at y tŷ, pwy a welaf ?
  Pwy edwyn yn gyntaf fath un ?
Pa awr ar y dydd yr âf ato,
  I gael fy nhad yno ei hun ?

Cyfrifai gwas dyeithr fi 'n dwyllwr,
  I'r mab fod mewn cyflwr mor dlawd ;
Fy nhad sy 'n dynerach na'i weision,
  Mwy tyner ei galon na 'mrawd.
Fy nhad a ddymunwn ei weled
  Yn mlaenaf, yn aned yr un ;
A charwn ei gyfwrdd yn rhodio,
  Neu 'n rhywle, pan wrtho ei hun.

Y MAB YN CANFOD EI DAD O BELL, AC YN DYFOD I'W ADWAEN.

Pwy welaf o draw yn prysuro ?
  Ymddengys mewn cyffro mawr iawn ;
Dymunwn, os daw yn gyfagos,
  Gael gwybod yr achos pe cawn.
Mae 'n rhedeg yn hynod egniol,
  Yn gyflym ryfeddol yn wir :
Cyfeiria yn union at yma,
  A chyraedd hyd yma cyn hir.

Ymddengys yn wr lled oedranus,
  A golwg fawreddus o draw ;
Mae 'n rhedeg fel dyn am ei fywyd,
  Pa newydd anhyfryd a ddaw ?

Ai ffoi mae rhag mintai o ladron?
  A ruthrodd gelynion i'w wlad?
Os felly, mae wedi cau arnaf,
  Rhaid diangc, ni welaf fy nhad.

Ymddengys y gwr yn fwy hynod,
  O hyd, fel mae 'n dyfod yn nes;
Mae 'n rhedeg ar ddarfod am dano,
  Heb arwydd diffygio trwy 'r gwres.
Arddengys yn fwy-fwy mawreddig,
  Arwydda 'n bendefig o fri;
Ac ataf fi 'n wir mae 'n cyfeirio;
  Pa beth? mae a fyno â mi!

Nis gallaf ddych'mygu ei neges,
  Mae 'n llanw fy mynwes a braw;
Ai llidiog yw 'r gwr tuag ataf,
  Trwy glywed am danaf o draw?
Nis gall nad oes achos tra phwysig,
  Mae rhywbeth nodedig yn bod.
Eglurach o hyd mae 'n arddangos
  Mai fi yn ddios yw ei nod.

Mae 'n debyg i un o'm hadnabod;
  Dych'mygwyf ei ganfod ryw dro.
Pwy ydyw? mi gofiaf yn union;
  Mae 'n un o frodorion f' hen fro.
Oh syndod! fy nheimlad sy'n berwi
  Fy nhad! Oh fy nhad! yn wir yw.
Oh! fel mae fy nghalon yn curo;
  Mae f'enaid yn teimlo i'r byw.

Mae 'n agos—Pa beth a ddywedaf?
  Fy nghyffes adgofiaf yn awr;
Nis gallaf ymgynal gan gryndod,
  Gwnaf syrthio yn barod ar lawr.
Mae 'n ymyl,—Pa fodd y bydd arnaf?
  Ei chwythiad a glywaf ger bron.

O Arglwydd! tosturia i'm nerthu;
  Mae f'enaid a'r dd'rysu 'r awr hon,

Y TAD YN CYFARCH EI FAB.

Fy mab! O fy mab a feithrinais!
  Fy mab a anwylais mor fawr;
Fy mab fu 'n golledig flynyddau,
  A gefais i'm breichiau yn awr.
Mi syrthiaf ar d' wddf i'th gusanu,
  Fy nheimlad sy 'n llethu fy iaith;
Myn serch gael ymwthio 'n agosach,
  Llefara yn gryfach trwy waith.

Newidiaist fy nagrau o dristedd,
  Yn ddagrau gorfoledd imi;
Fy serch a fyn redeg mewn dagrau,
  Yn frydion gusanau iti.
Adferodd yr Arglwydd fy ngholled,
  Mi gefais dy weled yn fyw;
Pa fodd y diolchaf byth ddigon?
  Diolchaf o'm calon i Dduw.

Meddyliaist bob diwrnod am danat,
  A'm serch tuag attat yr un;
Ymgronai fy serch yn ddi orphwys,
  Heb le i gael arllwys ei hun.
Llifeiriodd y serch, a hir gronais,
  Yn afon pan welais i di;
Cael gollwng hên gronfa serchogrwydd
  Sy 'n ddirfawr hapusrwydd i mi.

Y MAB YN CYFFESU EI BECHOD.

Fy nhad, 'rwyf yn addef fy ngwrthdro,
  Fy ffoledd yn gado fy ngwlad;
Mi bechais yn erbyn Duw 'r duwiau,
  Ac o dy flaen dithau fy nhad.

Bu agos iawn i fy mhechodau
  Fy llethu dan ofnau a'm lladd.
Adgofio am Aberth y Cymmod
  Rhoes imi ollyngdod ryw radd.

Nis gallaf byth adrodd fy nghofid
  A'm gwasgfa, o'u plegid yn wir;
Diflanodd pob cysur ar unwaith,
  A bum mewn anobaith yn hir.
Ffieiddiais fy mywyd annuwiol,
  Newidiais yn hollol fy myw;
Bwriadaf gysegru fy hunan,
  Am byth, o hyn allan, i Dduw.

Erfyniais faddeuant y Duwdod,
  Yn wir ni wnaeth wrthod fy nghri;
Erfyniaf yn awr o'th flaen dithau.
  Fy nhad, a wnai faddeu i mi.
Yr ydwyf yn haeddu dy soriant,
  Ond maddeu heb haeddiant yn rhad;
Atolwg, er maint fy mhechodau,
  Tosturia, a maddeu, fy nhad.

### Y TAD YN TRAETHU EI HIRAETH.

Fy mab, mi hiraethais am danat;
  Ni ddigiais i atat 'run pryd;
Croes hollol yw hiraeth i soriant,
  A phrofais na thrigent yn nghyd.
Os hiraeth feddianna y fynwes,
  Nid digter gaiff loches yn hon;
Bum minau rhy lawn o hiraethu
  I ddigter gael lle dan fy mron.

Pellhau y mae digter dan wgu,
  Ond hiraeth sy'n tynu nês nês;
Mae digter am ddal i boenydio,
  Ond hiraeth sy'n ceisio at lês.

Digofaint sy'n gyndyn i faddeu,
  Ni wel ond y beiau o hyd;
Ond hiraeth ni theimla waith maddeu,
  Fe wel y rhinweddau i gyd.

Am danat fy mab yr hiraethais,
  Hyd yma, hiraethais yn fawr;
Fy meddwl ymchwiliai am danat,
  Diangai draw atat bob awr.
Bum gyda thi'n wastad tra'n effro,
  A chyda thi'n trigo mewn hûn;
Dych'mygwn yn fynych dy glywed,
  Ac weithiau braidd weled dy lun.

Pa fodd y gall hiraeth ymddigio;
  Mae'n gwrthod adgofio tro ffol;
Y cyfan mae hiraeth yn chwenych
  Yw cael ei hen wrthrych yn ol,
Ar hyn ymnewidia'n llawenydd,
  Ei ofid dry'n ddedwydd fwynhad;
Try'r golled i danio'r gorfoledd,
  Mor fawr yw gorfoledd dy dad.

Yn awr ni gychwynwn at adref;
  Nid rhaid iti oddef yn faith;
Cyrhaeddwn cyn hir i'r hen anedd,
  Cai orphwys ar ddiwedd dy daith.
Fy mab yr wyt wedi diffygio
  Nês yma, gwna gydio'n fy mraich;
Dod arnaf holl bwys dy gerddediad,
  Ni byddi i'th dad yn ddim baich.

### Y MAB YN ADDEF EI ANHEILYNGDOD.

Fy nhad, mae'r anrhydedd yn ormod,
  Yn llawer iawn gormod i mi;
Nid ydwyf yn deilwng, trwy grwydro,
  I'm galw'n fab eto i ti.

Mwy gweddus i garpiog gardotyn,
Yn wir yw pell ddylyn o draw,
Gan g'wilydd, mae'n ormod o hyfdra
I gydio fel yma'n dy law.

Yr wyf yn dy barchu rhy uchel
I'th dynu mor isel i warth;
Rhyw frodor, efallai'n wr uchel,
Wrth deithio a'n gwel o ryw barth.
Addasach i mi yw dy ollwng,
Yr wyf yn anheilwng yn wir;
Meddyliais, os cawn ddod i'th olwg,
Na welwn ond d'wg di'n bur hir.

Ni soniaist unwaith am fy mhechod,
Sydd imi yn ormod o faich;
Mor dyner, heb edliw fy ngwrthdro,
A'm codi i gydio'n dy fraich!
Fy nhad, mae'r dyrchafiad yn ormod
I'r un roes fath drallod i ti.
Mae'n syndod os ydwyt yn maddeu,
Os gelli byth faddeu i mi.

Y TAD YN HYSBYSU EI DOSTURI.

Mae geiriau'n rhy weiniaid o lawer
I ddangos mawr gryfder serch tad;
Mae'r serch a'th gofleidiodd yn blentyn
Yn teimlo hyd hyn heb wanhad:
Yn wir, mae fy nghalon mor gynes
At blentyn fy mynwes o hyd;
Cynhyrfais, wrth weled dy aflwydd,
I deimlo'n serchogrwydd i gyd.

Er holl newidiadau mewn bywyd,
Mae'r undeb o hyd yn parhau:
Er colli'n hir weled dy wyneb,
Ni wnaeth yr hen undeb bellhau:

Mae'r undeb yn hen, heb heneiddio,
  Nid yw yn marweiddio gan oed :
Yr undeb a deimlaf fi heddyw,
  O'r braidd, yn fwy byw nag erioed.

Tosturir wrth blentyn mewn gwasgfa,
  Ei dad a ymdeimla'n ddiffael;
Ei serch yn naturiol a enyn,
  Yn fwy, at ei blentyn fo'n wael;
At hwnw'r ymdeimla agosaf;—
  Pryd hyn mae'r anwylaf o'i blant;
Ei deimlad, fel dwfr yn llifeirio,
  Gynhyrfa i ruthro i'r pant.

Yn debyg i afon gâi rydle
  I redeg i bantle pur fawr,
Ymryson y dyfroedd i redeg,
  Ymwylltient heb atreg i lawr:
Rhag mawredd y dyfnder ni sorant,
  Ymruthrant, gwreichionant eu chwys;
Cyd ganant, mewn twrf, am gael cyfle
  I lanw'r fath wagle ar frys.

Caf weini, fy mab, i'th ymgeledd,
  Er dirfawr orfoledd i mi;
Bydd hyn i dy dad yn ddifyrwch,
  Cael adfer diddanwch i ti.
Mae undeb nes rhyngom na brodyr,
  Yr ydym, mewn ystyr, yn un:
Yn nheimlad dy dad mae dy enaid
  Yn rhwym wrth ei enaid ei hun.

Y MAB YN CYDNABOD DAIONI DUW YN EI ADFERIAD.

Fy nhad, yr wyf heddyw'n rhyfeddu,
  Yn dirfawr rhyfeddu gras Duw,
Fy ngoddef, er cymaint f'ynfydrwydd,
  A'm cadw trwy f'aflwydd yn fyw:

Ymryson mor hir â'r cyndynaf,
  A dofi y gwylltaf o'r un ;
Fy ngwasgu i ddarfod am danaf,
  A hyn i'm dwyn ataf fy hun.

Fy nhrallod a oruwch reolodd,
  Ei gariad fesurodd y gwres,
Er cymaint y dymestl ofnadwy,
  Ni roddodd ddim mwy nag wnai les :
Mesurodd ryferthwy'r dydd hwnw,
  Gwnai gadw'r gwynt garw'n ei ddwrn ;
Er poethed fu'r pair am ddiwrnodau,
  Eisteddodd ar enau y ffwrn.

Meddyliais yn hir, yn fy ngwasgfa,
  Bod Duw am fy nifa â'i ŵg ;
Yn dechreu fy nhrin fel ei elyn,
  A'i wyneb i'm herbyn, er drwg :
Ond dygwyd fi'n fyw trwy'r triniaethau,
  Mewn cyfwng, rhwng tònau'r ddau-fyd ;
A gwelaf hwynt heddyw'n ddaioni,
  Yn ras a thosturi i gyd.

Mae'n wir fod y ffisyg yn nerthol,
  A chwerw ryfeddol i'r chwaeth,
Yn gryfach na nerth fy afiechyd,
  A lladd fy hen glefyd a wnaeth.
Canfyddaf mai'r dyben pryd hwnw,
  Trwy'r cwbl, oedd fy nghadw yn fyw
Lladd hadau 'r dragwyddol farwolaeth ;
  Yn wir iachawdwriaeth oll yw.

### Y TAD YN YMDEIMLO AG UNDEB YSBRYDOL.

Ymdeimlaf, fy mab, yn bresenol
  Mewn undeb ysbrydol â thi ;
Yr ydwyt dan ddwyfol ymgeledd,
  Yn gwbl o'r un duedd a mi.

Mae 'n undeb yn rhwymyn y bywyd;
  Yr ydym mewn ysbryd yn un;
Yr undeb sy 'n debyg i undod
  Personau y Duwdod ei hun.

Pa beth yw perthynas anianol
  Wrth undeb ysbrydol trwy ras;
Yr undeb ddilea yn raddol
  Bob peth anymunol a chas.
Mae hwn yn sancteiddio 'r holl nwydau,
  Yn coethi 'r teimladau i gyd;
Mor nerthol raid fod yr anwyldeb,
  Pan fyddo 'r ddau undeb yn nghyd.

Mae 'r undeb ysbrydol yn ddwyfol,
  Eneidiau 'n gysylltiol yn Nuw;
Gor-oesa berthynas gwaedoliaeth,
  Goresgyn farwolaeth i fyw.
Egwyddor serchogrwydd y nefoedd,
  Sy 'n cydio 'r holl nerthoedd yn un;
Grâs sy 'n per-eneinio ein hundeb
  I ddal tragwyddoldeb ei hun.

Trwy rinwedd yr undeb ysbrydol
  Mwynhawn yr anianol yn well;
Y gofid, trwy wendid 'r anianol,
  A geidw 'r ysbrydol draw 'n mhell.
Llewyrchant ar degwch ei gilydd,
  Gan weini i'w gilydd heb sèn,
Mor rymus yr undeb naturiol;
  Er hyny 'r ysbrydol yw 'r pen.

Mae 'r teulu 'r anianol yn isel,
  Ymdeimla 'r anifail a'i ryw;
Yr undeb ysbrydol sy 'n uchel,
  O deulu 'r archangel a Duw,
Y ddaear yw trigfa 'r anianol,
  A'i oes yn ddibynol ar chwyth;

Ond gwlad yr ysbrydol yw 'r gwynfyd,
  Mae 'n elfen y bywyd fydd byth.

Dibyna'r naill ar yr amgylchiad,
  Mae 'r dyn yn cael dygiad i fyw;
Ymwreiddia yn nghylch genedigaeth,
  A chylch ei wasanaeth braidd yw.
Y llall yw nôd uwchaf dynoliaeth,
  Prif ddyben bodolaeth y dyn;
Rhwym ddyn wrth ei ddyben tragwyddol,
  Gan asio 'r ddau bythol yn nglyn.

Mae 'r undeb anianol i ddarfod,
  A chilia fel cysgod ar fyr;
A meddwl sy 'n fynych ar soddi
  Mewn gofid, gan ofni y tŷr.
Yr angau a'i bwyty bob gronyn,
  O fesur briwsionyn o hyd;
Nes bwyty 'r holl undeb anianol,
  Ei ddifa 'n dragwyddol i gyd.

Wrth hyny, mae 'r undeb anianol
  Yn gwaedu 'n feunyddiol ryw fan;
Cylch ëang, yn wir, sy 'n merwino,
  Gan loesion o rwygo un rhan.
Ond pery yr undeb ysbrydol,
  Mae hwn o dragwyddol barhad;
A adref, goruwch newidiadau,
  Byth, byth ni ddaw angau i'r wlad.

Mae 'n undeb sy 'n llawn o ddiddanwch,
  Heb ddefnydd un tristwch na phoen;
Genedlodd dengarwch y Cymmod,
  Dylanwad teilyngdod yr Oen.
Sugn-dŷniad Haul mawr y Cyfiawnder,
  A thŷniad o gryfder mor fawr;
Yn sugno o'r dyfnder i'r nefoedd,
  Uwch syrthio 'n oes oesoedd i lawr.

Naturiol i'th dad dy gofleidio,
  O'th weled di eto yn fyw,
A theimlaf fwy byth o orfoledd
  O'th gael dan ymgeledd grâs Duw:
Nis gall na wnaf hoffi d'ymgeledd,
  Os cefais drugaredd fy hun;
Mae yma ryw ddwyfol serchogrwydd,
  Yr ŷm yn yr Arglwydd yn un.

## Y MAB YN ADDEF ADDYSG EI DAD YN FODDION EI DROADIGAETH.

Dy addysg, fy nhad, a fu 'n foddion
  I ddryllio fy nghalon, a'i throi;
Gan f'arwain trwy 'r d'rysni ofnadwy,
  Pan nad oedd un adwy i ffoi.
Adgofiais dy eiriau 'n fy ngwasgfa,
  I wel'd fy sefyllfa fy hun;
A chofiais dy eiriau ar farw,
  Yn obaith am gadw 'r fath un.

Y newyn a'm gwasgodd i deimlo,
  Ond nid fy ngoleuo a wnaeth;
Gwareiddiai y gwyllt â dychryndod,
  Heb roddi gollyngdod i'r caeth.
Er meddu llaw gref i greu ofnau,
  Ni feddai un genau i ddweyd;
Deffroai 'r holl ddyn i'r eithafoedd,
  Heb ddangos pa beth oedd i'w wneyd.

Gair Duw a lefarodd fy achos,
  Rhoes oleu i'w ddangos trwy 'r braw;
Pa beth a wnaeth ddwyn fy anghysur,
  A'r hyn oedd i'w wneuthur rhag llaw.
Diosgai y ddeddf y pechadur
  Yn noeth ac yn eglur i mi;
Ac yna cyhoeddai 'r Efengyl,
  "Mae ceidwad yn ymyl i ti."

Rhag cryfed y dymhestl arswydais;
  Er hyn ni ddeallais y sain;
Ond daethum o'r ogof yn hylaw,
  Gan swyn rhyw lef ddistaw a main.
Mae natur a'i gwg ar y llofrudd,
  Gyr drallod a chystudd i'w doi;
Ond unrhyw fynegbost ni fedda,
  I ddangos fod noddfa i ffoi.

Gardd natur ddarparwyd i'r perffaith,
  Ni ddyry un gobaith i'r claf;
Ni chynwys un dim at f'afiechyd
  Ond marw o'm clefyd a gâf.
Gardd arall ddyg gynyrch i'r cleifion,
  Daeth moddion o hon i'w gwellhau;
Yn hono yn ffrwytho, heb adfail,
  Mae'r Pren sydd a'i ddail yn iachâu.

I'r perffaith y trefnwyd llyfr natur,
  Ac nid i bechadur, fel fi;
I'r tywyll mae'r iaith yn aneglur;
  Heb air am fy nolur tost i.
Llyfr arall yw llyfr y pechadur,
  Argraffwyd yn eglur â gwaed;
A chynwys bob llawnder, i'r eithaf,
  At eisieu'r truanaf a gaed.

Gair Duw a'm tywysodd trwy'r terfysg,
  A'i Air trwy dy addysg, fy nhad;
Ei Air, na chyngorwr, ni welais,
  Er pan y gadewais fy ngwlad.
Rhad ras trwy dy eiriau am galwodd]
  A thrwyddynt y cadwodd fi'n fyw;
Achubwyd y penaf pechadur,—
  Ond ffrwyth dy hen lafur di yw.

## Y TAD YN MWYNHAU FFRWYTH EI LAFUR, AC YN DWEYD EI HANES.

Yr Arglwydd fendithiodd fy llafur,
  A hyn sy'n fawr gysur i mi;
Hyn hefyd, fy mab, sy'n cydweithio,
  I enyn fy ngrhoeso i ti.
Nis gall, na chofleidiaf o galon
  Ffrwyth gwerthfawr f'ymdrechion yn faith,
Er ofni na welwn ond aflwydd,
  Gwobrwyodd yr Arglwydd fy ngwaith.

Mi fwriais fy mara flynyddoedd
  Ar wyneb y dyfroedd, fel hyn:—
O'r braidd mor annhebyg i lwyddo,
  Ag ŷd i egino ar lyn.
Ond wele, fy Nuw a'm gwobrwyodd,
  Mor rasol y talodd y pwyth!
Yn awr, yn mhen llawer o ddyddiau,
  Cofleidia fy mreichiau y ffrwyth.

Os hauais wrth begwn y gogledd,
  Daeth yno o'r diwedd gnwd tew;
Yr hâd a eginodd mewn amser,
  Trwy'r eira, a chryfder y rhew.
Er bod am flynyddau heb dyfu,
  A'r rhwystrau'n cynyddu mor fawr;
Yr Arglwydd a siomodd fy ofnau;
  Mae'r ffrwyth yn fy mreichau yn awr.

Yr hauwr sy'n dwyn yr hâd gwerthfawr,
  Er wylo yn ddirfawr o hyd;
Daw hwnw mewn llawen grechwenau,
  Dan gludo'i ysgubau ryw bryd.
Os hauais trwy ddagrau hir amser,
  Daeth medi, a'r trymder a ffŷ;
A dyma'r gorfoledd i minau,
  O gludo f'ysgubau i dŷ.

Gweddïais, fy mab, am dy adfer,
  Nes cyraedd ryw hyder drwy ffydd;
A'm hyder gryfhâi wrth weddïo,
  Y cawn dy wel'd eto ryw ddydd.
Yr hyder oedd ernes, mewn profiad,
  O gyflawn atebiad i'm cais;
A heddyw caf dd'weyd heb ryfygu,
  Yr Arglwydd a glybu fy llais.

Darperais, fy mab, i dy dderbyn,
  Er's amser, i'th dderbyn o'th daith,
Ni chafodd y teulu hysbysiad,
  Wrth ddarpar, am fwriad fy ngwaith.
Yr Arglwydd yr hwn yn dosturiol,
  A'th weithiodd di'n raddol i droi;
Gydweithiodd dy dad, er ei loni,
  I ddisgwyl ac i barotoi.

Disgwyliwn am danat, gan edrych;
  Awn allan yn fynych o'r tŷ;
Ymwibiwn yn mhell i ysbïo,
  Ac weithiau gwnawn ddringo 'r bryn fry:
Fy nghwsg a ddifaodd disgwyliad,
  Awn allan cyn toriad y wawr;
Pan ddeuwn i'r tŷ ar ryw achos,
  Nis gallwn i aros prin awr.

Yn foreu iawn heddyw y cefais
  Ryw deimlad, na phrofais ei ail;
Fy hyder a ddaeth yn llawn sicrwydd,
  A wyneb yr Arglwydd yn sail.
Dywedodd mor gadarn a goleu,
  A oedd mewn sain geiriau nis gwn,
Dos heddyw i'th daith, ac ni'th siomir,
  Dy fab a gofleidi'r dydd hwn.

Cychwynais ar hyn mewn prysurdeb,
  Heb dd'wedyd wrth neb am fy nhaith

Arferwn ymdeithio er's dyddiau,
  Gan aros rai prydiau'n lled faith.
Rhyw lais o fy mewn a'm harweinia,
  Gan dd'wedyd; "Ffordd yma y daw."
A theimlwn mor fywiog wrth gerdded,
  Gan ddisgwyl dy weled o draw.

Ni safwn wrth gyfwrdd cymydog,
  Boed ef yn gyfoethog neu dlawd;
Ymdeimlwn mor fyw yn bras gamu,
  Fel ysbryd heb feddu ar gnawd:
Ymferwai hyn yn fy myfyrdod,
  Fy mab sydd yn dyfod gerllaw.
O'r diwedd, cyn gallu d'adnabod,
  Dych'mygwn dy ganfod o draw.

Cynhyrfais i redeg fy ngoreu,
  Yn awr, a'm teimladau yn fyw;
O'r diwedd adwaenais di'n gywir,
  A gwaeddais, "Yn wir fy mab yw."
Cynhyrfodd fy enaid i drwyddo,
  Nis gallaf ddisgrifio fy hun.
Fy serch o hyn allan a'm cariodd
  A'm serch a anadlodd bob ffun.

Cynhyrfodd fy mherfedd i ruo,
  A'm calon wnai guro mewn brys;
Fy serch nid adwaenai ei glenydd,
  A ffrydiai'n gawodydd o chwys.
Enynai fy mynwes yn eirias,
  Gan natur a gras yr un pryd;
Ymferwai perthynas anianol,
  A'r teimlad crefyddol yn nghyd.

Canfyddwn bum peth yn d'adferiad,—
  Anwylyd dy dad yn fy ngwydd,
A gwelwn ddychweliad pechadur,
  A ffrwyth fy hir lafur mewn llwydd;

Canfyddwn atebiad yn oleu,
  I'm taerion weddïau 'r un pryd;
A chynyrch addewid Duw tirion,
  Y cwbl yn dy berson di 'nghyd.

Tra llifai pum ffrwd mor effeithiol,
  A'u nerthoedd llifeiriol yn un,
Nis gallaf, fy mab, roi disgrifiad,
  Byth, byth, o fy nheimlad fy hun;
Na ollwng fy mhraich, er a fyddo,
  Ymbwysa, gan gydio'n fwy tỳn;
Yn fuan fe dderfydd dy ddyoddef,
  Cyrhaeddwn ein cartref ar hyn.

Y MAB YN LLWFRHAU WRTH NESAU AT Y TY.

Yr ydwyf, fy nhad, yn annheilwng,
  Mwy gweddaidd im' ollwng dy fraich;
Wrth weled o draw yr hen drigfod,
  Fy ngwarth sydd yn ormod o faich;
Dos rhagot, fy nhad, at y teulu,
  Gwnaf finau ymlechu mewn ffos!
Daw 'r llwm at y tŷ, heb ei gymell,
  Pan wisgo yn mantell y nos.

Fy nhad, 'r wyf yn methu ymlwybro,
  Fel wedi diffrwytho yn llwyr,
Dynesaf yn mlaen yn fy ngharpiau,
  Dan edyn cysgodau yr hwyr;
Cyd-rodio â thi at yr anedd
  Sy 'n ormod o fawredd i mi,
Am codi i'r dirfawr barchusrwydd
  Ar draul rhoi gwaradwydd i ti.

Mae 'r teulu i'w gwel'd yn yspïo,
  Gan brysur ddylifo i'n gwydd,
Pob un fel mewn awydd i'n gweled,
  Gan synu iseled dy swydd;

Siaradant mewn cyffro â'u gilydd,
  Rhai redant â'r newydd i'r llys;
At yma mae 'r cyfan yn edrych,
  Gan bwyntio yn fynych â bys.

Y TAD YN CYSURO EI FAB WRTH NESAU AT Y TEULU.

Fy mab, na therfysged dy galon
  Gyfarfod â gweision fy nhŷ,
Cânt weini i tithau ar fyrder,
  Ac yna, dy biryder a ffy;
Nid gwarth i dy dad yw tosturio,
  Yr wyf yn ymffrostio o'r gwaith;
Ymfrostiaf fwy fyth o fy mhlentyn,
  Pan wedi ei dderbyn o'i daith.

Dangosaf ddaioni yr Arglwydd,
  Ei fawr garedigrwydd i'w was,
Caf ddangos i'm teulu'n bresenol
  Effeithiau rhyfeddol ei ras:
Ni ddylid ei guddio â'r cyfnos,
  Ond teilwng ei ddangos liw dydd;
Diolchaf, fy mab, am d'adferu,
  Gorfoledd drwy'r teulu a fydd.

Awn rhagom i'r tŷ yn ddioedi,
  Nac ofna, ni weli ond hedd;
Diflana ar hyn dy drueni,
  Mi fynaf ei foddi mewn gwledd;
Mae'r teulu heb d'adwaen di eto,
  Gan edrych mewn cyffro pur fawr;
Cânt wybod llawenydd fy nghalon,
  Cyfarchaf fy ngweision yn awr.

Y TAD YN CYFARCH EI WEISION.

Dychwelais o'm taith mewn gorfoledd,
  Fy Nuw a wnaeth fawredd i mi

Adferodd wir wrthddrych fy hiraeth,—
  Ac wele wasanaeth i chwi:
Cewch weini yn awr i'm llawenydd,
  Na welsoch lawenydd o'i faint;
Holl weision fy nhŷ ymfywiogwch,
  Mae achos, mawrygwch y fraint.

Prysurwch i wrandaw f'ymadrodd,
  Fy mab a ddychwelodd o'i daith;
Adferwyd fy mab i fy mynwes,
  Rhowch heibio bob neges a gwaith:
Gweinydded pob un i'w ymgeledd,
  Boed iddo 'n orfoledd—nid pwn;
Anghofiwch bob gorchwyl drwy 'r anedd,
  Ond gweini ymgeledd i hwn.

Darperais er's tro i'w groesawu,
  Heb unwaith hysbysu fy mryd;
Ond heddyw, cewch ddwyn i wasanaeth
  Fy nghyflawn ddarpariaeth i gyd.
Chwi welwch nad ofer ddarperais,
  Daeth dydd a chwennychais yn fawr:
Mae pobpeth yn barod er's dyddiau,
  Dwyn allan sydd eisiau yn awr.

Prysurwch i gafell y dillad,
  Cewch bob parotôad mewn hwyl;
Gwnewch gyrchu 'r wisg oreu 'n awr yma
  Ddarperais at wledda ar ŵyl,
A gwisgwch fy mab i yn hono;
  Prysurwch ei wisgo 'n ddiffael:
Daeth dydd i ddefnyddio 'r wisg oreu,
  A chofiwch, yr oreu raid gael.

Addurnwch fy mab â phob gwychder,
  I ddifa ei brudd-der a'i fraw.
Rhowch fodrwy, fel wisga arglwyddi,
  Yn arwydd o fri, ar ei law:

Esgidiau ddarperais i'w dderbyn,
  Gwnewch roddi'r rhai hyn am ei draed.
Mawrhewch eich gwasanaeth arbenig,
  Fy mab fu'n golledig a gaed!

I orphen ei lwyr ymgeleddu,
  Mae'r cwbl i derfynu mewn gwledd;
Yn arwydd o wir gyfeillgarwch,
  Yn faeth i ddifyrwch a hedd:
Darperais lo da a phasgedig,
  At achos arbenig, er's tro;
Pa achos o gymaint hyfrydwch
  A heddyw?—dowch, lleddwch y llo.

Darperwch ddanteithion i wledda,
  Arlwywch, ac yna bwytâwn;
A byddwn yn llawen trwy'r teulu,
  A mawr lawenychu a wnawn:
Mae achos! fy mab a fu farw,
  Ond byw y daeth hwnw drachefn;
Fe gaed y colledig, O syndod!
  Mawrygwn y Duwdod a'i drefn.

Mi fynaf addurno'r berthynas
  Yn deilwng o'm hurddas fy hun;
Trwy hyny fy mab a ymlona,
  A mwyach ni theimla'r un un.
Dilëaf ei warth â mawrhydi,
  Ei eisiau wnaf foddi mewn gwledd:
Holl hadau ei g'wilydd a'i dristwch
  A gyll mewn digrifwch a hedd.

Arlwywch yn deilwng o'r diwrnod,
  Mae 'r achos mor hynod o fawr;
Arlwyaeth fo 'n enw i gariad,—
  Boed pobpeth at alwad yn awr;
Eglurer gorfoledd yr achos,
  Pob peth fo 'n arddangos boddhâd:

Mi gefais yn ol fy mab anwyl;
  Eistedded yn ymyl ei dad.

Dechreuwn gydwledda yn hyfryd,
  Fy mab sydd fel bywyd i'r wledd;
Ni chaiff fy nhrysorau eu harbed,
  Gan imi gael gweled ei wedd.
Cydunwn i ddatgan clodforedd,
  Am ryfedd drugaredd Duw Ion;
Edrychwn ar ffrwyth ei ddaioni;
  Annheilwng yw tewi a son.

Y MAB YN TORI ALLAN MEWN GORFOLEDD.

Nis gallaf ymatal ddim hŵy,
  O ryfedd diriondeb fy nhad;
Beth allai ei gariad wneud fwy;
  Ei gariad ryfedda'r holl wlad.
Effeithiodd sirioldeb ei wedd
  I ddifa fy ngofid i gyd;
Gorlanwodd fy mynwes â hedd
  Gan hollol syfrdanu fy mryd.

Helaethrwydd o bobpeth ger bron
  Er codi i gysur a bri;
Pob wyneb mor siriol a llon,
  A'r cyfan yn gariad i mi.
O gariad! a brofodd ei hun,
  Yn darpar mor helaeth a rhad;
Nis gallaf ymdeimlo'r un un,
  Ymgollais yn ngholiad fy nhad.

Wrth edrych ar bobpeth yn awr,
  Ni welaf ond cariad fy nhad;
Dangosant ei gariad yn fawr,
  A'i gariad rydd arnynt fawrhâd.
Ei gariad a'm llanwodd o hedd;
  Mae'n chwyddo'n fy ngolwg o hyd;

Ffynnonell f'ymgeledd a'r wledd,
  A haul y difyrwch i gyd.

Fy ngwrthdro faddeuwyd yn rhad,
  Ei ofid yn gysur a dröed;
Ni wnaeth ond dwyn cariad fy nhad
  I'r golwg, yn fwy nag erioed.
Wrth weled fy ngwrthdro yn troi,
  I gariad gael enw mor fawr,
Fy ngofid am dano wnaeth ffoi,
  Ac enyn orfoledd yn awr.

Ai'r truan newynog, fu draw,
  Sydd heddyw yn gwledda mor lon?
Ai'r fynwes orlanwyd â braw,
  Sy'n llawn o dangnefedd 'r awr hon?
Ai'r llwm a ddilladwyd mor hardd?
  Ai 'r gwarthus addurnwyd â bri?
Ai 'r athrist, pruddglwyfus, a chwardd?
  A ddaeth y fath newid i mi!

O'r blaen, yr oedd pobpeth mor ddu,
  I mi yn ymddangos dan wg;
Arswydwn bob peth o'm dau tu,
  Gan ofni bob munud ryw ddrwg.
Pan gollais f'euogrwydd mewn hedd,
  Cyd gollais bob dychryn a chŵyn;
Newidiodd holl natur ei gwedd,
  Daeth pobpeth i wênu mor fwyn.

Mi brofais newidiad mor fawr,
  Nid ofnaf mae 'r graig dan fy nhroed;
Un syrthiodd gan ddyfned i lawr,
  Ddyrchafwyd yn uwch nag erioed!
I mi mae fel breuddwyd trwy hûn,
  Fel codi o farw yn fyw;
O r braidd 'rwyf yn f'adwaen fy hun,
  Ymholwyf yn syn, Ai fi yw?

Cynyddodd y dyfroedd fwy fwy,
  Mae 'n ddyfroedd nofiadwy yn awr:
Nis gallaf ddistewi ddim hŵy,
  Gan gau ar orfoledd mor fawr:
Canmolaf yr Arglwydd, a wnaeth
  Fy ngholedd mor gyflawn a rhad;
A molaf ei gariad, a ddaeth
  I'm coledd, trwy gariad fy nhad.

GYD-ORFOLEDD Y TEULU OLL.

Pa le mae'r cymylau'n bresenol?
  Y fagddu gaddugol a ffoes;
Teyrnasoedd disgleirdeb y wawrddydd,
  Digrifwch boreuddydd yr oes.
Rhaid galw yn ol ein galarnad,
  Dadwnawn yr hen farwnad 'r awrhon;
Daeth bywyd i'r mab a fu farw,
  Ac wele, mae hwnw ger bron!

Pa le mae ysglyfaeth y gelyn,
  A ddygodd cyn hyn i wlad bell?
Daeth allan o dan ei awdurdod,
  Diangodd o geudod ei gell.
Pa le mae mawr anrhaith y creulon?
  Llwyr siomwyd dichellion y glew;
Yr Arglwydd waredodd yr ieuangc,
  Diangodd o grafangc y llew.

Y newydd ledaeno'r awelon
  Trwy Gath ac Ascelon yn nghyd;
Yspeiliwyd y cedyrn elynion,
  Gwnaed gwawd o'u cynllwynion i gyd.
Aed sain ein buddugol grechwenau
  Hyd eithaf terfynau'r bell wlad;
Y mab a fu'n rwydro mor ddyrys,
  Mae'n gwledda wrth ystlys ei dad.

Yn awr, mae'r gorfoledd o fedi
  Toreithiog gnwd gweddi y ffydd;
Gwnaeth dafod y mudan i ganu,
  A'r cloff i ddychlamu fel hŷdd.
Daeth hiraeth o hyd i'w hen wrthddrych,
  Mae yma yn edrych mor hardd;
Hyn lanwodd ein tafod â chanu,
  A natur o'n deutu a chwardd.

Tywalltodd yr wybren lawenydd,
  A'r gallestr afonydd o win;
Y crasdir a ddaeth i flaguro,
  A ffrwyth sy'n gorlwytho'r pren crin.
Y mab fu'n golledig a gafwyd;
  Y marw a godwyd yn fyw,
Crechwenwn, â llef ddyrchafedig,
  Ogoniant i'r unig ddoeth Dduw.

---

## MORGRUGYN.

Diwygíai y diogyn,—o edrych,
  Diwydrwydd morgrugyn:
Gwaith yw ei fwyd, gweithio fyn,
  Ac ei adeg a edwyn.

Dwys gerdda di segur adyn—i ysgol,
  Yr esgud forgrugyn:
O dan ei ddysg deui'n ddyn
  Diwygi'r di 'r diogyn.

Mawr grug a wna'r morgrugyn—aeth hyny
  Wrth enw y pryfyn,
Dyfal heil fawr dŷ, fel hyn:
  Ac una haid, fel, gwenyn.

## MAWRHAD DYN GAN Y DUWDOD.

"Pa beth yw dyn pan fawrheit ef?"

Yr uchel Dduw â'th enw yn Jah,
Dy holl weithredoedd a'th fawrhâ;
  Yr hwn a ferchyg nef y nef:
Wrth edrych ar y nefoedd faith,
Y lloer a'r ser dy ryfedd waith,
  Pa beth yw dyn pan fawrhêit ef?

Ofnadwy wyt, O Arglwydd Ner,
A gwaith dy fysedd di yw'r ser;
  Eisteddi fry ar gylch y nef:
Anrhydedd mawr i'n daear ni
Gael bod yn lleithig i'th draed di;
  Pa beth yw dyn pan fawrhêit ef?

Yr hen Ddihenydd, pwy a'th dry?
Dy gerbyd yw y cwmwl fry;
  A'r ddaear gryna rhag dy lef:
Ti wnaethost ryfeddcdau gynt
Marchogi ar adenydd gwynt
  Pa beth yw dyn pan fawrhêit ef?

O Arglwydd Ior pwy fel tydi?
Ymhell uwchlaw ein deall ni;
  Mwy nag a gynhwys nef y nef:
Y nefoedd daenaist ti fel llen,
Fel pabell lledaist hi uwch ben;
  Pa beth yw dyn pan fawrhêit ef?

Mae'r holl ynysoedd o'th flaen, Iôr,
Fel rhyw frycheüyn ar wyneb môr;
  Dy law rychwantodd gylch y nef:
Mae'r holl genhedloedd ger dy lys
Fel dafn o gelwrn wrth ben bys:
  Pa beth yw dyn pan fawrhêit ef?

Ti Arglwydd bwysaist fryniau'r byd,
A holl fynyddau hwn yn nghyd,
   A bwysaist yn dy glorian gref:
Mae 'r holl genhedloedd o'th flaen di
Fel mânlwch clorian genym ni;
   Pa beth yw dyn pan fawrhêit ef?

O Arglwydd, wele ger dy fron
Y lleuad ni lewyrcha hon:
   Nid pur yn d'olwg ser y nef,
A'r nefoedd chwaith nid ydynt lân
Yn ngwydd dy lygaid sy'n fflam dân:
   Pa beth yw dyn pan fawrhêit ef?

Nid sanctaidd neb fel Duw dilyth,
Pwy ateb i'th berffeithrwydd byth?
   Pwy fel tydi trwy nef y nef?
Ynfydrwydd ro'ist, yr "ysol dân,"
Yn erbyn dy angylion glân:
   Pa beth yw dyn pan fawrhêit ef?

Ymostwng mawr, O Ddûw, i ti
Yw edrych fry uwchlaw i ni,
   Ar bethau yn y drydedd nef:
Pa faint llai dyn yr hwn sydd bryf
Abwydyn gwael, pechadur hyf?
   Pa beth yw dyn pan fawrhêit ef?

Yr unig Dduw uwch bod yn well,
Preswyli 'r goruchelder pell:
   A'th orsedd fry goruwch y nef;
Mil filoedd a'th was'naetha'n llon;
Myrdd fyrddiwn safant ger dy fron;
   Pa beth yw dyn pan fawrhêit ef?

O ryfedd gariad y Duw mawr,
Yn sylwi dim ar lwch y llawr!
   A llwch gelynol at y nef;

Ti gereist elyn yn ei waed
Yn lle ei sathru dan dy draed:
  Pa beth yw dyn pan fawrhêit ef?

Pa le mae natur dyn yn awr,
Y natur aeth mor ddofn i lawr;
  A godwyd hon hyd nef y nef?
O Dduw a godaist natur dyn
I undeb byth â thi dy hun!
  Pa beth yw dyn pan fawrhêit ef?

Ai Mab y dyn ddyrchafwyd draw
I eistedd ar y Ddeheulaw,
  Yn frenin mawr yn llys y nef;
Angylion lawenhânt bob un
O'u bod yn ddeiliaid Mab y dyn;
  Pa beth yw dyn pan fawrhêit ef?

Y natur gollodd er ei braw,
Orseddfa 'r byd yn Eden draw,
  Daeth hon ar orsedd fawr y nef.
Rhoes gras y golled fel dan dreth:
Daeth Mab y dyn yn ben pobpeth:
  Pa beth yw dyn pan fawrhêit ef?

O golli gorsedd fach y llawr,
Daeth natur dyn i orsedd fawr,
  Breniniaeth helaeth iawn a chref;
O'r golled gynt enillodd gras,
Daeth codiad mwy o'r codwm cas;
  Pa beth yw dyn pan fawrhêit ef?

Mae 'r holl Gre'digaeth fel ynglŷn,
Yn awr wrth enw Mab y dyn:—
  Ein Brawd yw pob peth trwy 'r holl nef:
Mae enw Mab y dyn yn awr
Ar holl gyflawnder y Duw mawr;
  Pa beth yw dyn pan fawrhêit ef?

Bydd croesaw gwresog i ddyn tlawd
Ar sail anrhydedd mawr ei Frawd,
  Gan bawb am byth trwy 'r drydedd nef:
Ymhola 'r dyn mewn bost o'i ryw,
Wrth wel'd ei natur gan Fab Duw,
  Pa beth yw dyn pan fawrhêit ef?

Rhyfeddod gweled dyn oedd bryf
Yn sythu 'i hun, yn llon a hyf,
  Wrth ystlys Brenin mawr y nef:
Gan dd'we'yd, Fy mrawd, fy mrawd wyt ti:
O Dduw, o b'le daeth hyn i mi!
  Pa beth yw dyn pan fawrhêit ef.

Pan ddelo Duw, mawr fydd y fraint
I'w ogoneddu yn ei saint,
  Dadebry feirw 'r byd â'i lef:
Bydd pob creadur y pryd hyn
Mewn cyffro yn ymholi 'n syn,
  Pa beth yw dyn pan fawrhêit ef?

Wrth weled dynion rif y gwlith,
A'u Brawd, eu Prynwr, yn eu plith,
  Yn ninas ddedwydd nef y nef:
Rhyfedda 'r nefoedd drwyddi 'nghyd
Ymholi fydd mwy fwy o hyd,
  Pa beth yw dyn pan fawrhêit ef.

---

## ANGAU Y GROES.

Er mor fawr yw mor fy oes—o dymestl,
    A deimlais i eisoes,
  Angor gref yn angau 'r groes,
  Deil enaid i ail einioes.

Byd o laid, bywyd o loes,—sy' yma,
Gan siomiant ac anfoes.
O myn enaid mewn einioes,
Angor i gryf angau 'r groes.

Iesu llawn a'r Iawn a roes,—yw'r cymod,
Er camwedd ac anfoes;
Mae'n iawn i'm roi mewn einioes,
Angor gref i angau 'r groes.

Munud awr i mi nid oes,—o seibiant,
Neu Sabbath i'm beroes;
Angor i graig angau'r groes,
Yw unig gysur f'einioes.

Angora gred yn angau'r groes,—y gwan,
O gynwrf dy feroes:
Hyn a rydd brydnawn yr oes,
Ddiddanwch ddiwedd einioes.

Côf am drefn y cyfamod roes—fwyniant
I f' enaid i eisoes;
Hyf laniaf i ail einioes,
Yn ngwawr a grym angau'r groes.

---

## ER COFFADWRIAETH AM

**Miss Mary** Roberts, merch Mr a Mrs. Ebenezer Roberts, **Crug, ger Caernarfon,** yr hon a fu farw Gorph. 23, 1848, yn 12 mlwydd oed.

Bu'n byw i ddyben bywyd :—ber einioes
A brynodd yn ddiwyd;
Aeth yn iach, i burach byd,
Tàn wawl, at ei Hanwylyd.

Trwy daith fer, tra doeth a fu :—ni welwyd
Anwylach i'w theulu;
Treiglai'n deg trwy y glyn du
I ogoniant, dan ganu.

## ER SERCHUS GOFFHAD AM

[MISS ANN JONES, MERCH YR AWDWR, YR HON A FU FARW CHWEFROR 1AF, 1848, YN 13 MLWYDD OED.

Aeth hon ar union trwy'r anial,—at Grist,
Y Graig wnaeth ei chynal;
Pen y daith, heb boenus dal,
Na newidiad anwadal.

Draw ar union drwy'r anial—yr aeth hon,
Ar ei thaith yn ddyfal;
Gyda Duw a gaed i'w dal,
Mae, a chân am ei chynal.

Bu oes fer yn byw oes faith :—diogel
Fyw digon ar unwaith,
Ysgar yn gynar a'i gwaith ;
I orphwys at lu perffaith.

---

## CAN Y PERERIN.

Nid wyf ond pererin yma,
Yn dwyn ei groes ;
Mewn anialwch heb orphwysfa
Ar hyd fy oes :
Ond fy ngobaith sy'n troi allan
Mae'n ehedeg uwchlaw'r cyfan
Gan roi tro i edrych Canaan,
Lle na ddaw loes.

Fel ymdeithydd yr wyf finnau
Yn cael fy llun ;
Alltud yma fel fy nhadau
Ond mwy di lun :
Ond ymffrostiaf yn fy ngwendid
Gwelaf ddigon mewn addewid :

Ac er amled 'r wyf yn newid,
Mae Iesu'r un.

Dreigiau rheibus yn fy ngwylio
Braidd yn mhob man,
Llewod o'm dau tu yn rhuo
Am lyncu'r gwan:
Ond mae'r golofn gennyf eto;
Niwl a thân yn gylch i'm gwylio:
Dyma fel 'r wyf yn gobeithio
Cael dod i'r làn.

Teithio anial maith a diffaeth
Sy'n peri braw;
Nad oes ynddo ddim cynhaliaeth,
Llwm ar bob llaw:
Ond ar gyfer fy anghenion,
Mae y gwerthfawr addewidion,
Yn dwyn sypiau grawnwin mawrion,
O'r Ganaan draw.

Mae'r tawch afiach yn fy ngyru
I deimlo'n glaf;
Weithiau'n gruddfan, bron a mygu:
Pa beth a wnaf?
Ond câf fywiocau fy nghalon
Gan iachusol bêr awelon,
Yn dwyn arogl blodau Saron
O wlad yr haf.

Wedi goleu ddydd cysurus,
Daw nos drachefn;
Yna ammheu yn bryderus
Wel'd dydd drachefn:
Ond yn nyfnder y nos dduaf,
Yn addewid Crist y cydiaf;
Fe ddywedodd, "Mi ymwelaf
A chwi drachefn."

Ofn i Dduw fy rhoi i fyny
  Heb wawr drachefn :
Ceisio llefain y pryd hyny
  Am wawr drachefn :
Paham, f'enaid, 'r ymostyngi ?
A phaham yr ymderfysgi ?
Eto câf ei felus foli
    Am ei "drachefn."

Er yr holl gynnorthwy gefais
  Rhaid cael drachefn ;
Er pob bendith a dderbyniais
  Rhaid cael drachefn :
Ond yn wyneb fy holl bryder,
Câf yn Iesu bob cyflawnder,
A ddarparwyd ar fy nghyfer,
    I roi drachefn.

Wedi cael fy nwyn o'm crwydro
  Troi 'nol drachefn :
Dyma sy'n fy mawr ofidio,
  Troi'n ol drachefn :
Ond canfyddaf yn yr Iesu
Fawr barodrwydd i gyfranu
A bod Duw yn penderfynu
    Am roi drachefn :

Arglwydd grasol paid am gadael !
  Ymwêl drachefn :
Ceiisaf eto ddal fy ngafael
  Yn dy drachefn :
Er mwyn Iesu Grist a'i angau,
Maddeu, maddeu fy nghrwydriadau :
Cofia yn fy achos innau
    Am dy drachefn.

Nid oes gennyf dan bob dŷoddef
  Ond dy drachefn :

A fy ngobaith am dd'od adref
   Yw dy drachefn:
Os cyrhaeddaf i'r wlad ddedwydd
Trwy yr ofnau a'r blin dywydd,
Mi a'th folaf yn dragywydd
      Am dy drachefn.

Trefnwyd yn yr hen gre'digaeth
   Ymwel'd drachefn:
Hyn sy'n bywiocâu naturiaeth,
   Ymwel'd drachefn:
Felly'r grëadigaeth newydd
Adnewyddir yn yr Arglwydd;
Dyma ydyw nerth ei chynydd,
      Ymwel'd drachefn.

Wedi machlud, dechreu codi,
   Mae'r haul drachefn,
Wedi treio, troi ar lenwi
   Mae'r môr drachefn;
Lluniwr mawr y greadigaeth
Luniodd drefn yr iachawdwriaeth;
Trefnodd yn y prynedigaeth
      Ymwel'd drachefn.

Teithio 'n aml trwy anhawsderau,
   Mewn tywyll nos;
Gan ymguro o dan ofnau
   Ar hyd y nos;
Ond er hyn mae genyf obaith
Weled gwawr boreuddydd perffaith
Pan derfyna fy mlin ymdaith,
      Mewn gwlad heb nos.

Mae fy nhaith gan niwl tew afiach,
   Braidd fel un nos:
Os daw eto yn dywyllach,
   Beth am y nos?

Ond gobeithio yr wyf beunydd
Weled dysglaer deg foreuddydd
A oleua'n ddydd tragywydd
Fel na ddaw nos.

Awydd gwel'd yr Haul yn gwenu
Yn lle y nos,
Llefain am i'r Haul dywynu
I ddifa'r nos:
O fy ngwlad nid yw yn nebpell,
Mae 'n sefydlog dan ei linell,
Yn mwynhâu ei bur ffynnonell
Heb le i nos.

Ceisio edrych tuag adref,
Ond mae yn nos:
Methu gochel achos dyoddef
Mewn tywyll nos:
Mae 'r tywyllwch a'i beryglon
Yn creu hiraeth yn fy nghalon
Am fy ngwlad tu draw i'r afon
Nad ŵyr am nos.

Methu dilyn ol traed Iesu
Gan dywyll nos:
Pe bae 'r golofn dân yn pallu,
Beth wnawn y nos?
Ond mi bwyswn trwy 'r trallodion,
Ar y gwerthfawr addewidion,
Sydd yn rhoddi im' achosion,
I ganu 'r nos.

Ofni 'n aml daw awr mwy niwliog
Yn hwyr y nos:
Ofni bydd yr afon dònog
Dan dduach nos:
Ond mewn gobaith 'rwyf yn llawen,
Câf gynnorthwy fel bydd anghen,

A phan groesaf yr Iorddonen,
    Iach mwy i nos.

Rhaid ymdrechu heb orphwyso
  Ar hyd y nos,
Dal i wylio a gweddïo
  Ar hyd y nos
Ond ennynu fy nghaniadau,
Wedi cyrhaedd i'r wlad oleu,
A fydd cofio 'r ymdrechiadau
    Ar hyd y nos.

Iesu anwyl yw fy ngobaith
  Ar hyd y nos:
Nerth fy mywyd trwy fy ymdaith
  Ar hyd y nos:
Wedi cyrhaedd i'r orphwysfa,
Try pob peth yn Haleluia,
Yn yr olwg ar fy ngyrfa,
    Ar hyd y nos.

Gofyn imi mae 'r gelynion,
  Beth am y nos?
Gofyn hyn mae ofn fy nghalon
  Beth am y nos?
Ond pan ddeuaf trwy 'r anialwch
Gofyn rhwymau diolchgarwch
Gofyn sicrwydd y dedwyddwch
    Beth am y nos?

Gofyn yma mae fy ngwendid
  Beth am y nos?
Dyma ofyn fy aflendid
  Beth am y nos?
Ond tu draw i'r afon dònog
Gofyn i mi a gwên serchog,
Bydd y goleu ddydd sefydlog,
    Beth am y nos?

Dyma ofyn fy ffolineb,
  Beth am y nos?
Hyn a ofyn f'anffyddlondeb,
  Beth am y nos?
Ond ar fryniau goleu Canaan
Wedi cefnu 'r nos annyddan,
Gofyn bydd yr Haul ei hunan,
    Beth am y nos?

Pan gyrhaeddaf i wlad Canaan,
  Uwch law y nos,
Ennyn mawl o hyny allan
  Fydd cofio 'r nos;
Cofio 'r niwl a'r holl beryglon
A felusa wleddoedd Sïon,
Wedi cefnu tònau 'r afon,
    O gyrhaedd nos?

Mae pob peth yn ddarfodedig
  Mewn estron wlad;
Eu goreuon yn siomedig
  Heb fawr barhâd:
Ond fy ffydd sydd weithiau 'n canfod
Trwy 'r cymylau i'r wlad uchod,
Pan ddiwedda 'm pererindod
    Yn nhŷ fy Nhad.

Teithio 'n aml trwy niwl cauedig,
  Mewn lleithiog wlad;
Trwy darth tywyll a gwenwynig
  O hir barhâd:
Ond trwy 'r niwl canfyddaf weithiau,
Oleu 'r Haul, mewn tirion wênau,
Draw yn gollwng ei belydrau
    Uwch tŷ fy Nhad.

Teithio raid trwy swn brawychus
  Yn arwydd brad:

Rhai yn siarad yn gableddus
  Am dir fy ngwlad:
Ond yn nghanol twrf gelynion
Dwyn i'm clustiau mae 'r awelon
Adsain pêr ganiadau Sïon,
    O dŷ fy Nhad.

Weithiau 'n ofni, mae 'n rhaid addef
  Dan fawr lwfrhâd,
Na châf byth gyrhaeddyd adref
  I dir fy ngwlad:
Ond pan godo 'r Haul yn uchel,
Cawn gip olwg o'r tir isel
Ar ardderchog gopa Carmel,
    Ger tŷ fy Nhad.

Ti afonig bach sy 'n rhedeg,
  Yn mlaen i'r môr,
Dwg fy nagrau yn ddiatreg,
  Draw, draw i'r môr,
Gael i hwnw ddwyn fy nagrau,
At fy ngwlad ar frig ei dònau,
I gusanu ei glân odrau,
    Ar fin y môr.

Aed y dòn i annerch godrau
  Hen dir fy ngwlad;
Aed pob tòn a'm hannerch innau
  I dir fy ngwlad
Byddwch i mi yn genadon
Dònau 'r môr, i ddwyn f'annerchion,
Sïuch bryder serch fy nghalon
    Yn nhir fy ngwlad.

Ymlanhewch y tònau agwrdd,
  Wrth dir fy ngwlad:
Mae yn fraint i chwi gael cyffwrdd
  A thir fy ngwlad:

Braidd nad wyf yn cenfigenu
Wrth y tònau sy 'n cael nesu
Draw i gyffwrdd a chusanu
Hen dir fy ngwlad.

Tithau'r awel gwasanaetha,
Yn ddinacâd:
Dwg f'ochenaid ar dy hedfa
I dir fy ngwlad:
Dod f'ochenaid drom hiraethlon
Draw i sisial serch fy nghalon
Yn mhinaclau mynydd Sïon.
Wrth dŷ fy Nhad.

Ewch awelon, ar eich neges,
Draw i fy ngwlad:
Dygwch anadl serch fy mynwes
I dŷ fy Nhad;
Rhowch f' ochenaid wir hiraethus,
Fel i siglo dwylaw 'n serchus
A'r dail chwery yn groesawus
Yn nhir fy ngwlad.

Weithiau 'n gwel'd pob peth i'm herbyn,
Heb ddim mwynhâd;
Ofni 'n aml na welaf derfyn
Hen dir fy ngwlad;
Ond mae gobaith trwy'r holl ofnau,
Yn dywedyd yn gryf weithiau,
Pwy a wyr na welir finnau
Yn nhŷ fy Nhad?

Teimlo 'n aml fy mod yn mhellach
O dir fy ngwlad;
Nid yn tynu yn agosach,
Ond ar bellhâd:
Eto 'r wyf yn canfod weithiau,
Pan dywyno 'r Haul yn oleu

Nad oes imi nemawr gamrau
    I dŷ fy Nhad.

Pan mae 'r awyr yn goleuo,
  Mawr yw 'r mwynhâd :
Ffydd yn esgyn i ben Nebo
  I wel'd fy ngwlad :
Canfod acw ben Lebanon;
Dyna ffrwythlawn gopa Saron ;
Dacw dyrau mynydd Sïon,
    Wrth dŷ fy Nhad.

Dyna 'r pryd y gwnawn ymdeimlo
  Mewn mawr foddhâd,
Fel pe byddwn yn byw yno
  Mewn llawn fwynhâd :
Daw yr awr i fyny 'n fuan
Pan y caffwyf fi fy hunan
Wrth y bwrdd mewn teulu dyddan
    Yn Nhŷ fy Nhad.

Poenau 'r daith, pan ddaw i fyny,
  Dry yn fwynhâd ;
A'r holl ddirmyg y pryd hyny
  Dry yn fawrhâd ;
Mwy na digon o ad-daliad
Am holl lafur fy ymdeithiad
A dderbyniaf mewn amran iad
    Yn nhŷ fy Nhad.

---

## HAELIONI AT WAITH YR ARGLWYDD.

Oni roddwn o'r eiddom—i Dduw Iôr ?
  Ei dda Ef sydd ganom ;
A drown draw, a'n llaw yn llom
Tra Iesu'n marw drosom.
t (trosom)

## NESAU AT DDUW YN GYSUR I'R DUWIOL,

Mae Duw yn gadarn Iôr
  Yr Hollalluog yw:
A'i gerydd sych y mor
  Gall godi'r marw'n fyw;
Pwy arall all fy nerthu i?
Nesâu at Dduw sydd dda i mi.

Yr Arglwydd ŵyr fy nhaith
  Oddi yma i'r làn draw:
Gŵyr bob peth ar un waith
  Y sydd, ac eto ddaw;
Pwy arall fedr fy arwain i?
Nesâu at Dduw sydd dda i mi

Iehofah llawn o ras,
  A'i gariad yn parhâu:
Mae'n disgwyl wrth ddyn câs,
  Am le i drugarhâu.
Y gwaela 'n fyw fe wrendy 'i gri—
Nesâu at Dduw sydd dda i mi.

Yn Nuw yr ŷ'm yn byw,
  Yn symud, ac yn bod:
Ein Tad agosaf yw,
  A thad a haeddai glod:
Efe a'n gwnaeth, ei bobl y'm ni,
Nesâu at Dduw sydd dda i mi.

Cyfryngwr sydd yn awr
  Rhwng Duw a'r euog ddyn:
Mae'n llanw'r gwagle mawr,
  Y ddwyblaid ynddo 'n un:
Gwir Fab i'r Tad, yn Frawd i ni;
Nesâu at Dduw sydd dda i mi.

Enillodd Iesu 'r dydd
  A ffordd i'r cysegr gaed;
Ffordd newydd, fywiol, rydd,
  Gysegrodd ef a'i waed,
A ffordd yw hon a wnaed i ni;
Nesâu at Dduw sydd dda i mi.

Mae genym yn y nef
  Eiriolwr mawr ei ddawn;
Eiriolwr a dadl gref,
  Efe ei Hun yw'r Iawn.
Mae'n eiriol beunydd drosom ni,
Nesâu at Dduw sydd dda i mi.

Y mae pobpeth i'w gael
  Gan Dduw yn enw Crist:
Fe wrer dy weddi 'r gwael,
  Er mwyn ei angau trist:
Yn fy anghenion mawr diri',
Nesâu at Dduw sydd dda i mi.

Duw sydd yn cyfiawnhâu,
  Yn gwisgo'r enaid llwm,
Efe a all ryddhâu,
  Oddiwrth euogrwydd trwm:
Pwy arall all fy ngwared i?
Nesâu at Dduw sydd dda i mi.

Yr Arglwydd sy'n glanhâu,
  Pechadur drwg ei lun;
Fe all ei gwbl iachâu,
  A'i ddwyn i'w ddelw 'i hun
Pwy arall all fy ngwellhau i?
Nesâu at Dduw sydd dda i mi.

Mae Duw yn noddfa gref,
  Ddiogel rhag pob braw,

Rhaid plygu i'w air Ef,
  Pob gelyn gilia draw.
Rhag fy ngelynion sy'n ddiri',
Nesâu at Dduw sydd dda i mi.

Mae angeu du gerllaw
  Beth ddichon braich o gnawd?
Y byd a gilia draw
  At bwy try f' enaid tlawd?
Deil Duw fy mhen uwchlaw y lli
Nesâu at Dduw sydd dda i mi.

Rhaid myn'd cyn hir i fyw,
  I dragwyddoldeb mawr,
I drigo yn ngwydd Duw,
  Uwch law gwrthddrychau 'r llawr
Yn awr daw'n gyfaill i'm math i
Nesâu at Dduw sydd dda i mi.

Cyfeillion Duw i gyd
  Ant ato i'w fwynhâu;
Tragwyddol drigo'n nghyd,
  A dechreu llawenhâu:
Gwna gyfaill heddyw o'm bath i:
Nesâu at Dduw sydd dda i mi.

Plant Duw a lawenhânt
  Yn nghyffro'r farn a fydd;
Eu Duw a'u cyfiawnhânt
  Ar g'cedd y tanllyd ddydd,
O deulu, mawr eu braint a'u bri,
Nesâu at Dduw sydd dda i mi.

---

## HEDDWCH A DUW.

Dy heddwch, nid o'i haeddu,—y Duw mawr
  Dod i mi trwy Iesu:
 Dy hedd o'th drugaredd gu,
 Mae f' enaid am ei fynu.

## DUW O'I GARIAD YN GWNEUTHUR ESTRONIAID YN FEIBION IDDO EI HUN.

Trwy gredu yn Iesu cawn fyw,
  A bywyd yn berffaith ryddhâd,
A deuwn yn feibion i Dduw,
  Yn un mewn perthynas â'i Dad;
Bu farw o'i fodd yn ein lle
  Ac yn ei farwolaeth cawn fyw;
Cawn yn ei faboliaeth Efe,
  Ein gwneuthur yn feibion i Dduw.

Mae 'r nefoedd yn berffaith gytun,
  Er iddynt ddosbarthu mewn rhyw,
Yn Iesu mae 'r cyfan yn un,
  Oblegid ei Brenin oll yw:
Mae 'n Ben pob awdurdod i fod,
  Ymgrymant oll iddo yn nghyd,
Mae 'n derbyn anrhydedd a chlod,
  A dwyfol addoliad o hyd.

Ond newydd i'w cân yr holl saint,
  A hono yn berwi o dân:
Ymgadwodd 'r angylion rhag haint;
  Nis gallant hwy ddysgu y gân;
Ni chawsant eu gwella o bla,
  A phrynu eu rhyddid ni wnaed,
Ond dynion fel hyn a'i mawrhâ.
  Hwynt brynodd, a olchodd a'i waed.

I'r rhai a waredwyd mae 'r gân,
  Gorfoledd yn gwreiddio mewn loes,
Y codwm a ennyn eu tân,
  Anrhydedd o ddirmyg y groes:
Mae 'r fawr brynedigaeth yn rhad,
  Eu codi trwy aberth a wnaed;
A deil i ddadseinio ty 'r Tad,
  Ryfeddol ganiadau y gwaed.

Mae 'r saint i'w hadnabod trwy 'r nef,
  Yn ebrwydd wrth anthem y groes,
Cân newydd am waed ei groes ef,
  Ei thebyg trwy 'r nefoedd nid oes;
Nis galiant anghofio eu Brawd,
  Fu farw er mwyn eu rhyddhâd:
Duw Cadarn ddisgynodd i'r cnawd,
  I'w gwneuthur hwy 'n feibion i'r Tad.

Cair hawlfraint trwy Iesu i'r wlad,
  Y ddedwydd Baradwys ddilyth,
Sy'n llawn o ysbrydol fwynhâd,
  A llawnder a bery am byth:
Mae goruwch blinderau y cnawd,
  Dedwyddwch, tragwyddol barhâd,
Cawn ddyfod trwy Iesu ein Brawd
  I'w wreiddiol berthynas a'i Dad.

O ryfedd dragwyddol fawrhâd,
  A chwbl annhraethol i'n yw,
Plant Adda, yn feibion i Dad
  Yr unig anedig Fab Duw:
Yr uchel berthynas trwy'r Iawn,
  A hono i ni, ddynolryw,
Perthynas sylweddol a llawn,
  Yn agos faboliaeth Mab Duw.

Mae yn mabwysiadu yn blant,
  Estroniaid gelynol, trwy ffydd:
Yn golchi yr aflan yn sant,
  Yn deilwng i'w ddangos liw dydd:
Ni gawn y berthynas trwy ffydd,
  Fel yn ei berthynas hen Ef,
A'r unrhyw berthynas a fydd
  A'r Duwdod, ein Tad sydd o'r nef.

Mabwysiad nid enw gwag yw,
  Ond cadarn sylweddol fawrhâd,

Yn ail i fabolaeth Mab Duw,
  Sy'n Fab annechreuol i'w Dad:
Poblogir y nefoedd bob dydd,
  O ddrwg bechaduriaid y byd:
Ond enw pechadur ni fydd,
  I'w glywed trwy'r nefoedd i gyd:

Ond yno'r trigolion byth mwy,
  A elwir yn feibion i Dduw:
A theulu sydd gartref y'nt hwy,
  A chyda eu Tad y cânt fyw:
Y saint a'r angylion yn un,
  Yn nhŷ eu Tad nefol yn byw,
Yn ymyl Crist Iesu ei hun
  Dan wenau gwastadol eu Duw.

---

## PENWYNU.

Pan yw un yn penwynu,—mae'n arwydd
  Myn eraill ei barchu:
A'r gwyn hardd a dardd o'r du,
Nid ellir ei dywyllu.

Pan yw anian yn penwynu,—y dyn,
  Nid yw ond ei harddu:
Aeth i'w oed, fe ddaeth o ddu,
Rhaid oedd ei anrhydeddu.

Am wynu'r gwallt mae anian,—nid cerydd,
  Ond coron ar oedran:
Nid i foes y rhoes e'n rhan,
Ond i heneed ei hunan.

Mae'n rhaid cael mwy anrhydedd,—nag irwallt
  Yn goron i rinwedd:
Un dêr byth, nid â i'r bedd,
A gwynach o ogonedd.

## EIRIOLAETH CRIST.

Mae Crist a'i thuser aur yn llawn,
  O arogl darth ei Ddwyfol Iawn:
Offrymai 'r mwg heb rif na maint,
  Gyda gweddiau yr holl saint.

---

Dros ei holl eglwys ar y llawr,
  Mae Crist yn awr yn eiriol
Gan ddadleu 'i waed mewn uchel fan
  O blaid yr anhaeddiannol.

Trwy fywyd glân, ac angau trist,
  Mawrhaodd Crist y gyfraith;
Trwy ddirfawr ing ac angau loes,
  Fe roddodd daliad perffaith.

---

## AR GAREG FEDD GENETH.

MR. WILLIAM JONES, PEN-Y-BONT, CAERNARFON.

Ebrwydd giliodd, braidd ei gweled—i fyw,
  Mewn ail fyd y'i ganed;
Marw chwim, ond mawr ei ched,
  Eginyn gwlad gogoned.

---

## HAEDDIANT CRIST YN SAIL MADDEUANT.

Er cymaint pechadur wyf fi,
  Mae haeddiant Crist Iesu yn fwy:
Y Ceidwad a drefnwyd i ni
  I ddynion ei dderbyn, waeth pwy:
Duw'r maddeu, ei ddyfais ef yw,
  Ef ddygodd faddeuant i fod,

A dyma waith penaf ein Duw,
Fydd byth yn coroni ei glod.

Nid oedd y gair maddau ar gael,
Nes syrthio o Adda'n yr ardd:
Hen ddyfais dragwyddol Duw hael
Dan felldith y codwm blaen-dardd.
Amlygodd ei fwriad ar frys,
I Adda oedd euog a chas:
Rhyfeddai holl weision ei lys,
Wel'd dyfais aruthrol ei ras.

Ni wyddai brodorion tŷ'r Tad,
Un dim am faddeuant, cyn hyn,
Buasai'n air tywyll trwy'r wlad,
Yn debyg i ddüwch ar wyn:
Yn uffern nid oedd y fath air,
Estroniaid i ddyfais gras Duw:
Ond ar yr hen ddaear y'i cair,
Yn obaith i'r euog gael byw.

Duw wnaeth ei ddadguddio i'r byd,
Pan syrthiodd i gyflwr tra phrudd:
Y gair oedd yn aros o hyd
Yn nyfnder ei gariad yn nghudd:
Ni fuasai holl ddyfais y byd
Yn dwyn dyn yn ol o'r tir pell;
Ond cariad trwy aberth mewn pryd,
Agorodd y ffordd i'r wlad well.

Pe na ddadguddiasai Duw Ion,
Faddeuant 'n ol cyfoeth ei ras,
Ni wnaethai plant dynion byth son
Am faddau i'w gilydd dro cas:
Ni ddaethai'r gair maddeu i Iaith,
Nac i Eiriaduron y byd:
Y ddaear fuasai'r un waith,
Mor dywyll ag uffern o hyd.

Ni ddichon neb faddeu un bai
   Ond Duw y Penllywydd ei hun:
Rhoi ato a ddylai pob rhai,
   A pheidio ymddial ar un,
Llwyr adael yr achos i Dduw,
   Ymgadw rhag coledd drwg wŷn,
Ymddiried i'r Arglwydd oll yw,
   Y maddeu sy'n ddyled ar ddyn,

Pan ffurfio plant dynion yn un
   Llywodraeth, dan bennaeth o'u rhyw,
Ac felly dynwared rhyw lun
   Lywodraeth anfeidrol eu Duw:
Rhaid iddynt amddiffyn eu deddf
   Trwy gosbi'r troseddwr ei hun
Nid gwneuthur ei gosb yn fwy lledd
   Cyfiawnder raid wneyd i bob un;

Nis gallant hwy faddeu un bai
   Heb ddifa awdurdod sy'n ddeddf:
Os tynu eu cosb yn ddim llai,
   Daw'r gyfraith o hyny'n fwy lleddf.
Os gallant trwy lithro'r gosb draw,
   Nis gallant hwy byth ei dileu:
Mae maddau yn rhyddid rhagllaw,
   Maddeuant, Duw Ior wnaeth ei greu:

A'r crëad rhyfeddaf yw hwn,
   Maddeuant i'r euog o reddf,
Ei buro a chladdu ei bwn,
   A hyny'n anrhydedd i'r ddeddf:
Mwy gorchwyl na chreu em byd ni,
   A mwy na dwyn crëad i fod:
Pen campwaith y Duwdod a'i fri,
   Mae fel yn coroni ei glod.

Maddeuant a'r bob peth yn nglyn,
   Ein dyled a dalodd ein Brawd,

Gwerth bywyd yr uchel Dduw-ddyn
  A marw yn boenus dan wawd;
Mor ddrud oedd 'r agorfa a wnaed,
  I'r mor oedd o gariad yn Nuw,
Gael rhedeg trwy haeddiant y gwaed
  I godi rhai meirw yn fyw.

Maddeuant sy'n gostus ei sail
  Yn enw i gariad byth fydd:
Ca'r gyfraith anrhydedd diail,
  Wrth ollwng yr euog yn rhydd,
A'r gyfraith pan yn ei ryddhau,
  Heb wyro ar aswy na'r dde,
Trwy'r Meichiau a wnaeth ei mawrhau
  Caiff lawer mwy gwerth yn ei le.

---

## ENGLYNION

I Mr. Thomas Williams, yn ateb i lythyr a anfonodd ataf oddiar dybiaeth fod rhywun wedi ei enllibio wrthyf.

Nid oes dan haul, gwnaf dystio'n hyf—gwedi
    Eich gwawdio chwi wrthyf:
  Pe doi gwawdiwr, croeswr cryf,
  Gai ei anair le genyf?

Y du ellyll câs, a'ch dallodd,—a cham
    Ddychymyg a'ch twyllodd:
  Eich serch er braw draw a drodd,
  Ar eiriau hi lwyr oerodd.

Ac eilwaith braidd y coeliaf—y darfu
    I'ch dirfawr serch attaf,
  Oeri yr hin mirain haf,
  A gwywo cyn y gauaf.

Da chwithau credwch weithion,—bod f'enaid
    Bid fyno yn ffyddlon:
  Daeth t'wyllwch, bryntwch i'ch bron,
  O dawch mwg eich dychmygion.

## CLYCHAU 'R ARCHOFFEIRIAD.

Gwrandewch clychau'r Archoffeiriad,
  Dydd y cymod mawr a ddaeth;
Ar bechadur mae yr alwad,
  Rhyddid llawn i'r enaid caeth;
Adsain moliant,
    Y nefolaidd Jubili.

Arglwydd dwg fy enaid rhagddo
  I adnabod Crist trwy ffydd:
Fel y gallwyf gydymffurfio
  A'i farwolaeth ef bob dydd:
Tebyg iddo,
    Fydd gogoniant nef y nef.

Profi grym ei adgyfodiad,
  Prawf ei fod yn Dduw o'r nef:
A'm cymdeithas a f'o 'n wastad
  A'i fawr ddioddefiadau Ef;
I'm cymhwyso,
    At ei weled fel y mae.

---

## BYRDRA OES DYN.

Onid doe y ganed dyn ?—a heddyw
    Cyrhaeddodd yn hoywddyn;
  Fory bydd yn farw heb wŷn,
  Tridiau yw hynt yr adyn!

Y boreu dïau blodeuodd—a'r nawn
    Er neb, fe lwyr wywodd;
  Er gyneu yr eginodd,
  Ond yn awr yn un dinôdd.

Y dyeithr bach daeth i'r byd—y boreu
    Heb arwydd afiechyd;
  Pan nawnodd braeodd ei bryd,
  A gwyw wyrodd i'r gweryd.

Gyneu o'r pridd 'r eginodd,—Ow ddiddim!
Pridd oedd ef pan darddodd ;
I'w ran mwy i'r pridd 'r un modd
Chwai eilwaith y dychwelodd.

Mae dwthwn ei ymdeithio,—ail cwsg,
Ail cysgod yn 'mado ;
Ail cwmwl gwyll ar ffyll ffô,
Ac ail i niwl yn cilio.

## MORMONIAETH.

Y grefydd newydd annuwiol,—ddeilliodd
O ellyll afrasol ;
Nid ä ei ffydd ond i ffol,
Weis diriaid anystyriol.

Twyll gyfrin hyd at wallgofrwydd,—ni bu
Yn bod fwy haerllugrwydd :
Dyn ei chwant, yn dŷn o chwydd,
Ni fedrai fwy ynfydrwydd.

Dwl yw murmur chwedl y Mormon,—Ow ffei
Rhy ffol i ynfydion :
Jo Smith ffol, fradol ei fron,
A'i lluniodd i'w gynllwynion.

## MADDEUANT.

O Dduw, ein hunig gysur ni,
Fod gyda thi faddeuant ;
A maddau bai, trwy 'r Aberth hedd
I'th fawredd yn ogoniant.

Dioddefodd Iesu wawd a chur,
I wneuthur ffordd i faddau ;
Maddeuant sydd mor llawn a gwerth
Ei aberth, dros bechodau.

Nis gall fod pechod un dyn byw,
  Rhy fawr gan Dduw i'w faddau;
Mae urddas llawn yr Aberth hedd,
  Yn fwy na drygedd beiau.

Dyrchafodd Duw Dywysog hedd,
  Ar orsedd ei ogoniant,
I roddi edifeirwch gwir,
  I'r anwir, a maddeuant.

Gosododd Duw ei Fab yn Iawn,
  Y cyfiawn dros yr euog;
Er dangos ei gyfiawnder clir,
  Trwy faddau i'r blinderog.

Mae 'r Duw trugarog a graslawn,
  Yn barodiawn i faddau,
Gwna faddau'n rhwydd i'r hwn a gred,
  Er amled ei bechodau.

Mae Duw yn hoffi trugarhau
  A maddau 'r edifeiriol;
A hwnw 'n unig yn y llwch
  Gaiff heddwch yn drag'wyddol.

I wledda 'r euog, enaid clyw,
  Yn awr mae Duw yn foddlon:
Yn Nghrist mae 'r Duwdod wrth ei fodd
  Cyfiawnder waeddodd, "Digon."

---

## MAWL ODL.

I'r Tri yn un yn ddiwahan,
  Y Tad y Mab a'r Ysbryd Glan,
B'o'r holl ogoniant yn ddilen,
  Ac yn oesoesoedd mwy, Amen.

ARGRAPHWYD GAN EVAN WILLIAMS, DEAN STREET, BANGOR.

157

LIBRARY
14 JUL 1976
UNIVERSITY OF

PLEASE DO NOT REMOVE
CARDS OR SLIPS FROM THIS POCKET

UNIVERSITY OF TORONTO LIBRARY

PB
2297
J45A17
1879
c.1
ROBA

6 103006318008